Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023/2024

## ADFER, AILOSOD, ADNEWYDDU

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

www.npt.gov.uk

Os bydd arnoch angen yr wybodaeth hon ar ffurf print bras neu fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol: policy@npt.gov.uk

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Tudalen 3 | Rhagair gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Steven Hunt |
| Tudalen 4 - 5 | Cyflwyniad |
| Tudalen 7 | Cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol a’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy |
| Tudalen 9 - 27 | Amcan Llesiant 1 – Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd |
| Tudalen 28 - 41 | Amcan Llesiant 2 – Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy |
| Tudalen 42 - 59 | Amcan Llesiant 3 – Bod modd i genedlaethau’r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a’n treftadaeth |
| Tudalen 60 - 79 | Amcan Llesiant 4 – Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon (Swyddi a Sgiliau) |
| Tudalen 79 - 80 | Y Iaith Gymraeg |
| Tudalen 81 | Cydraddoldeb |
| Tudalen 82 | Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Tudalen 83 - 84 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT |


**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

**This document is also available in English**

**Os bydd arnoch angen yr wybodaeth hon ar ffurf print bras neu fformat arall, cysylltwch â’r Tîm Polisi Corfforaethol: policy@npt.gov.uk**

# Rhagair

*Mae Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2023-2024 yn dangos sut y bu modd i'r cyngor barhau i ddarparu gwasanaethau o safon tra'n wynebu pwysau ariannol sylweddol.*



ARWEINYDD Y CYNGOR,
Y CYNGHORYDD STEVEN HUNT

Gwelsom fwy a mwy o bobl yn chwilio am gymorth a chyngor gan wasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant a mwy o bobl ddigartref neu rai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Fel y mwyafrif o gynghorau ledled y wlad yn y cyfnod wedi Covid, gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ynghyd â chynnydd mewn gwaharddiadau cysylltiedig ag ymddygiad. Buom yn gweithio'n galed gyda'n hysgolion a'n hasiantaethau partner i wyrdroi'r tueddiadau hyn gyda chryn lwyddiant, ond gwyddom fod llawer mwy i'w wneud yn y ddau faes, nid yn unig i gyrraedd y lefelau cyn Covid ond i ragori arnynt trwy ein hegni a'n penderfyniad.

Mae'r pwysau hyn ar ein cyngor, ynghyd â seilwaith ac asedau sy'n heneiddio, a'r ffaith bod y cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn sylweddol is na'r hyn yr oedd ei angen er mwyn ymateb i anghenion a dymuniadau ein cymunedau, yn golygu ein bod ni'n dal i wynebu heriau.

Roedd y cyhoeddiad ynghylch rhaglen ddatgarboneiddio Tata Steel UK Ltd, sy'n golygu symud tuag at dechnolegau newydd, yn ychwanegu dimensiwn strategol pellach at y dirwedd gynaliadwy hon, ynghyd â diwedd y dull traddodiadol o wneud dur ym Mhort Talbot a newidiadau i lawer o weithlu ymroddedig y cwmni a'i gadwyni cyflenwi.

Wrth wynebu'r heriau hyn dros y blynyddoedd diwethaf, llwyddwyd i sicrhau swm mawr o gyllid buddsoddi gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i adfywio ein cymunedau. Croesawyd prosiectau sylweddol sydd â'r potensial i ddatblygu nifer mawr o swyddi cynaliadwy yn y dyfodol, gan gynnwys sicrhau statws Porthladd Rhydd i borthladd Port Talbot.
Fel cyflogwr mawr ein hunain, roeddem yn falch dros ben o dderbyn cydnabyddiaeth am ein gwaith i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb ac ennill gwobr Cyflogwr Chwarae Teg. Yn ogystal, roeddem yn un o wyth cyngor yn y Deyrnas Unedig - a'r unig gyngor yng Nghymru - ar restr fer Gwobr Cyngor Gorau'r Flwyddyn Cymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE) 2023. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn parhau i sbarduno ein gwaith.
Wrth symud ymlaen, manteisiwyd ar y cyfle i asesu a mireinio blaenoriaethau'r cyngor yng Nghynllun Corfforaethol 2024-2027, yng ngoleuni'r cyd-destun newydd rydym yn gweithio ynddo. Bydd gennym ddull gweithredu â mwy o ffocws iddo trwy 9 rhaglen drawsffurfiannol allweddol a bydd rhai o'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn wreiddiol yng Nghynllun Corfforaethol 2022-2027: Adfer, Ailosod, Adnewyddu yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau cyflawni neu mewn cynlluniau strategol eraill.


> "Mae sawl her o'n blaen yn sicr, ond yn ôl ein harfer, rydym yn dal i deimlo'n ffyddiog ac yn llawn uchelgais ar gyfer ein bwrdeistref sirol."

# Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2023/2024 yn darparu trosolwg cytbwys o'r cynnydd a wnaed gan y cyngor yn erbyn y pedwar amcan llesiant a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2022/2027 ac yn cymryd ein diben, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd i ystyriaeth.

**Diben, Gweledigaeth a Gwerthoedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

Diben y cyngor yw helpu trigolion Castell-nedd Port Talbot i fyw bywydau da.




Wrth gyflawni ein gwaith mae gennym y **gwerthoedd** canlynol:

**Cysylltu** – mae'r hyn sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni
**Golfalu** - rydyn ni'n poeni amdanoch chi, eich bywyd a dyfodol ein bwrdeistref sirol
**Cydweithredu** – rydyn ni'n gweithio gyda'n dinasyddion a'n partneriaid, oherwydd gyda'n gilydd gallwn gyflawni mwy
**Hyderus** – rydyn ni'n optimistaidd ac yn hyderus am y dyfodol

Ein gweledigaeth yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn; bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy; bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein treftadaeth a'n diwylliant; a bod gan bobl leol y sgiliau i gael mynediad at swyddi cynaliadwy am gyflog da yn yr economi werdd leol.

# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o'n dyletswydd statudol i adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth adolygu ein cynnydd yn ystod 2023/2024, a phenderfynu ailosod ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024/2027, buom yn myfyrio ar ein hamcanion llesiant, gan gymryd yr adborth o ymgyrch Parhewch i Sgwrsio a gynhaliwyd yn ystod 2023 a ffactorau dylanwadol eraill i ystyriaeth a chytunwyd bod yr amcanion llesiant yn berthnasol o hyd.


Mae ein hamcanion llesiant yn fodd i ni ddangos ein cyfraniad at y saith nod llesiant cenedlaethol. Ceir rhagor o fanylion am hyn ar dudalen 7.

Roedd y Rhaglen o Newid Strategol a oedd yn rhan o Gynllun Corfforaethol 2022/2027 yn pennu nifer o gamau gweithredu a mesurau i'w cyflawni yn ystod 2023/2024, ochr yn ochr â'n nodau tymor canolig a'n huchelgeisiau mwy hirdymor.

Er bod y cyngor wedi symud allan o'i safle adferol o ganlyniad i'r pandemig, mae'r effaith i'w theimlo o hyd gyda nifer o'n gwasanaethau yn dal i fod o dan bwysau. Mae'r cyllid sydd ar gael, y cynnydd mewn prisiau ynni a'r argyfwng costau byw wedi effeithio ymhellach ar hynny.

## Ein pedwar amcan llesiant yw

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy
- Bodd modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth
- Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon



# EIN HYMRWYMIAD I CHI YN 2023/2024

Yn ystod 2023/2024 gwnaethom ymrwymiad i ganolbwyntio ar bum maes allweddol:

**Parhau i ganolbwyntio'n glir ar adfer wedi Covid-19.** O ganlyniad i Covid-19, y cyfnod ymateb a'r polisïau cysylltiedig a ddaeth i'r amlwg, gwelwyd llawer mwy o alw/angen yn y gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg ynghyd â chynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion. Ni wyddom yn iawn pryd bydd y cynnydd yn y galw/yr angen yn cyrraedd uchafbwynt na beth fydd goblygiadau unrhyw effeithiau hirdymor. Mae gan y cyngor lawer o ddyletswyddau statudol i'w cyflawni mewn perthynas â'r bobl yr effeithiwyd arnynt felly mae canolbwyntio ar ein gwaith adfer yn allweddol er mwyn atal rhagor o achosion rhag troi'n argyfwng a fyddai'n gofyn am ddatrysiadau llawer drutach.

**SCefnogi ein cymunedau trwy'r argyfwng costau byw.** Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022-2023 , roeddem eisoes yn gweld arwyddion caledi ariannol ar draws cymunedau. Mae'r argyfwng ynni a'r cynnydd enfawr mewn chwyddiant yn golygu bod llawer mwy o drigolion a busnesau wedi profi caledi ariannol. Mae'r cyngor yn parhau i chwarae rôl arwyddocaol wrth sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n gymwys; ac mae'r cyngor wedi parhau â'i bartneriaeth â Cymru Gynnes, i helpu'r rhai sy'n profi'r caledi mwyaf ond sy'n methu cael cymorth o ffynonellau eraill. Darparwyd cefnogaeth ymarferol ychwanegol trwy newid diben mwy na 30 o adeiladau'r cyngor er mwyn helpu pobl i gael mynediad at gefnogaeth a lleoedd cynnes; gweithiwyd gyda phartneriaid i hyrwyddo pob math arall o gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i bobl mewn angen; a chanolbwyntio mwy ar lefel gymunedol ar chwilio am y bobl fwyaf agored i niwed a'u cysylltu â chymorth a chefnogaeth yn agos at ble maen nhw'n byw.

**Hwyluso a Galluogi Twf Economaidd –** Rydym yn falch o ddelio â phortffolio cynyddol o gynlluniau economaidd o bwys sy'n cynnwys: buddsoddiad arfaethedig gwerth £250 miliwn mewn canolfan antur yng Nghwm Afan; buddsoddiad arfaethedig gwerth £200 miliwn yn y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghwm Dulais; y Porthladd Rhydd Celtaidd sy'n cwmpasu porthladd Port Talbot a Aberdaugleddau, a fyddai'n denu £25 miliwn o gyfalaf sbarduno a £0.5 biliwn o bosib mewn ardrethi busnes fyddai'n cael ei neilltuo ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith caled a meddal yn ystod oes y rhaglen; rhaglen fuddsoddi gwerth £32 miliwn trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Lluosi: cyflwyniad parhaus rhaglen y Fargen Ddinesig; ynghyd â llwyddiant ein cynigion i'r Gronfa Ffyniant Bro. Mae'r cyngor wedi perfformio'n dda wrth barhau i gefnogi'r cynlluniau hyn ond bydd angen cynyddu'r buddsoddiad yn y swyddogaethau twf economaidd er mwyn sicrhau cyflwyniad llwyddiannus y portffolio hwn a mwyafu'r budd i'r bobl leol a'r cadwyni cyflenwi lleol, yn enwedig yn sgîl cynlluniau Tata Steel i ddatgarboneiddio'i waith dur ym Mhort Talbot.

**Cyflwyno blaenoriaethau polisi lleol a rhai Llywodraeth Cymru. 2023/2024** oedd y drydedd flwyddyn yn nhymor cyfredol y Senedd ac ail flwyddyn y tymor llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhaglen helaeth o ymrwymiadau polisi a fydd yn effeithio ar gynghorau. Drwy weithio i gyflawni ein hamcanion llesiant, rydym yn bodloni'r gofynion a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae gan Gynghrair Castell-nedd Port Talbot ei flaenoriaethau polisi ei hun hefyd sy'n cael eu symud ymlaen fel rhan o'r Rhaglen o Newid Strategol yn y Cynllun Corfforaethol.


**Sicrhau cyngor cynaliadwy –** Gwelwyd newid sylweddol yn amgylchedd gweithredu'r cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r newidiadau mawr i ragolygon y gyllideb, y cyfyngiadau ar y gweithlu a chyflymder y newid yn cyfuno i herio'r model gweithredu presennol. Yn y tymor canolig, bydd angen i'r cyngor barhau i ddilyn strategaeth gadarn a fydd yn trawsffurfio dull o gyflwyno gwasanaethau a swyddogaethau o fewn fframwaith o flaenoriaethau â diffiniad clir, ochr yn ochr â sicrhau cynaliadwyedd ariannol a llywodraethiant da.

# Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Mae'r cynnydd a gyflawnwyd ar draws ein 4 amcan llesiant yn rhychwantu'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

Amcan Llesiant 1 - Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd


Amcan Llesiant 2 - Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy




Amcan Llesiant 3 - Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth

Amcan Llesiant 4 - Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon (Swyddi a Sgiliau)

# Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn ymgorffori Egwyddor Datblygu Cynaliadwy




Dyluniwyd y Ddeddf i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae ein gwaith i gyflawni ein gweledigaeth gorfforaethol yn cymryd i ystyriaeth egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio ac yn eu gwreiddio ar draws y cyngor er mwyn cyfrannu at y weledigaeth.

**Lefel strategol –** Drwy gychwyn rhaglen o newid strategol, byddwn yn sicrhau ein bod yn cofleidio dull strategol 'un cyngor' o gyflawni'r weledigaeth.

**Lefel gorfforaethol –** Caiff strategaethau corfforaethol eu haddasu i gefnogi cyflawni'r weledigaeth a chyflwyno'r rhaglen o newid strategol.

**Lefel weithredol –** Mae pob gwasanaeth a swyddogaeth o fewn y cyngor wedi alinio'u cynlluniau adfer gwasanaeth er mwyn mwyafu eu cyfraniad i gyflawni'r weledigaeth a bennwyd.

**Lefel unigol –** Mae pob cyflogai'n teimlo cymhelliad a gwerthfawrogiad, ac yn deall eu rhan yn ein dulliau strategol a gweithrediadol. Mae hyfforddiant a datblygiad ar gael i bob gweithiwr , yn cefnogi cyflawni'r cynllun corfforaethol, gyda ffocws ar y prif flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hyfforddi sydd ar gael.

# Amcan Llesiant

Mae'r tudalennau canlynol yn darparu trosolwg o'r cynnydd a'r cyflawniadau allweddol yn ystod 2023/2024.



## 1 Amcan Llesiant 1 – Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd - Crynodeb

Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod 2023/2024 o ran cyflawni amcan llesiant 'Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd'.

Mae'r cynnydd yn parhau o ran hyrwyddo rhaglen ariannu lleoedd y gofal plant Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant, er mwyn hyrwyddo pontio llwyddiannus o'r blynyddoedd cynnar i'r ysgol.

Mae pob ysgol gynradd a disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn yr ysgolion cyfun wedi dechrau gweithio o dan fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Ochr yn ochr â'r gwaith pontio hwn, mae presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth i bawb ac rydym yn dal i weithio'n galed i gefnogi ein hysgolion er mwyn ceisio lleihau nifer y gwaharddiadau. Rydym yn defnyddio'r y Cynllun Cymorth Bugeiliol (PSP) a'r broses amserlenni llai i roi cynlluniau disgybl-ganolog ar waith. O gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, gwelwyd cynnydd mewn presenoldeb i 90.97% mewn ysgolion cynradd ac 87.60% mewn ysgolion uwchradd. Ond, mae'r cyfraddau presenoldeb yn dal yn is nag oeddent cyn y pandemig, fodd bynnag, ac rydym yn sylweddoli bod rhagor o waith i'w wneud.

Yn achos y rhai sy'n gadael addysg, mae Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol y Gwasanaeth Ieuenctid, sy'n cefnogi'r bobl ifanc y nododd eu hysgolion eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf o ddod yn NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant), wedi cefnogi 194 o bobl ifanc i symud o'r ysgol i gyrchfan ôl-16 gadarnhaol mewn addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r gwaith hwn o gymorth pellach i leihau canran ymadawyr Blwyddyn 11 sy'n NEET, sydd wedi gostwng o 2.41% yn 2022/2023 i 1.3% yn 2023/2024.

Cyfanswm Nifer y Nodau: 20

- 13 ar y llwybr cywir
- 7 â rhagor o waith i'w wneud
- 0 heb ddilyn y llwybr cywir

Cyfanswm Nifer y Mesurau Perfformiad: 9

- 4 ar y llwybr cywir
- 2 â rhagor o waith i'w wneud
- 2 heb ddilyn y llwybr cywir
- 1 â data heb ei gasglu / heb fod ar gael

# Amcan Llesiant 1 Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd

Mae'r 20 nod isod, a gafodd eu cymeradwyo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2022/2027, yn pennu cyfeiriad y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2023/2024. Mae'r statws Coch, Ambr, Gwyrdd (CAG) yn darparu trosolwg o'r cynnydd ac mae'r tudalennau dilynol yn amlygu rhai o'r cyflawniadau allweddol rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

1. Gweithiwyd gyda phartneriaid i sicrhau bod ein plant ifancaf wedi'u paratoi'n well ar gyfer pontio i'r ysgol.

2. Cwblhawyd y gwaith o estyn cynllun Prydau Ysgol am Ddim Llywodraeth Cymru i bob disgybl ysgol gynradd.

3. Gwell cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys gwell gwasanaethau chwarae a hamdden.

4. Mae gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cydweithio er mwyn adnabod anghenion plant a theuluoedd yn gynnar, ac mae cymorth yn cael ei gydlynu ar draws asiantaethau ac yn gwella.

5. Mae plant yn gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac yn eu deall.

6. Dull cydgysylltiedig o fodloni anghenion iechyd a llesiant meddyliol ein plant a'n pobl ifanc.

7. Mae gweithdrefnau diogelu a chefnogi cadarn ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc.

8. Mae mwy o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unol â'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

9. Mae llai o blant a phobl ifanc yn cael eu gwahardd o'r ysgol.

10. Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella.

11. Bydd mwy o bobl ifanc wedi cofrestru i bleidleisio ac yn defnyddio'u pleidlais yn etholiadau Cymru.

12. Bydd yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael mynediad at lety addas ac yn ei gynnal.

13. Cefnogi gofalwyr ifanc i gael mynediad at gyfleoedd.

14. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chôd Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021 yn cael eu gweithredu'n llawn, gan godi safonau ar draws ein system addysg.

15. Darparwyd cyfleoedd i alluogi pob dysgwr, teulu a gofalwr i elwa o'r cyfle i ddysgu, gwerthfawrogi a ffurfio'u bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg

16. Gwreiddiwyd diwygiadau addysg sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a chymorth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a bydd y newidiadau hyn yn codi safonau ar draws ein system addysg.

17. Symudwyd ymlaen â'n Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion gan gynyddu nifer yr amgylcheddau dysgu ac addysgu addas i'r 21ain ganrif sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

18. Rhoddwyd rhaglen addysgu ar waith y gall pob ysgol gael mynediad ati, gan greu cymunedau athrawon cyffrous a blaengar sy'n gallu cefnogi ei gilydd a dysgu ar y cyd.

19. Datblygu rhaglen arweinyddiaeth a golwg hirdymor ar ddatblygu doniau a meithrin arweinwyr y dyfodol gyda rhaglen o anogaeth a mentora unigol.

20. Mae'r trefniadau i gefnogi pobl ifanc sy'n gorffen eu haddysg statudol yn cael eu gwella, gyda'r holl bobl ifanc yn mynd ymlaen i hyfforddiant, addysg neu waith.

# Cynnydd o ran Camau Gweithredu Cynllun Corfforaethol 2023/2024 Cefnogi Plant a Phobl Ifanc

Yn ystod 2023/2024 dechreuwyd gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CNPT 2024/2029. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid lle mynegwyd blaenoriaethau a chamau gweithredu strategol ar gyfer gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Disgwylir cyhoeddi'r Cynllun partneriaeth terfynol yn hydref 2024.

## Y Blynyddoedd Cynnar

Mae cymorth pontio effeithiol ar gael i bob plentyn. Mae hyn yn cynnwys cymorth y timau Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant, teuluoedd, lleoliadau gofal plant ac ysgolion er mwyn sicrhau pontio effeithiol i ofal plant ac addysg. Mae'r cyngor yn rheoli'r broses bontio i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol, gyda ffocws clir ar fodloni anghenion datblygiad plant.
Helaethwyd y rhaglen gofal plant Dechrau'n Deg sydd wedi'i hariannu i gynnwys plant dwy oed, gyda chefnogaeth y tîm Blynyddoedd Cynnar a gofal plant Dechrau'n Deg. Arweiniodd hynny at gynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau sy'n cynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg sydd o safon uchel ac wedi'u hariannu.

Mae'r cyngor yn hwyluso cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru gan sicrhau ei bod yn hawdd i rieni gyflwyno cais. Mae tîm y Cynnig Gofal Plant yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i hyrwyddo'r cynnig ac ymdrin â rhwystrau ymgysylltu. Mae'r tîm hefyd yn ymgysylltu â darparwyr gofal plant, yn eu hannog i fod yn rhan o gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ac yn cefnogi cynaliadwyedd yn y sector gofal plant.

*Mae **44** o leoliadau gofal plant a **4 o warchodwyr plant** yn gweithio gyda ni fel rhan o gynllun ehangu Dechrau'n Deg.*



*Cafodd **1129 o blant** fynediad i ofal plant Dechrau'n Deg wedi'i ariannu, gan gynnwys **322 o blant** sy'n gymwys i gael gofal plant trwy raglen ehangu Dechrau'n Deg*

*Darparwyd **2393** o leoedd gofal plant diwrnod llawn yn ystod 2023/2024*



*Cafodd **1463** o blant 3 a 4 oed fynediad i ofal plant rhan-amser wedi'i ariannu trwy'r Cynnig Gofal Plant.*

## Gwasanaethau Plant

Rydym yn gyngor uchelgeisiol sydd am gyflawni llawer er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau posib mewn bywyd, y cymorth cywir pan fydd angen hynny arnynt, a phrofiadau bywyd cadarnhaol.

Mae helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ffocws allweddol i'r Gwasanaethau Plant, gan mai teuluoedd sydd yn y sefyllfa orau i fodloni anghenion eu plant, os gellir eu cefnogi i wneud hynny'n diogel. Gall gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth leihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cyrraedd y trothwy gofal ac sydd angen gofal, neu eu helpu i ddychwelyd at eu teuluoedd mewn modd diogel ac amserol. Rhaid rheoli risg yn effeithiol gyda theuluoedd sy'n agosáu at y trothwy gofal, a gweithio i sicrhau y darperir gofal i'r plant y mae angen iddynt gael gofal y tu allan i'r teulu yn unig, a'u bod yn cael cefnogaeth i aros yn y cartref teuluol pan fydd hynny'n ddiogel. Byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu ystod o ymyriadau sy'n helpu teuluoedd i newid, ochr yn ochr â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser a bod cynlluniau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.



Yn achos plant a phobl ifanc sy'n cael gofal preswyl, credwn mai'r ardal leol, yn nes at eu teulu, eu ffrindiau a'r cymunedau sy'n gartref iddynt, yw'r lle gorau iddynt fod. Comisiynir ein holl leoliadau preswyl yn allanol ar hyn o bryd. Felly, rydym am ddatblygu darpariaeth breswyl cam-i-lawr ar raddfa fach â 3 ystafell wely a fydd yn dilyn model adfer wedi trawma (TRM) er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i'n plant a'n pobl ifanc. Yn ddelfrydol, carem hefyd weld nifer y bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi preswyl yn lleihau, felly rydym yn canolbwyntio ar recriwtio gofalwyr maeth 'cam-i-lawr' i gefnogi plant a phobl ifanc i bontio o ofal preswyl i ofal maeth pan fydd hynny'n briodol.

Yn achos plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan CNPT, lle nad yw ailymuno â'r teulu, mabwysiadu neu warchodaeth arbennig yn ddewis ymarferol, rydym am iddynt fyw mewn cartrefi maeth cariadus, gofalgar, lle byddant yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn ac yn gallu bod yn nhw eu hunain. Ond mae prinder gofalwyr maeth ar hyn o bryd. Mae angen cynyddu nifer y gofalwyr maeth byrdymor a hirdymor ar gyfer plant hŷn a nifer y gofalwyr maeth seibiant byr. Mae hyn yn cynnwys datblygu Maethu a Mwy (Foster Plus) sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Mae'n bwysig deall anghenion unigol plant a'r galw yn y dyfodol, a chynllunio a darparu ar eu cyfer. Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn allweddol o ran galluogi ymarferwyr i feithrin perthnasoedd â phlant a theuluoedd. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein gweithwyr cymdeithasol trwy fod yn gystadleuol ac apelgar o ran recriwtio a chadw staff a thrwy edrych ar y posibilrwydd o gynnig tâl atodol (a elwir yn dâl atodol ar sail y farchnad). Bydd hyn yn helpu i leihau'r angen am gyflogi staff asiantaeth yn ein gweithlu.

## Gwasanaethau Plant

Gan weithio ar y cyd ag eraill, mae Cyngor CNPT yn parhau i feithrin gwydnwch ymhlith plant a theuluoedd, ac atal problemau rhag gwaethygu trwy ddarparu cynigion cymorth a chefnogaeth yn gynnar.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cefnogi teuluoedd ar y cyfle cynharaf, trwy gryfhau'r gwasanaethau cymorth a recriwtio prif swyddog amser llawn i fod yn gyfrifol am ataliaeth a chymorth i deuluoedd. Drwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Oedolion, gallwn ymateb i heriau fel yr argyfwng costau byw presennol a sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael cefnogaeth pan fydd angen hynny arnyn nhw.

I gefnogi ein dull gweithredu Ymarfer â Ffocws ar Ddeilliannau, yn enwedig o ran yr hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd, ac i ddeall yr effaith a gawn a'r gwahaniaeth a wnawn, mae gennym Arweinydd Strategol penodedig ar gyfer Cyfranogiad ac Ymgysylltiad. Mae gwrando ar lais y plentyn a'i ddeall yn allweddol yn ein holl waith. Rydym hefyd yn hybu Hawliau Plant trwy ddatblygu Hyrwyddwyr Hawliau Plant ar draws y gwasanaeth a gweithio'n unol ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae gan Gyngor CNPT raglen waith hirsefydlog i ddatblygu ymateb ymarferwyr i angen, niwed a risg. Yn 2023/2024 adolygodd y cyngor ei ymateb i Ofal a Chymorth, a Thrais a Cham-drin Domestig, gan droi canfyddiadau'r adroddiadau hyn yn gynlluniau gweithredu.

Cam-drin Plant yn Rhywiol yw'r ffactor risg a'r niwed amlaf ar draws CNPT, a buddsoddwyd mewn hyfforddiant a gyflwynir gan y Ganolfan Ragoriaeth ynghylch Cam-drin Plant yn Rhywiol. Bellach mae Arweinydd Ymarfer ynghylch Cam-drin Plant yn Rhywiol ym mhob Tîm Gwasanaethau Plant. Mae adolygiad cyflym o'n hymateb i Niwed y tu allan i'r Cartref Teuluol ar waith ar gyfer 2024, a fydd yn sicrhau y defnyddir yr Arweinwyr Ymarfer hyn yn llawn er mwyn gwella ymarfer ymhellach yn y maes penodol hwn. Mae'r cyngor yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun Cyflawni Cenedlaethol nesaf ynghylch Cam-drin Plant yn Rhywiol.

Bellach, mae'r plant y nodwyd eu bod mewn perygl neu wedi cael niwed yn pontio i'r gwasanaeth Diogelu Oedolion ac mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y pontio hwn yn ddi-fwlch. Mae Grŵp Partneriaeth Strategol SAFE yn parhau i oruchwylio ymateb y bartneriaeth i niwed y tu allan i'r cartref teuluol, gan sicrhau ymateb cynnar a chydlynus ac amlygu'r tueddiadau newydd sy'n dod i'r amlwg o ran gwaith datblygu – er enghraifft, nodwyd bod risg a niwed ar-lein yn faes y mae angen ei ddatblygu.

Mae ymatebion i bersonau o ddiddordeb a mannau sy'n peri pryder yn dal i ddatblygu.



## Cymorth i Deuluoedd


Mae Teulu CNPT (y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gynt) yn ymgysylltu'n uniongyrchol â rhieni, gofalwyr ac asiantaethau lleol i hyrwyddo cymorth a chefnogaeth gynnar. Mae Gweithiwr Estyn Allan i Deuluoedd CNPT yn wyneb cyfarwydd mewn digwyddiadau cymunedol ar draws y sir gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau lleol a'r wybodaeth sydd ar gael i blant a theuluoedd. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol i rannu manylion am ddigwyddiadau a chymorth lleol, gan gynnwys cymorth ariannol, gweithgareddau i blant ag anghenion ychwanegol, a gwasanaethau iechyd a lles emosiynol.

Ar ddiwedd 2023/24, diweddarwyd brand Teulu CNPT i gynnwys gwybodaeth am gymorth cynnar, Dechrau'n Deg, y panel Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth er mwyn cynnig mwy o eglurder i deuluoedd ac asiantaethau am y cymorth sydd ar gael
.

Darperir cymorth ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc trwy'r panel Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth amlasiantaeth. Dywed y panel eu bod yn gweld anghenion mwy cymhleth yn yr atgyfeiriadau, sy'n golygu bod mwy o bwysau ar y gwasanaethau ymyrraeth gynnar i fodloni'r anghenion hynny.

Yn ystod 2023/2024 cwblhawyd adolygiad Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth, yn dilyn gwaith ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, gyda ffocws ar ddeall y rhwystrau sy'n wynebu plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth gyrchu cefnogaeth.

Bwriedir defnyddio deilliannau'r adolygiad i lywio a datblygu gwaith y panel a'r gwasanaethau cymorth. Mae sicrhau bod gwasanaeth cymorth y panel Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth yn parhau i ddatblygu'n llwyddiannus yn un o flaenoriaethau allweddol y gwasanaeth.




**Trwy waith y Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth:**

Mae **100%** (34/34) o'r bobl ifanc a gefnogwyd yn dangos gwelliant yn eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu

Dywedodd **84.3%** (166/197) o'r bobl ifanc bod eu perthynas â'u teulu wedi gwella.

Mae **85.8%** (169/197) o'r bobl ifanc yn gweld gwelliant yn eu lles emosiynol/meddyliol

## Addysg

### Y Cwricwlwm i Gymru

Yn sgîl cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, mae pob ysgol gynradd a Blynyddoedd 7 ac 8 yn yr ysgolion uwchradd wedi dechrau gweithio o dan y fframwaith. Cefnogir y broses hon ar lefel leol, o fewn y clwstwr ac yn genedlaethol, gan effeithio'n uniongyrchol ar fwy na 40 o athrawon mewn 20 o ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Yn ogystal â'r rhaglenni addysgu a dysgu, mae pob ysgol yn CNPT yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'r pedwar diben wrth i'r addysgu esblygu.

Mae hyn yn seiliedig ar raglen hunanarfarnu gadarn a gyflawnwyd gan yr ysgolion, gyda chymorth y cyngor, i werthuso cynnydd y disgyblion. Dengys y canfyddiadau cychwynnol po hynaf yw'r disgyblion, mwyaf y mae'r addysgu'n culhau er mwyn canolbwyntio ar gaffael gwybodaeth. O ganlyniad, mae'r athrawon yn datblygu ffyrdd o gynllunio ar gyfer cynnydd mewn gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth, galluoedd a phriodoleddau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dechrau datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu dealltwriaeth, eu gwerthoedd a'u hagweddau.

Mae'r addysgu yn datblygu yn ysgolion CNPT. Gwelir lefelau uwch o ddysgu proffesiynol, mwy o ffocws ar werthuso'r addysgu ac ystod eang o gyfleoedd sy'n denu niferoedd da o bob ysgol. Mae'n rhy gynnar, fodd bynnag, i weld effaith y gwaith hwn.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r gwaith o sicrhau ansawdd y Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol a'r ysgolion yn parhau, a darperir hyfforddiant a chefnogaeth reolaidd i bob ysgol yn CNPT. Mae Rheolwyr y Gwasanaeth Cynhwysiad yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gynnal ymarferiad sicrhau ansawdd mewn perthynas â Darpariaeth Dysgu Ychwanegol y Bwrdd Iechyd. Mae'r garfan berthnasol o ddysgwyr â Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn symud draw i'r Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn unol â'r amserlenni a bennwyd.



### Symud Ymlaen 2024/2027

Mae troi Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUiau) yn ffocws allweddol i'r gwasanaeth, gyda'r nod o sicrhau bod CDU wedi'i gyhoeddi neu'n cael ei ddatblygu ar gyfer pob dysgwr perthnasol erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd (Medi 2024). Cydnabyddir bod hwn yn faes risg ac i leihau'r risg hwnnw, mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (GADY) wedi defnyddio cyllid o'r Grant ADY i gynyddu capasiti a sicrhau y glynir at y prosesau statudol.

# Addysg

## Y Cwricwlwm i Gymru

Wrth i ni ganolbwyntio ar gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a datblygu cyfleoedd i blant ymgysylltu yn y gymuned, darparwyd cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu am eu hamgylchedd lleol, eu treftadaeth a'u diwylliant.

- daeth 45 o athrawon i 2 sesiwn hyfforddiant 'clwstwr cynefin' yng Nghanolfan Addysg Baglan i drafod nifer o wahanol wasanaethau cymorth o'r Fenter Iaith i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd.
- bu 1770 o gyfranogwyr yn rhan o ymweliadau ysgol, darparwyd sesiynau archaeolegwyr ifanc a sesiynau hanes ymarferol yn y llyfrgelloedd rhwng Ebrill 2023 a March 2024.

## Ein hadeiladau ysgol

Ymgymerwyd â chyfres o gynlluniau a phrosiectau sylweddol i adeiladu ac adnewyddu ysgolion fel rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif).

Yn ystod 2023/2024, cyflwynodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot Raglen Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru a oedd yn manylu ar y cynigion canlynol:

- Adeiladu darpariaeth ychwanegol i gefnogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth;
- Datblygu darpariaeth sgiliau galwedigaethol seiliedig ar sgiliau;
- Symud ymlaen ymhellach â'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd yng Nghwm Tawe;
- Symud ymlaen â chyfleuster yn lle Ysgol Gyfun Llangatwg;
- Symud ymlaen ag ysgol yn lle Ysgol Gynradd Tywyn, a fydd yn ymgorffori cyfleuster â lle i 48 o bobl ifanc ag anawsterau dysgu difrifol;
- Datblygu ymhellach gynigion ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn nwyrain y fwrdeistref sirol; a
- Symud ymlaen â chynigion i ddatblygu Ysgol Ganol 7-18 oed Sant Joseff.

Yn sgîl cymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol, bydd modd cynnal proses dendro er mwyn penodi contractwyr ar gyfer y prosiectau yn rhan o raglen dreigl dros 9 mlynedd.








# Addysg

## Presenoldeb yn yr ysgol

Mae presenoldeb yn flaenoriaeth i bawb ac rydym yn dal i weithio'n galed i gefnogi ein hysgolion er mwyn ceisio lleihau nifer y gwaharddiadau. Rydym yn defnyddio proses y Cynllun Cymorth Bugeiliol (PSP) ac amserlenni llai i roi cynlluniau disgybl-ganolog ar waith. Sefydlwyd tîm Asesu Achosion a Chynnydd (CAP) yn ystod 2023/2024 gyda'r bwriad bod plant a allai fod mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod yr holl bartneriaid perthnasol yn cael eu galw ynghyd i gynllunio'r pecyn cymorth mwyaf priodol ar gyfer pob unigolyn. Mae defnyddio PSPs wedi rhoi mwy o ddewis i ysgolion o ran y camau y gellir eu cymryd i gefnogi plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae'r Cwnselydd Cymunedol yn parhau i gefnogi iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc sydd wedi colli diddordeb yn yr ysgol neu sydd mewn perygl o wneud hynny. Caiff plant a phobl ifanc â phresenoldeb isel (o dan 80%) eu hatgyfeirio trwy'r Panel Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth, gyda'r nod o archwilio'r rhwystrau i fynychu'r ysgol a chyda golwg ar helpu'r plentyn/person ifanc i ailgysylltu ag addysg, gwaith neu hyfforddiant.

O gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, mae presenoldeb ar i fyny ond mae'r cyfraddau presenoldeb yn dal i fod yn is nag oeddent cyn y pandemig. Cyflwynwyd cyfarfodydd cylch atebion gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o adrannau eraill megis Anghenion Dysgu Ychwanegol/y Gwasanaethau Cymdeithasol/Osgoi'r Ysgol ar sail Emosiynol/y Gwasanaeth Seicoleg Addysg. Cynhaliwyd trafodaethau â Phenaethiaid ysgolion sydd wedi gwella ymgysylltiad â'r Gwasanaeth Swyddogion Cymorth Addysg. Cynhaliwyd y digwyddiad cenedlaethol cyntaf ar gyfer Swyddogion Lles Addysg yng Nghastell-nedd Port Talbot, ar y cyd â Rhondda Cynon Taf a Llywodraeth Cymru, er mwyn helpu i wella presenoldeb yn yr ysgol gyda sylw arbennig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol, prydau ysgol am ddim a phlant sy'n colli addysg. Mae'r hyfforddiant ar y cyd/canolbwyntio ar atebion/cylchoedd atebion/rhannu arferion da yn parhau gyda Rhondda Cynon Taf, sydd â lefelau tebyg o amddifadedd i Gastell-nedd Port Talbot.

Penodwyd Swyddogion Cymorth Presenoldeb trwy Grant Llywodraeth Cymru i gefnogi gwella presenoldeb yn yr ystod 70-80%. Lansiwyd ein hymgyrch presenoldeb 'Colli Ysgol, Colli Cyfle', sy'n cwmpasu holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot. Mae'r cyngor yn cynnig Gwasanaeth Lles Addysg penodedig i gynorthwyo rhieni a gwarcheidwaid sy'n wynebu heriau wrth geisio cael eu plant i fynd i'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor a chefnogaeth i rieni plant oed ysgol gorfodol, gyda'r nod o hyrwyddo presenoldeb cyson a gwella'r profiad addysg cyffredinol. Mae'r ymgyrch yn pwysleisio rôl rhieni a gwarcheidwaid wrth atal absenoldebau ysgol. Mae'n annog teuluoedd i sefydlu patrwm cyson o oedran cynnar, gan esbonio manteision presenoldeb a phrydlondeb da a chyfranogi'n weithredol yn addysg eu plentyn trwy gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol a thrafod gwaith ysgol.



## Addysg

### Iechyd a lles Emosiynol

Mae Dull Ysgol Gyfan Llywodraeth Cymru o Ymdrin â Iechyd a Lles Emosiynol yn cael ei wreiddio mewn ysgolion ar draws Castell-nedd Port Talbot, gyda chefnogaeth Cydlynydd Ardal Leol Iechyd Cyhoeddus Cymru a fforymau amlasiantaeth.
Mae'r dull amlasiantaeth hwn o ddatrys problemau yn parhau i rymuso'r oedolion y gellir ymddiried ynddynt ym mywydau pobl ifanc ac fe'i hamlygwyd fel enghraifft dda o'r fframwaith rhoi Nerth, Ymddiried, Tyfu'n ddiogel a Hybu (NYTH) ar waith.
Mae goruchwyliaeth i'r Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) bob hanner tymor, cydgynllunio tymhorol ar draws y gwasanaethau cynhwysiad ar gyfer ysgolion a'r model cymunedol o gyflwyno gwasanaethau i gyd yn amlygu'r gwaith cydweithredol sy'n digwydd i gefnogi anghenion iechyd a lles emosiynol disgyblion.
Mae'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion (SBCS) yn parhau i gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol disgyblion trwy'r Gwasanaeth Cwnsela yn yr Ysgolion Uwchradd a'r Ysgolion Cynradd. Mae therapyddion y Gwasanaeth hwn yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill o amgylch y plentyn/person ifanc fel bod anghenion yn cael eu diwallu yn y ffordd orau.

**Mae 52 o ysgolion cynradd (98.1%), 8 ysgol uwchradd (100%), a 2 ysgol arbennig (100%)** wedi ymuno â'r Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Iechyd a Lles Emosiynol.

&

Mae **39** o ysgolion wedi rhoi eu henwau i lawr i gymryd rhan yn y rhaglen llesiant staff.



Mae rheolwr SBCS wedi cynnal cynhadledd ar gyfer pob ysgol ar y cyd â chydlynydd ardal leol y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Iechyd a Lles Emosiynol. Yn y gynhadledd honno, hoeliwyd sylw ar lesiant staff.

### Prydau ysgol am ddim

Llwyddwyd i estyn prydau ysgol am ddim i'r holl grwpiau blwyddyn ysgol gynradd.

Mae'r gwaith estyn hwn wedi arwain at **weini mwy na 7,235 o brydau ysgol ar gyfartaledd bob dydd.**




Mae **Bwyd a Hwyl,** sy'n cael ei redeg gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Castell-nedd Port Talbot, yn rhoi cyfle i blant gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau corfforol llawn hwyl, dysgu am fwyd a maeth, yn ogystal â chael brecwast a chinio iach. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun ac fe'i cyflwynir gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) er mwyn cynnig cymorth i blant a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig.

## Addysg a Dysgu fel Teulu

Cyflwynir grwpiau magu plant mewn ysgolion i annog rhieni i ymgysylltu â'r ysgol a helpu i ddatblygu rhwydweithiau cymunedol.

Mae'r cymorth a gynigir yn cynnwys gwella sesiynau aros a chwarae yn yr ysgol trwy ddarparu sesiynau Iaith a Chwarae am chwe wythnos, cyflwyno grwpiau tylino babanod, a sicrhau ymgysylltu cynnar rhwng y rhieni a'r ysgol. Anogir gweithwyr magu plant i hwyluso grwpiau rhieni yn yr ysgol ar gyfer rhieni plant o bob oedran, gan gynnwys Trafod Arddegwyr a Meithrin Rhieni.

Cyflwynwyd sesiynau Dysgu fel Teulu gan y gwasanaeth Dysgu Oedolion yn ysgolion cynradd Blaendulais, Awel y Môr, y Creunant, yr Alltwen, a Chroeserw. Mae rhieni yn yr holl ysgolion wedi cwblhau o leiaf un uned achrededig. Roedd pynciau'r sesiynau yn cynnwys:

- Ffoneg
- Sachau Storïau
- Gwyddoniaeth
- Coginio ar Gyllideb
- Cymorth gyda Gwaith Cartref
- Rhifedd
- Cyrsiau ymwybyddiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol: Awtistiaeth, ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd) a Dyscalcwlia a sgiliau digidol.

Mae Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc 2022/2025 yn amlinellu sut y byddwn yn cynyddu cyfleoedd i gyfranogi ac yn sicrhau eu bod yn ystyrlon ac yn gynhwysol. Datblygwyd y Strategaeth gyda phlant a phobl ifanc trwy weithdai lle buom yn cofnodi'r hyn oedd yn bwysig iddynt.

Mae'r Strategaeth ar ei ffurf derfynol yn cynnwys fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn addas i blant a phobl ifanc, gyda chefnogaeth fframwaith hyfforddi sydd ar gael i bob tîm.

Mae pob gwasanaeth yn deall llawer mwy am sut mae cyfranogiad da yn edrych ac mae lleisiau plant a phobl ifanc na fyddent yn ymgysylltu fel arfer yn cael eu clywed ar y pynciau sy'n effeithio arnynt.



# Addysg

## Datblygu ein Hathrawon

Mae'r rhaglen addysgu a dysgu yn datblygu'n dda. Cyflwynwyd y canlynol:

- 6 sesiwn addysgu a dysgu, gyda chymorth pwrpasol i'r ysgolion rhwng pob sesiwn – mae 2 garfan wedi cwblhau 4 o'r 6 sesiwn hyd yn hyn eleni.
- mae 2 gylch hyfforddiant yn cydredeg ym mhob blwyddyn academaidd – tua 40 o unigolion, a 20 o ysgolion y flwyddyn

Soniodd y cyfranogwyr am yr effeithiau canlynol o ganlyniad i'r rhaglen:

"Dealltwriaeth ddyfnach o gynnydd a'r Cwricwlwm i Gymru."

"Esblygiad addysgu trwy gydweithio o fewn ac ar draws ysgolion."

"Dod yn fwyfwy hunanfyfyriol, gydag adolygu a gwella yn dod yn rhan annatod o'u datblygiad proffesiynol."

"Ymwybyddiaeth o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) a sut gellir ei ddefnyddio i gofnodi datblygiad proffesiynol."

"Esblygu fel arweinwyr yn eu hysgolion."

"Wedi esblygu eu dulliau addysgeg eu hunain."



## Datblygu Arweinwyr Ysbrydoledig

Rhannwyd rhaglen Arweinwyr y Dyfodol â phob pennaeth ysgol a'u gwahodd i enwebu darpar uwch-arweinwyr a allai elwa o'r rhaglen hon, yn eu barn nhw. O dan y rhaglen, sy'n targedu dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol sydd heb Gymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, cysylltir yr unigolion â Swyddog Cymorth Addysg fydd yn defnyddio strategaethau annog a mentora ar sail un i un.

Ariannir hyn gan y cyngor, gan ddefnyddio cyllid arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru, ac mae'n golygu bod y cyfranogwyr yn cwrdd â'u mentor unwaith bob hanner tymor yn ystod y flwyddyn gyntaf ac unwaith y tymor yn ystod yr ail flwyddyn er mwyn gweithio trwy raglen wedi'i theilwra sydd â'r nod o gefnogi eu datblygiad trwy'r safonau arweinyddiaeth. Mae angen cyflwyno enwebiadau ar gyfer y garfan nesaf erbyn 27 Hydref 2024 ac ni ragwelir y bydd digon o le i bawb sydd am gymryd rhan.

## Hyfforddiant Galwedigaethol

### Llwybrau at Gynnydd – datblygu sgiliau galwedigaethol disgyblion ysgol (a gyflwynir trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig)

Datblygwyd Prosiect Llwybrau at Gynnydd i ddarparu gwybodaeth, sgiliau a chymwysterau galwedigaethol i ddisgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 mewn ysgolion cyfun yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae'r sectorau galwedigaethol yn cyfateb i'r anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg yn y rhanbarth a'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys y sectorau cadwyn gyflenwi.

Mae'r sectorau galwedigaethol yn cynnwys sgiliau adeiladu gwyrdd, lletygarwch a thwristiaeth, gweinyddu a gwasanaeth cwsmeriaid, astudiaethau'r tir, iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant. Bu Sgiliau a Hyfforddiant yn gweithio'n uniongyrchol gydag arweinwyr ysgolion i nodi sectorau galwedigaethol addas sy'n ategu cwricwlwm presennol yr ysgol, yn ogystal â chefnogi disgyblion a fyddai'n cael dysgu galwedigaethol yn apelgar, gan helpu i gynnal presenoldeb mewn addysg brif ffrwd ac addysg amgen.

### Cymorth Cwricwlwm a Chymorth Estynedig i Ysgolion a Disgyblion

IYn 2023/2024, bu Sgiliau a Hyfforddiant yn gweithio gyda'r ysgolion a'r adrannau canlynol i gefnogi pobl ifanc:

- Ysgol Bae Baglan – darparu cymorth gyda'r prif gwricwlwm i alluogi disgyblion blynyddoedd 10 ac 11 i sicrhau cymhwyster Lefel 2 mewn Gwasanaethau Gwallt, fel rhan o amserlen yr ysgol. Rhagwelir cyfradd lwyddiant o 100% ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 ym Mehefin 2024.
- Ysgol Hendrefelin – Hyfforddiant Sgiliau Gwaith Tir ac Adeiladu ar gyfer disgyblion blwyddyn 11.
- Ysgol Dŵr y Felin – cefnogwyd 7 disgybl i ddysgu sgiliau trin gwallt am 1 diwrnod yr wythnos, gyda 5 ohonynt yn derbyn tystysgrif cymhwyster llawn.
- Y Tîm Plant a Theuluoedd – wedi dechrau dosbarth i gefnogi 5 disgybl sydd wedi'u gwahardd/mewn perygl o gael eu gwahardd.
- Y Gwasanaeth Ieuenctid – cyflwynwyd sesiynau rhagflas Trin Gwallt a Harddwch mewn canolfannau i ddisgyblion blwyddyn 11, gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Ieuenctid.

## Cysylltiadau addysg â Chyflogwyr Lleol

Mae tîm Cyflogadwyedd CNPT wedi recriwtio nifer o gyflogwyr lleol i anfon cynrychiolwyr i ymweld ag ysgol uwchradd leol i gefnogi cynllun Peilot 'Cwrdd ag Athrawon' y Bartneriaeth Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol. Rhan ganolog o'r cynllun peilot yw dod ag athrawon a busnesau ynghyd i alinio'r dysgu a galluogi'r athrawon i danio brwdfrydedd eu myfyrwyr â'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn lleol.

Ar ben hynny, cafwyd adborth ardderchog o'r prosiect profiad gwaith, gyda phob ysgol uwchradd ond un wedi manteisio ar y cyfle i weithio gyda'n Cydlynydd Profiad Gwaith i ganiatáu cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 10 gael profiad gwaith. Manteisiodd 3 chyfranogwr ar y sesiynau rhagflas Weldio a gynhelir gan JES ac maen nhw'n gobeithio symud ymlaen i gwrs cymhwyster weldio unwaith y bydd Academi Sgiliau JES wedi'i hachredu.

# Children's Services

## Ymadawyr Gofal

Fel Rhieni Corfforaethol, gofalwn fod ein hymyrraeth yn y maes hwn yn dechrau ymhell cyn bod y bobl ifanc yn gadael gofal. I'r ymadawyr gofal fydd ag angen cymorth parhaus gan y gwasanaethau oedolion, sefydlwyd grŵp gweithredu ar arwyddion cynnar, fel bod y pontio rhwng gwasanaethau mor ddi-fwlch â phosibl.


Rydym wrthi'n gweithio gyda phobl ifanc a gofalwyr maeth ym meysydd byw'n annibynnol, er mwyn sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau angenrheidiol i'w cefnogi yn y dyfodol.

Caiff anghenion llety ein pobl ifanc sy'n gadael gofal eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth i chwilio am lety addas a'i gadw.

Rydym hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'n cydweithwyr yn y gwasanaeth Tai i ddatblygu math penodol o gynllun tai â chymorth ar gyfer ymadawyr gofal, gyda lefelau priodol o gymorth ar gyfer rheoli tenantiaeth.

## Gofalwyr Ifanc

Sefydlwyd swydd gweithiwr pontio Gofalwyr Ifanc yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a gwblhawyd mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Oedolion. Bydd y rôl yn gweithio rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth oedolion i gefnogi'r bwlch a nodwyd yn y gwasanaeth a ddarperir lle mae nifer y gofalwyr ifanc yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.




Nifer y gofalwyr ifanc sy'n cael mynediad at gymorth

Yn ystod 2023/2024, cafodd 118 o bobl ifanc eu hatgyfeirio i'r grŵp gofalwyr ifanc, a darparwyd sesiynau ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae mwy o bobl ifanc yn ymwybodol o'r materion sy'n gysylltiedig â bod yn ofalwr ifanc ac i ble y dylent fynd i gael cymorth. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cyflwyno sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc i ysgolion yn CNPT.

Mae'r gofalwyr ifanc sy'n dod i'r sesiynau Clwb Ieuenctid yn cael seibiant o'u dyletswyddau ac yn gallu siarad â gweithiwr ieuenctid i weld a oes angen unrhyw gymorth neu gefnogaeth ychwanegol.



## Gwasanaethau Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Ieuenctid CNPT yn rhedeg 14 o glybiau ieuenctid am ddim i bobl ifanc (y pinbwyntiau glas isod), ym Mlaengwynfi, y Cymer, Bryn, Glyn-nedd, Bryncoch, Sandfields, Cimla, Blaendulais, Croeserw, Taibach, y Creunant a Chwmllynfell. Ar ben hynny, bu’r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio gyda sefydliadau partner i agor darpariaeth ychwanegol yng Nghaerwern, Castell-nedd a Phontardawe (y pinbwyntiau gwyrdd). Yn ogystal, mae’r Gwasanaeth Ieuenctid wedi agor clybiau ieuenctid Cymraeg yn Nhrebannws, gydag un arall yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â Chanolfan Maerdy, Tai’r-gwaith (y pinbwynt pinc).






Mae’r Gwasanaethau Ieuenctid wedi datblygu 9 darpariaeth gymunedol.

Bu 1371 o bobl ifanc yn bresennol mewn clybiau ieuenctid a gynhelir gan y cyngor yn ystod 2023/2024.

Mynychwyd 10,470 o sesiynau clwb ieuenctid yn ystod 2023/2024.



Sefydlwyd Clybiau Ieuenctid hefyd ar gyfer pobl ifanc LHDTC+ a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Yn ogystal, mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu sesiynau gwaith grŵp i Ofalwyr Ifanc, gyda chyfleoedd i gyrchu gweithgareddau cymdeithasol, addysgol a hamdden.

Bu Tîm Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin y Gwasanaethau Ieuenctid yn gweithio mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth ieuenctid neu lle y gwelwyd angen, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bellach, mae tri Gweithiwr Ieuenctid Cymunedol wedi’u penodi ac yn gweithio gyda Chlwb Bechgyn a Merched Cymru. Sefydlwyd darpariaeth newydd mewn 6 ardal - Caewern, Trebannws, Pontardawe (cymorth ar gyfer clwb ieuenctid sector gwirfoddol a chefnogaeth ar gyfer Hwb Cymunedol), Llansawel a Chastell-nedd. Datblygwyd prosiect bowlio hefyd ym Mhort Talbot a gaiff ei gyflwyno i gymunedau ychwanegol yn fuan.

Cefnogwyd 15 o gymunedau ag ystod o gymorth a gweithgareddau, a oedd yn cynnwys Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig, Diwrnodau Gweithgarwch, cefnogi darpariaethau cymunedol a chefnogi digwyddiadau cymunedol.

# Pobl Ifanc mewn Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant

## Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol

Mae Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cymorth i bobl ifanc yr amlygodd eu hysgolion eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf o fod yn NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) – lleolir Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol ym mhob ysgol uwchradd.

Cefnogodd y Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol 194 o bobl ifanc i symud o'r ysgol i gyrchfan ôl-16 cadarnhaol mewn addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Daliodd y gweithwyr ati i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc gyflawni deilliannau achredfedig. Cafwyd un o'n blynyddoedd mwyaf llwyddiannus gydag 11% o'r rhai a ymgysylltodd â'r gwasanaeth ieuenctid yn sicrhau deilliant achrededig. Cyflawnwyd hynny gan ystod o ddarpariaethau oedd yn cynnwys y timau ôl-16, y clybiau ieuenctid a'r bobl ifanc sy'n mynychu grwpiau a dargedir, megis gofalwyr ifanc, pobl ifanc LDHTC a thrwy ein darpariaeth Gymraeg.

## Prosiect Gorwelion

Darparodd Prosiect Gorwelion y Gwasanaeth Ieuenctid, a ariannir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, weithgareddau cyfoethogi ar sail estyn allan i bobl ifanc NEET sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol a ddim yn gadael eu cartrefi. Mae hyn yn cynnwys datblygu hyder a sgiliau cymdeithasol fel bod modd i'r bobl ifanc adael y tŷ ar ryw adeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau i'w helpu i symud ymlaen ymhellach.

Cyflawnodd Prosiect Gorwelion y canlynol:

- Ymgysylltwyd â 117 o bobl ifanc
- Cyflawnodd 41 o'r bobl ifanc gymwysterau, trwyddedau neu sgiliau
- Ymgysylltodd 82 o'r bobl ifanc â sgiliau bywyd
- Dywedodd 34 o'r bobl ifanc eu bod yn deall mwy am ddisgwyliadau cyflogwyr, gan gynnwys safonau ymddygiad yn y gweithle
- Cyflawnodd 79% o'r bobl ifanc a ymgysylltodd â'r prosiect o leiaf 1 deilliant yn llwyddiannus.
- Roedd 76% o'r bobl ifanc (89 allan o 117) yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch symud i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- Roedd 77% o'r bobl ifanc (90 allan o 117) yn teimlo'n fwy cadarnhaol ynddynt eu hunain (lles)

## Y Tîm Cadw Mewn Cysylltiad (KIT)

Mae Tîm Cadw Mewn Cysylltiad (KIT) y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cymorth gan weithiwr arweiniol i grwpiau targed o bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd hynny'n cynnwys pobl ifanc sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref, pobl ifanc o'r gymuned teithwyr a phobl ifanc sydd heb bontio o'r ysgol.

Llwyddodd y Tîm KIT i gael hyd i 141 o'r 164 o bobl ifanc yr oedd eu statws cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn anhysbys.

Cefnogwyd 26 o bobl ifanc oedd yn wynebu nifer o rwystrau, ac o'r rhain:

- Symudodd 12 i ddysgu pellach;
- Symudodd 2 i gyflogaeth â thâl;
- Symudodd 6 i ddysgu yn y gweithle

## Gwobr Dug Caeredin

Mae Cynllun Gwobr Dug Caeredin wedi tyfu a mynd o nerth i nerth. Fe'i cyflwynir bellach ym mhob ysgol uwchradd ac o ganlyniad mae 356 o bobl ifanc wedi cyflawni'r Wobr.



# Pobl Ifanc mewn Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant

Mae'r Uned Sgiliau a Hyfforddiant yn ymgymryd â phrosiectau a rhaglenni sy'n gwella ac yn cefnogi nodau'r cyngor i leihau diweithdra a thlodi a chefnogi pobl ifanc ac oedolion i symud i gyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant.
Yn ystod 2023/2024, bu Sgiliau a Hyfforddiant yn dal i redeg nifer o brosiectau a rhaglenni, gan gynnwys.

## Twf Swyddi Cymru + (JGW+)

Ymunodd 150 o bobl ifanc (16-19 oed) â'r rhaglen yn ystod y flwyddyn a chymerodd 53 ohonynt ran mewn is-brosiect sydd newydd gael ei ddatblygu o'r enw **'Paratoi'.**

Roedd elfen Paratoi y rhaglen yn caniatáu i Sgiliau a Hyfforddiant ymgysylltu â phobl ifanc sydd â rhwystr neu angen sylweddol a'u hysgogi. Trefnwyd cymorth i'w helpu i feithrin hyder, hunan-barch a goresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag mynychu darpariaeth gyflogadwyedd brif ffrwd.

Cymerodd y bobl ifanc ran mewn gweithgareddau megis cerdded ceunentydd, saethu pelenni paent, canwio a syrffio, yn ogystal â gweithgareddau sy'n cyfoethogi iechyd a lles meddyliol megis yoga, celf graffiti a cherdded.

Yn gyffredinol, cefnogodd Sgiliau a Hyfforddiant 190 o bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau a'u cyflogadwyedd trwy'r prosiect, gyda mwy na 147 ohonynt yn sicrhau cymhwyster galwedigaethol neu gymhwyster cysylltiedig â chyflogaeth. Gadawodd 125 o bobl ifanc y rhaglen yn ystod y flwyddyn, gyda 64% ohonynt yn symud ymlaen i addysg bellach/ hyfforddiant, cyflogaeth neu i ddechrau prentisiaeth.









## Rhaglen Prentisiaethau

Mae Sgiliau a Hyfforddiant yn dal i redeg rhaglen lwyddiannus o Brentisiaethau sy'n ehangu a hynny ar y cyd â Chonsortia darparwyr prentisiaethau dysgu seiliedig ar waith Academi Sgiliau Cymru.

Mae Sgiliau a Hyfforddiant yn cynnig Prentisiaethau yn y sectorau Trin Gwallt/Gwaith Barbwr a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Gwelwyd y ddarpariaeth hon yn tyfu ac yn datblygu yn 2023/2024 gyda phrentisiaethau hefyd yn cael eu cynnig ar lefel 3.

Yn ystod 2023/2024, cofrestrodd Sgiliau a Hyfforddiant 36 o Brentisiaid ar draws y gwahanol sectorau, gyda chyfanswm o 50 o brentisiaid yn derbyn hyfforddiant a chymwysterau gan Sgiliau a Hyfforddiant.

## Hyfforddiant Masnachol

Rydym yn dal i gyflwyno cyrsiau seiliedig ar wybodaeth a sgiliau masnachol i fusnesau, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn cefnogi datblygu sgiliau a helpu busnesau i fod yn effeithiol yn eu gwaith.

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer y lleoedd gofal plant diwrnod llawn a ddarparwyd. | 2426 | Cynyddu | 2373 |
| % y plant 5 oed sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. | 19.7% | Cynyddu | 19.4% |
| % y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf. | 13.06% 2021/2022 Blwyddyn Academaidd | Cynyddu | 14.69% 2022/2023 Blwyddyn Academaidd |
| % yr ymadawyr blwyddyn 11 sy'n NEET. | 2.41% | Lleihau | 1.3% |
| % presenoldeb disgyblion yn yr ysgol gynradd. | 89.23% 2021/2022 Blwyddyn Academaidd | Cynyddu | 90.97% 2022/2023 Blwyddyn Academaidd |
| % presenoldeb disgyblion yn yr ysgol uwchradd. | 85.52% 2021/2022 Blwyddyn Academaidd | Cynyddu | 87.60% 2022/2023 Blwyddyn Academaidd |
| Nifer y disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol. | 19 2021/2022 Blwyddyn Academaidd | Lleihau | 37 2022/2023 Blwyddyn Academaidd |

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer y dyddiau o waharddiad cyfnod penodol a roddwyd i ddisgyblion. | 2543 2021/2022 Blwyddyn Academaidd | Lleihau | 3850 2022/2023 Blwyddyn Academaidd |
| Nifer y bobl ifanc 16-18 oed sydd wedi cofrestru i bleidleisio. | 1833 | Cynyddu | Amherthnasol, ni chynhaliwyd etholiadau yn 2023/2024 |



# Amcan Llesiant

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnig trosolwg o'r cynnydd a'r cyflawniadau allweddol yn ystod 2023/2024.



## 2 Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy'

Er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r amcan llesiant **'Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy'** buom yn gweithio ochr yn ochr â'n cymunedau i adfywio ein hamgylchedd ffisegol, i annog preswylwyr i ymwneud mwy â'u hardal leol ac i ddarparu cymorth i bobl sy'n byw mewn tlodi neu mewn perygl o fyw mewn tlodi.

Yn ystod 2023/2024 lansiwyd nifer o brosiectau o ganlyniad i Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyllid Llywodraeth Cymru. Bu'r cyllid hwn yn fodd i ni gynnig cymorth ariannol i nifer mawr o breswylwyr a sefydliadau'r trydydd sector.

Mae dod â gwasanaethau yn nes at ble mae pobl yn byw a helpu i gynnal cyfleusterau lleol allweddol yn flaenoriaeth o hyd. A gwelir hynny trwy ein gwaith gyda'r hybiau cynnes, cynhwysiad digidol a galluogi digidol. Ar ben hynny, bu ein gwaith ymgysylltu â thrigolion a phartneriaid o gymorth i ddatblygu'r Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol (Oedolion) a fydd yn helpu i lywio meini prawf y grant i ddosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyngor hefyd wedi datblygu Strategaeth tair blynedd ar gyfer Tai a Digartrefedd, sy'n pennu nifer o gamau allweddol y byddwn yn gweithredu ymhellach arnynt gyda sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, cyfnod byr na chaiff ei ailadrodd. Ers 2022/2023 gwelwyd bod nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w harbed rhag digartrefedd wedi cynyddu 4.2% i 57.9%.

Gwelwyd adfywio ffisegol amlwg yn ein cymunedau gyda nifer o feysydd chwarae plant yn cael eu hadnewyddu a buddsoddiad yn digwydd ar draws ein cymoedd, ein pentrefi a'n trefi – a bydd y Cynlluniau Lleoedd a'r Strategaeth Adfywio a Datblygu Economaidd trosfwaol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn dylanwadu ymhellach ar hynny.

Cyfanswm Nifer y Nodau: 9

- 🟢 7 ar y llwybr cywir
- 🟠 2 â rhagor o waith i'w wneud
- 🔴 0 heb ddilyn y llwybr cywir

Cyfanswm Nifer y Mesurau Perfformiad: 13

- 🟢 9 ar y llwybr cywir
- 🟠 2 â rhagor o waith i'w wneud
- 🔴 0 heb ddilyn y llwybr cywir
- 🔵 4 ar gyfer monitro
- ⚫ 2 â data heb ei gasglu / heb fod ar gael

# Amcan Llesiant 2 Bod pob cymuned yn llewyrchus a chynaliadwy

Mae'r 9 nod isod, a gafodd eu cymeradwyo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2022/2027, yn pennu cyfeiriad y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2023/2024. Mae'r statws Coch, Ambr, Gwyrdd (CAG) yn darparu trosolwg o'r cynnydd ac mae'r tudalennau dilynol yn amlygu rhai o'r cyflawniadau allweddol rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

**1** Darperir cymorth estynedig i'r rhai sy'n byw mewn tlodi neu sydd mewn perygl o fod yn y sefyllfa honno.

**2** Gwellwyd ystod ac ansawdd y cymorth ffurfiol ac anffurfiol i drigolion oedrannus ac agored i niwed, gan gynnwys gofalwyr di-dâl.

**3** Gweithiwyd gyda'r gymuned i atal problemau rhag codi neu waethygu.

**4** Cefnogwyd datblygu rhagor o grwpiau cymunedol, gyda chynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr.

**5** Datblygwyd ein cymoedd, ein pentrefi a'n trefi.

**6** Bydd staff y cyngor yn deall egwyddorion datblygu cymunedol a bydd y sgiliau a'r hyder ganddynt i roi'r egwyddorion hynny ar waith.

**7** Sicrhawyd gwell cysylltedd digidol ar draws Castell-nedd Port Talbot.

**8** Gweithiwyd gyda datblygwyr i gynyddu'r cyflenwad o dai carbon isel fforddiadwy o safon; estynnwyd cymorth i breswylwyr leihau allyriadau carbon eu cartrefi.

**9** Gweithiwyd gyda chymunedau i ddatblygu dealltwriaeth glir a manwl o gryfderau pob cymuned a'r hyn y maen nhw am ei gyflawni yn y dyfodol. Mae pobl yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; mae mwy o bobl yn ymwneud â bywyd y gymuned.



## Costau Byw / Atal Tlodi

Un o feysydd ffocws allweddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot yw gwaith Grŵp Llywio'r Bartneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi. Yn ystod 2023/2024 bu'r Bartneriaeth yn edrych eto ar y gwaith a ddechreuwyd gyda Sefydliad Bevan cyn y pandemig i gefnogi'r Grŵp Llywio wrth iddynt ddatblygu Cynllun Gweithredu tymor hwy er mwyn mynd i'r afael ag effaith yr argyfwng ar draws CNPT.

Cyhoeddwyd adroddiad ers hynny sy'n darparu gwybodaeth am yr hyn a gyflawnwyd gan y Bartneriaeth hyd yn hyn, ynghyd â throsolwg o'r meysydd sy'n destun pryder ar hyn o bryd a amlygwyd gan y rhai a ddaeth i weithdy'r Bartneriaeth ym mis Mawrth 2023 (e.e. bwyd, ynni, tai, iechyd a lles meddyliol). Rhannwyd yr adroddiad hwn â'n partneriaid yn dystiolaeth o'r effaith ar draws ein cymunedau.

Daeth mwy na 65 o unigolion o bob rhan o'r cyngor, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a chynrychiolwyr o'r trydydd sector i Weithdy'r Bartneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi (ym mis Hydref 2023). Defnyddiwyd yr adborth o'r gweithdy i lywio datblygiad 'Cynllun Gweithredu'r Grŵp Llywio ar gyfer y Gaeaf', sef cyfres o gamau gweithredu wedi'u blaenoriaethu y canolbwyntiwyd arnynt rhwng canol Tachwedd 2023 a Ionawr 2024.


Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd Amnest y Deyrnas Unedig ei ddigwyddiad cyntaf erioed yng Nghymru yn CNPT. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar brofiadau bywyd o dlodi, gyda thair sesiwn drafod yn cael eu cynnal er mwyn galluogi trafodaethau gyda'r canlynol: pobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi; gweithwyr cymorth / ymarfer sydd â phrofiad o helpu pobl sy'n wynebu caledi; uwch-arweinwyr y mae eu gwaith yn golygu gwneud penderfyniadau ynghylch adnoddau, cyllid ac ati.

Mae cyfathrebu'n dal i fod yn flaenoriaeth wrth ymateb i'r argyfwng costau byw, gyda'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn cael eu hyrwyddo trwy wefan benodedig y cyngor.

Yn 2023/2024, edrychwyd ar y tudalennau gwe

**42,356 views**

a'r is-dudalennau yr edrychwyd arnynt fwyaf oedd Biliau'r Cartref, Cymorth mewn Argyfwng, Hawlio Budd-daliadau, Arian a Dyled.



### Help gyda chostau byw

Rydyn ni eisiau sicrhau fod holl breswylwyr Castell-nedd Port Talbot yn cael yr help a'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael iddyn nhw.

Edrychwch i weld pa gefnogaeth allai fod ar gael i chi i'ch helpu gyda chostau cynyddol nwyddau ac ynni, chwyddiant a gwasgfeydd costau byw.

**Mannau Cynnes CNPT**
Bydd ein cyfeiriadur mannau cynnes yn eich helpu i ddod o hyd i fannau cyhoeddus neu adeiladau y gallwch eu defnyddio i gadw'n gynnes ac yn ddiogel.

MOST POPULAR **Hawlio budd-daliadau**
Help i ddeall pa fudd-daliadau allech chi eu cael

MOST POPULAR **Arian a dyled**
Help gydag arian a dyled

**Costau addysg ac ysgol**
Help gyda chostau anfon eich plentyn i'r ysgol

MOST POPULAR **Biliau'r cartref**
Help gyda biliau'r cartref

**Costau gofal plant**
Help gyda Chostau Gofal Plant

**Dod o hyd i waith**
Help gyda Dod o hyd i waith

**Tai a digartrefedd**
Help gyda phroblemau tai a digartrefedd

MOST POPULAR **Cefnogaeth mewn argyfwng**
Sut i gael mynediad i dŷ, llety a bwyd mewn argyfwng




Datblygu côd QR i gysylltu â thudalen we 'Cymorth gyda Chostau Byw'; a gafodd ei gynnwys ym miliau Treth y Cyngor ar gyfer 2024/2025.

# Cyllido Sefydliadau Cymunedol – y Grant Tlodi Bwyd














Banc bwyd Castell-nedd, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth Trussell – sefydliad sy'n cefnogi rhwydwaith o fanciau bwyd o amgylch y Deyrnas Unedig, yw un yn unig o'r sefydliadau a gafodd gyllid trwy Grant Tlodi Bwyd Cyngor Castell-nedd Port Talbot oherwydd y galw mawr am y gwasanaeth, a'r ffaith eu bod yn dal i gael pethau'n anodd ac yn dibynnu ar roddion i gadw'r gwasanaeth i fynd.

Maent yn cefnogi tua 200 o bobl yr wythnos, gan ddarparu pecynnau bwyd sy'n para hyd at 3 diwrnod i deuluoedd ac unigolion. Mae Banc Bwyd Castell-nedd yn gweithio gydag archfarchnadoedd megis Tesco sy'n casglu rhoddion a gaiff eu codi gan wirfoddolwyr y banc bwyd bob wythnos.

Mae gan y Banc Bwyd hefyd siop gymunedol fach lle gall y rhai a atgyfeiriwyd "siopa" fel y mynnant gan ddefnyddio talebau. Derbyniodd Banc Bwyd Castell-nedd ddau ddyraniad o'r Grant Tlodi Bwyd, gyda'r arian yn cael ei ddefnyddio i brynu bwyd. Caiff pobl eu hatgyfeirio i'r banc bwyd gan amryw o sefydliadau sy'n cynnwys cymdeithasau tai, meddygon, ysgolion ac elusennau triniaeth cyffuriau ac alcohol ac ati.

Mae pawb sy'n ymweld â'r banc bwyd yn cael eu croesawu â diod boeth neu oer. Yn ystod oriau agor y banc bwyd, roedd unigolyn o Gyngor ar Bopeth yn dod i'r capel i gynnig cymorth os oedd angen hynny ar unigolion oedd yn galw heibio. Mae John yn gwneud llawer o waith y tu ôl i'r llenni. Cawsom ddysgu sut mae'r broses yn gweithio a chael sgwrs hefyd gyda'r gwirfoddolwyr am eu persbectif nhw a sut mae'r lefelau presenoldeb a rhoddion wedi newid ers yr argyfwng costau byw.

Mae'r ffaith bod y grant a dderbyniwyd wedi cael ei wario ar fwyd yn unig yn dangos y galw aruthrol sydd am y gwasanaeth, ac anghenion y bobl a gefnogir
Mae'r banc bwyd ar agor i ymwelwyr o 1.30-16.00, gyda'r gwirfoddolwyr yn dechrau am 12pm.

Ym mis Tachwedd 2023, cysylltodd perchennog Ystafelloedd Te, Glyn-nedd â gweinyddwyr y Grant Tlodi Bwyd yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot, gan esbonio bod angen cyllid arnynt i helpu pobl sy'n cael trafferthion oherwydd teimladau ynysig a phroblemau ariannol. Dyfarnodd y Grant Tlodi Bwyd ddau swm o gyllid i'r Ystafelloedd Te gan fod galw eithriadol o uchel am eu gwasanaeth. Yn y gorffennol, ni allai'r Ystafelloedd Te helpu'r cyhoedd fel y dymunent gan y byddent ar eu colled. Er gwaetha'r sefyllfa hon, nid oeddent yn fodlon anwybyddu'r broblem. Mae'r Ystafelloedd Te yn gweithio'n agos gyda Banc Bwyd Castell-nedd a Phantri Penderyn ac yn argymell y gwasanaethau hyn i'w cwsmeriaid. Er bod yr awgrym yn un a groesewir, nid yw'n mynd i'r afael â'r teimladau ynysig a'r unigrwydd sydd, yn eu barn nhw, yn effeithio ar eu cwsmeriaid.

Drwy dderbyn grant gan y cyngor, mae cyfle i'r Ystafelloedd Te roi talebau i unigolion er mwyn prynu eitemau brecwast/cinio a diod boeth. Mae hyn yn creu ymdeimlad o gynnwys pobl. Gall rhieni ymweld â'r lle tra bydd eu plant yn yr ysgol, a chael mynediad at bryd poeth mewn lle cynnes.

Mae llawer o gwsmeriaid yr Ystafelloedd Te yn cael pethau'n anodd yn ariannol, felly wrth i gostau byw gynyddu, mae cynnig lle cynnes iddynt yn golygu y gallant wario'u harian ar hanfodion eraill. Gwaetha'r modd, mae rhai o gwsmeriaid yr Ystafelloedd Te yn gorfod dewis rhwng cynhesu eu cartref neu fwydo'u teulu. Bu'r grantiau'n fodd i'r Ystafelloedd Te dalu costau'r talebau i unigolion a phrynu eitemau hefyd megis griliau, ffyrnau meicrodon, ffyrnau ffrio ac oergell fach gan fod eu heitemau cegin yn cael eu gorddefnyddio yn sgîl yr holl brydau a ddarperir.

# Mae Camau Gweithredu Cymunedau o ran Ffyniannus a Chynaliadwy yn gysylltiedig â'r Amcan Llesiant 2

## Cefnogi ein Cymunedau â Chostau Byw

Cyflawnodd y Cynllun Rhyddhad Caledi, a gyflwynwyd gan Cymru Gynnes ar ran Cyngor Castell-nedd Port Talbot, 1,866 o ymyriadau yn ystod 2023/2024 gan gynnwys talebau i brynu mesurau cadw'n gynnes, e.e. blancedi trydan, dillad gwely, nwyddau gwyn, taliadau i'r cwmnïau ynni, taliadau dŵr a chynnal a chadw cartrefi.

Bu'r Cydlynwyr Ardal Leol yn gweithio'n agos gyda hybiau cymunedol a busnesau lleol i sefydlu cynlluniau bwyd cydweithredol i gefnogi teuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae gan y tîm rôl weithredol hefyd o ran sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cysylltu â gweithgareddau Nadoligaidd, megis y rhai a gefnogir gan ymgyrch #nadoligcaredig NPTCVS. Cynhaliwyd apêl Mr X am flwyddyn 63, gan ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio â chael Nadolig. Darparodd gwasanaeth gwirfoddolwyr Iach a Diogel hamper Nadolig ac anrheg fach i bobl hŷn a gefnogir gan y gwasanaethu, hynny yw rhai sydd heb deulu ac sy'n wynebu ynysu cymdeithasol cronig.

Cyflwynodd Cyngor CNPT gais llwyddiannus am gyllid o gynllun Grant Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymunedau Roma a Theithwyr 2023-2024. Defnyddiwyd y cyllid hwn i gefnogi cyfanswm nifer y tenantiaethau llain ar dri safle'r cyngor.

Sefydlwyd 5 cynllun bwyd cydweithredol mewn partneriaeth â'r Cydlynwyr Ardal Leol. Cefnogwyd 150 o bobl trwy'r cynllun bwyd cydweithredol yng Nghwm Afan.

Rhoddwyd parsel bwyd a chyflenwadau cynnes, megis sgarff a blanced, i 15 o bobl hŷn y nodwyd eu bod yn ynysig ac unig. Adnabuwyd y bobl hyn trwy'r cymorth a gynigir gan ddarpariaeth cyfeillio gwirfoddol Iach a Diogel.

Cafodd 16 o sefydliadau trydydd sector a welodd gynnydd yn y galw am eu gwasanaethau oherwydd yr argyfwng costau byw eu cefnogi trwy Grant Dewisol Argyfwng Costau Byw y Trydydd Sector, sef cynllun disgresiynol ar gyfer y Trydydd Sector a weinyddwyd gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT (mewn partneriaeth â Chyngor CNPT).

Amlygodd e-fwletinau CNPT y cymorth sydd ar gael gan sefydliadau lleol a chenedlaethol i helpu pobl sy'n wynebu trafferthion costau byw – e.e. cynllun y Gynghrair Tlodi Digidol, Ffair Swyddi Nadolig CNPT, gwefan newydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n cynnig cyngor ynghylch arbed ynni, a Lleoedd Cynnes CNPT.

Bu Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gweinyddu dwy gronfa Llywodraeth Cymru, sef y Gronfa Cymorth i Aelwydydd a'r Dyfarniad Cefnogi Bwyd Uniongyrchol, ar ffurf "Cyllid Tlodi Bwyd". Dosbarthwyd cyllid i helpu pobl agored i niwed a oedd yn wynebu trafferthion tlodi ac ansicrwydd bwyd. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi derbyn cyfanswm o £152,332 i gefnogi 30 o sefydliadau sy'n diwallu anghenion mwy a mwy o bobl a chwsmeriaid sy'n wynebu tlodi bwyd, ac i gefnogi gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar fynd at wraidd tlodi bwyd.

Lansiwyd tair ymgyrch Credyd Pensiwn rhwng Ionawr a Mawrth 2024 gan ddefnyddio'r arolwg Tracio Teuluoedd Incwm Isel. Mae 19.11% o'r rhai a gafodd lythyr wedi gwneud cais llwyddiannus am Gredyd Pensiwn.

Sicrhawyd £30,000 o'r Gronfa Cymunedau Cynaliadwy (Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig) ar gyfer Lleoedd Cynnes a Chroesawgar.

## Cymunedau

Mae cefnogi ein cymunedau, dod â gwasanaethau'n agosach at ble mae pobl yn byw a helpu i gynnal cyfleusterau lleol allweddol yn dal i fod yn flaenoriaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn, cryfhawyd ein model Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth yn y Gwasanaethau Oedolion. Mae adolygiad o'r tîm cysylltu â'r gymuned wedi dechrau, gyda golwg ar ail-ffurfio'r cymorth a gynigir er mwyn gallu bodloni anghenion y gymuned/gwasanaeth. Mae'r cyngor yn ymgysylltu â'r byrddau partneriaeth i edrych ar gysylltiadau data er mwyn dod i ddeall nodweddion bregus yn well ar draws ardal CNPT. Mae dangosfwrdd data ar gael i gysylltu setiau data er mwyn deall nodweddion bregus yn well, gyda ffocws ar gam-drin domestig a defnyddio sylweddau – dau fater sydd â ffactor risg amlwg i'r cyngor a'r partneriaethau.

Datblygwyd Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol (Oedolion) mewn partneriaeth â'r gymuned a phartneriaid strategol. Bu mwy na 15 o grwpiau yn ymwneud â datblygu'r cynllun cyflwyno a fydd yn ffurfio meini prawf y grant a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o ymdrin ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn ein cymunedau. Cwblhawyd gwaith ymgysylltu â chymunedau lleol Clwstwr Afan a grwpiau arbenigol ac mae cyfleoedd i wella'r hybiau cymunedol presennol yn cael eu cwmpasu bellach. Mae ein swyddog Heneiddio'n Dda wedi cynorthwyo a gweithio gyda nifer o grwpiau pobl hŷn (55+) i drafod cryfderau eu cymunedau. Ymhlith y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn sgîl y gwaith ymgysylltu mae trafnidiaeth, mynediad at wybodaeth a mynediad amserol at wasanaethau iechyd sylfaenol.

Nodwyd mai Baglan fydd yr ardal gyntaf i gymryd rhan yn yr Ymgyrch Gwrando ar Ddementia. Bydd y gwaith a gefnogir gan Improvement Cymru yn dylanwadu ar ffurf gwasanaethau a chymunedau a sut gallant gynnig gwell cefnogaeth i bobl a theuluoedd y mae dementia yn effeithio arnynt a sicrhau y cyflwynir cam cyntaf y Safonau Dementia Cenedlaethol. Bu Swyddogion Ymgysylltu Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth a'r Swyddog Heneiddio'n Dda yn gweithio'n agos gyda'r aelodau lleol, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i ffurfio cynllun cyflwyno.

Cafodd 862 o bobl gymorth i gyrchu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth.

Mae 267 o bobl wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol (Oedolion).

Soniodd 360 o bobl y siaradwyd â nhw am yr hyn yr hoffent ei weld yn eu hardal. Teimlent eu bod wedi cael gwrandawiad ac wedi cynnig awgrymiadau i wella'r gymuned leol.

Siaradwyd â 150 o bobl er mwyn deall anghenion y boblogaeth hŷn.

Ymgysylltwyd â 35 o bobl ynghylch yr ymgyrch dementia a'u barn ar hynny.



# Cmunedau

## Cefnogi ein cymunedau

Mae adolygiad o ofalwyr di-dâl ar waith, gyda golwg ar gynnig cymorth a nodi anghenion yn gynharach er mwyn osgoi argyfwng, ynghyd â darparu cymorth pontio ar hyd y daith ofalu. Rhan o elfen ymgysylltu'r adolygiad oedd holiadur i oedolion sy'n ofalwyr, a ofynnai iddynt roi sylwadau ar y cymorth presennol i ofalwyr, gyda'r deilliannau'n bwydo i mewn i adroddiad terfynol yr adolygiad.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn dal i gyflawni'r blaenoriaethau canlynol sy'n effeithio ar ein bwrdeistref sirol fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Diogelwch Cymunedol:

- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Camddefnyddio Sylweddau
- Trais Difrifol
- Troseddau Meddiangar – yn cynnwys Atal Troseddau ac Ymgysylltu â'r Gymuned
- Cydlyniant Cymunedol

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn dal i fonitro tueddiadau, patrymau a data perfformiad sy'n dod i'r amlwg. Defnyddir yr wybodaeth hon i lywio ymgyrchoedd, ymgysylltu cymunedol, prosiectau a chynlluniau newydd y bydd y Tîm Diogelwch Cymunedol yn eu cyflwyno ar y cyd ag awdurdodau perthnasol eraill ac asiantaethau partner lleol.

Yn sgîl monitro tueddiadau a phatrymau, mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi treialu dull gweithredu newydd wrth ymgysylltu â'r gymuned; gan gyflwyno digwyddiadau atal troseddau penodol mewn gwahanol rannau o'r fwrdeistref, newid y partneriaid sy'n bresennol er mwyn bodloni anghenion y cymunedau lleol ac ystyried data lleol a gwybodaeth anecdotaidd. Roedd y rhain yn cynnwys:



'Cwm Dulais Mwy Diogel' 'Llangatwg Mwy Diogel' 'Glyn-nedd Mwy Diogel'

'Sandfields Mwy Diogel' 'Ystalyfera Mwy Diogel'



## Symud Ymlaen yn 2024/2027

Hyrwyddir gwaith pellach yn rhan o Raglenni Trawsffurfiannol Cynllun Corfforaethol 2024/2027 i drawsffurfio'r gwasanaethau oedolion.

Cefnogir 6 rhaglen:

- Ailddylunio B'spoke
- Estyn y gwasanaeth ymateb symudol
- Sefydlu darpariaeth breswyl ailalluogi
- Adolygu a chryfhau'r trefniadau pontio ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth.
- Gwneud Gofalwyr 'Ategi' yn wasanaeth mewnol
- Adolygu Taliadau Uniongyrchol




## Cymunedau

### Digital Inclusion


Rhoddwyd platfform digidol “Ein CNPT”, a gafodd ei ddatblygu a’i gyflwyno ar y cyd â nifer o grwpiau cymunedol, ar waith ym mis Chwefror 2024. Mae’r platfform yn cynnig mynediad hwylus at wybodaeth leol, dysgu a grwpiau cymunedol. Mae modd i breswylwyr sy’n gaeth i’w cartref gael mynediad at weithgareddau cymunedol sy’n gwneud iddynt deimlo’n llai ynysig ac unig.

Daeth Cimla yn gartref i Ystafell Technoleg Gynorthwyol Ddigidol ac Atebion Digidol i arddangos sut gall technoleg hygyrch bob dydd helpu pobl i fod yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain. Mae’r ystafell yn cynnig mynediad agored i staff a’r gymuned. Mae modd benthyg cyfarpar am bythefnos ar sail profi cyn prynu ac mae ystod o systemau i’w gweld yno, megis Google hub ac Alexa.


Sicrhawyd cyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig i wireddu cynnig partneriaeth rhwng Dysgu Oedolion a Gofal Cymdeithasol Oedolion. Cyflogwyd 3 swyddog cynhwysiad digidol a 3 swyddog galluogi digidol i gynyddu hyder digidol ar draws y sir. Mae’r swyddogion cynhwysiad digidol yn gweithio gyda/mewn grwpiau cymunedol, tra bo’r swyddogion galluogi digidol yn gweithio ar sail un i un yng nghartref yr unigolyn. Mae’r gwasanaeth wedi’i gysylltu â darpariaeth ystafell atebion digidol, lle caiff staff ac aelodau o’r gymuned brofi gwahanol fathau o gyfarpar digidol a’u manteision o safbwynt cefnogi byw’n annibynnol.

Mae’r cymorth a gynigir hefyd yn cynnwys lawrlwytho a chadw dogfennau o negeseuon e-bost, cymorth i wneud cais ar-lein am bàs bws, helpu cyfranogwyr i gymryd eu camau cyntaf ar-lein gan ddefnyddio cyfrifiadur yn y llyfrgell a defnyddio Google Maps.

Mae rhai cyfranogwyr sy’n cael trafferth gyda chysylltiadau trafnidiaeth bellach yn cymdeithasu ac yn cysylltu â’u teulu ar-lein, yn archebu nwyddau a phresgripsiynau ar-lein, ac yn defnyddio gwasanaeth bancio ar-lein.



## Cefnogi ein cymunedau



Cymeradwywyd cyfanswm o 26 o geisiadau gwerth £999,853 trwy Gronfa Twf Cymunedau Cynaliadwy.

Cefnogir Grwpiau Cymunedol i ystyried digideiddio gweithgareddau lle bo modd. Bu 16 o grwpiau cymunedol yn ymwneud â datblygu'r system, gan ddarparu cymorth o ran defnyddioldeb, dyluniad a ffurf y system. Mae 5 grŵp eisoes wedi cael cymorth i'w rhoi ar waith.

Mae 6 gwirfoddolwr, sydd i gyd yn drigolion lleol, a gafodd atgyfeiriadau i Gydlynydd Ardal Leol Sandfields yn cael eu cefnogi gan Wirfoddolwyr Iach a Diogel.

Mae'r Llyfrgell Pethau, sef partneriaeth a arweinir gan y Cydlynwyr Ardal Leol, y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, Tai Tarian a Gwirfoddolwyr Iach a Diogel, yn gadael i bobl fenthyg eitemau cartref a chyfarpar trydanol am gost isel yn hytrach na gorfod prynu eitemau newydd sbon. Mae eitemau poblogaidd sy'n ddefnyddiol ar gyfer prosiectau DIY achlysurol a digwyddiadau teuluol ar gael, gan gynnwys driliau, whilber, golchwr jet, piben ddŵr, tyrnsgriwiau trydan, peiriant glanhau carpedi a pabell/gasebo.

Ymgysylltodd 507 o bobl â thechnoleg ddigidol trwy gynlluniau cynhwysiad digidol er mwyn helpu eu hannibyniaeth.

Bu 90 o bobl mewn cysylltiad i roi barn am y pethau da yn eu cymuned a dechrau nodi cyfleoedd datblygu.

Derbyniodd 43 o sefydliadau'r trydydd sector gymorth trwy Grantiau Trydydd Sector y cyngor yn 2023/2024, gyda chyfanswm y grant a dalwyd yn ystod y flwyddyn yn £722,310. Agorwyd ffenestr ymgeisio ar gyfer grant y cyngor rhwng 7 Awst a 13 Hydref 2023 a gwahoddwyd ceisiadau am gyllid sy'n para blwyddyn ar gyfer 2024/2025.

Ymatebodd 226 o bobl i'r adolygiad gofalwyr di-dâl. Gwelwyd mai'r tair thema ar y brig oedd darparu gofal seibiant a'r gallu i gymryd hoe o'u rôl ofalu, cymorth emosiynol a chymorth gyda mynediad i gyfleusterau hamdden.

Cyflwynwyd tair sesiwn fforwm cymdogaeth, ar y cyd â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS). Roedd y sesiynau hyn, a hwyluswyd gan NPTCVS, yn gyfle i aelodau o'r gymuned ddod ynghyd a thrafod y problemau/cyfleoedd yn eu hardal. Roedd tua 30 o bobl yn bresennol ym mhob digwyddiad a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.

Ymgysylltodd 206 o bobl â thechnoleg ddigidol trwy gynlluniau cynhwysiad digidol.

Ymgysylltodd 235 o bobl trwy'r gwasanaeth Galluogi Digidol sy'n cefnogi annibyniaeth.

Cynhaliwyd gwahanol ddigwyddiadau Patrôl Pawennau i hyrwyddo'r cynllun sy'n annog cerddwyr cŵn i fod yn llygaid ac yn glustiau yn y gymuned a rhoi gwybod am unrhyw broblemau y gallent sylwi arnynt.

Cynhaliwyd mwy o sesiynau cynhwysiad digidol mewn cymunedau, gan gynnwys y canlynol:
• Hwb Cyfleoedd Port Talbot • Gorsaf waith Port Talbot • Llyfrgell Cwmafan • Llyfrgell y Cymer • Neuadd Bentref Gymunedol y Bryn • Canolfan Gymunedol Margam • Neuadd y Dref Castell-nedd • Llyfrgell Sgiwen • Llyfrgell Castell-nedd • Llyfrgell Glyn-nedd • Llyfrgell Gwaun-Cae-Gurwen • Neuadd Gymuned Gwaun-Cae-Gurwen.



# Tai a Digartrefedd

Gan gydnabod bod digartrefedd a diffyg tai fforddiadwy yn broblem gynyddol, mae'r cyngor wedi datblygu Strategaeth tair blynedd ar gyfer Tai a Digartrefedd. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio nifer o gamau gweithredu allweddol y bydd yr Adran Tai a Chymunedau yn eu datblygu gyda sefydliadau partner megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, cyfnod byr, na chaiff ei ailadrodd.

Mae cyflwyno'r strategaeth yn mynd rhagddo'n dda ac yn 2023/2024 bu modd i'r cyngor neilltuo swm sylweddol o arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn yr ardal, gan gynnwys y Grant Tai Cymdeithasol gwerth mwy na £22 miliwn a chyllid y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol, sy'n werth £2 filiwn. Mewn ymateb i'r nifer cynyddol o deuluoedd sy'n profi digartrefedd, bu'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth â Tai Tarian i gynyddu nifer yr unedau llety dros dro hunangynhwysol fel bod 68 o dai dros dro ar gael gennym bellach ar gyfer teuluoedd sy'n aros am gartref parhaol.

Yn sgîl gofynion newidiol pobl ddigartref, mae staff wedi cymryd rhan mewn ystod o raglenni hyfforddi, gan gynnwys Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma, defnyddio sylweddau, iechyd meddwl a niwroamrywiaeth. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, bu'r cyngor hefyd yn gweithio gyda nifer o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i brynu cyfanswm o 28 eiddo rhwng y sefydliadau a oedd yn cymryd rhan. Drwy brynu'r eiddo hyn, llwyddwyd i atal tenantiaid presennol yn y sector rhentu preifat rhag colli eu cartref a bod yn ddigartref o bosibl. Er mwyn helpu i ailddefnyddio tai gwag, cytunodd y cyngor i gymryd rhan yng Nghynllun Tai Gwag Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023. Cynllun dwy flynedd yw hwn a fydd yn darparu grantiau i helpu perchnogion eiddo gwag hirdymor i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol fel bod modd byw yn yr eiddo.




## Symud Ymlaen 2024/2027

Symudir ymlaen â gwaith pellach fel rhan o Raglenni Trawsffurfiannol Cynllun Corfforaethol 2024/2027 er mwyn gweithredu mewn ffordd sy'n addas at y diben, o ystyried y newid sylweddol yn y galw am dai a'r argyfwng tai sy'n effeithio ar y gwasanaeth y gellir ei ddarparu ar hyn o bryd.

## Gwasanaethau Cymdogaeth ac Adfywio Ffisegol

Darparwyd £4.25m ychwanegol yn rhan o raglen 'Gwyrdd a Glân'. Cwblhawyd y rhan helaethaf o'r rhaglen yn ystod 2023/2024, gan gynnwys adnewyddu 9 maes chwarae, yn eu plith Parc Coffa Talbot, Cae James, Llansawel a'r maes chwarae antur ym Mharc Gwledig Ystâd y Gnoll.

Buddsoddwyd mewn cerbydau newydd megis y peiriant ceudyllau, sugnwyr ac ysgubwyr stryd. Llond llaw yn unig o gynlluniau sydd heb eu cyflwyno, gan gynnwys adnewyddu maes chwarae glan môr Aberafan, gwaith coedyddiaeth a gwella cysgodfannau bws ar draws y sir.

Mae'r ymgyrch 'Gwyrdd a Glân' eisoes wedi cael effaith sylweddol ar ein cymunedau a bydd rhagor yn cael ei gyflawni unwaith y bydd y rhaglen lawn wedi'i chyflwyno.

Bu aelodau ychwanegol o staff gweithredol y gwasanaethau cymdogaeth yn canolbwyntio ar lanhau ein cymunedau trwy ddarparu gwasanaethau chwynnu, chwistrellu chwyn, torri gordyfiant yn ôl, tacluso ymylon llwybrau, paratoi ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd ac ymateb yn gyffredinol i geisiadau am waith gan y gymuned a'r cynghorwyr lleol.

O ganlyniad, cafwyd adborth gwych gan aelodau o'r cyhoedd, ynghyd â'r cynghorwyr.



***Cwblhawyd y gwaith o osod maes chwarae newydd a gwella'r "llecyn cicio pêl" yng Nghae James, Llansawel. Mae'r gwaith gosod newydd yn rhan o ymrwymiad y cyngor i wella mannau cyhoeddus yng Nghastell-nedd Port Talbot.***

Mae maes chwarae wedi'i adnewyddu, gwerth £22,000, yng Ngerddi Victoria, Castell-nedd yn cynnwys arwyneb diogelwch drosto i gyd, a seddi newydd cadarnach wedi'u gwneud o ddeunydd eildro yn lle'r hen feinciau a oedd wedi treulio.

Dywedodd y Cyng. Scott Jones, yr Aelod o Gabinet Cyngor Castell-nedd Port Talbot dros y Gwasanaethau Stryd: **"Cafodd y cyfarpar eu dewis gan gadw cynwysoldeb mewn cof, ar sail mynediad hwylus i'r cyfleuster a'i boblogrwydd fel maes chwarae yng Nghanol Tref Castell-nedd".**



## Gwasanaethau Cymdogaeth ac Adfywio Ffisegol

- ·Yn sgîl Cam 1 yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (SFCA) gydag awdurdodau cynllunio rhanbarth De-orllewin Cymru (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro) o dan arweiniad ymgynghorwyr JBA yn dilyn cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig Llywodraeth Cymru (TAN 15) ar Ddatblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol, byddwn ni'n gallu rhoi sylw i lifogydd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.
- Fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA), mae asesiad o'r Safleoedd Ymgeisiol ar waith ar hyn o bryd, ochr yn ochr â gwaith ar nifer o ddogfennau allweddol sy'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys yr Asesiad o Dwf Economaidd a Thwf Tai, yr Asesiad Priffyrdd Strategol, yr Adolygiad Tir Cyflogaeth, yr Opsiynau Twf ac Opsiynau Gofodol a'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Bydd ymgynghoriad ynghylch yr opsiynau Twf a'r opsiynau Gofodol yn cael sylw yng ngwanwyn 2024, gyda'r nod o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y Strategaeth a Ffafrir ym mis Rhagfyr 2024.
- Mae ein gwaith gydag ymgynghorwyr 'the Urbanists' yn parhau er mwyn llunio Cynlluniau Lle ar gyfer canol ein tair prif dref, ond hefyd ar gyfer nifer o drefi eilaidd megis Ystalyfera a Llansawel. Ar ben hynny, bydd Cynlluniau Lle yn cael eu llunio ar gyfer nifer o aneddiadau trydyddol, gan gynnwys Taibach, Cwmafan a Gwaun-Cae-Gurwen. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyllid Llywodraeth Cymru yn arbennig wedi canolbwyntio ar ganol y tair prif dref. Pan fydd y Cynlluniau Lle sydd ar waith wedi'u cwblhau, bydd cyfle i fod yn fwy cynhwysol o ardaloedd y cymoedd. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a fydd yn dod i ben ym Mawrth 2025, gyda cheisiadau am gyllid yn cael eu cyflwyno wedi hynny i unrhyw gronfa o eiddo Llywodraeth y Deyrnas Unedig a fydd yn ei holynu. Ymgynghorwyd â'r aelodau ac ymgynghorwyd yn ehangach ar draws Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe gyda rhanddeiliaid mewnol lleol, yr aelodau, y cynghorau tref, yr ardaloedd busnes a busnesau ehangach, ac rydym yn disgwyl adroddiadau gan the Urbanists. Gwnaethom gais llwyddiannus am refeniw ychwanegol gan Lywodraeth Cymru trwy'r Ardal Gwella Busnes, a fydd yn cefnogi gweithdai yn Llansawel ac Ystalyfera ac yn ein galluogi i gomisiynu ymgynghorydd ar gyfer tref Glyn-nedd. Rydym hefyd yn parhau i ymgynghori â Chomisiwn Dylunio Cymru fel rhan o'r broses hon. Byddwn yn asio'r Cynlluniau Lle ac yn eu cofnodi mewn un Strategaeth Adfywio a Datblygu Economaidd drosfwaol.
- Sicrhawyd grant gwerth £577,500 gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i adnewyddu, ailwampio a helaethu hen adeilad y Tîm Troseddau Ieuenctid ym Mhort Talbot, er mwyn darparu swyddfeydd o safon a fydd yn ategu Harbourside Court gerllaw. Wrth i ni gyflwyno Strategaeth Llety y cyngor, byddai modd ystyried mwy o adeiladau dros ben hefyd o bosib, gyda golwg ar ddod â rhagor o leoedd busnes o safon i'r farchnad.
- Rydym yn gweithio gydag ymgynghorwyr a phartneriaid i symud ymlaen â syniadau dylunio ar gyfer Llyfrgell Castell-nedd gynt. Cafodd adroddiad dichonoldeb ei gwblhau a'i gymeradwyo gan uwch swyddogion a'r Aelodau, gyda golwg ar gynnig hwb a man gweithio Celf a Chrefft. Byddwn yn caffael defnyddiwr terfynol a fydd yn cyfrannu at y syniadau dylunio a'r defnydd o'r adeilad yn y dyfodol.
- Nod prosiect Unedau Diwydiannol y Cymoedd yw goresgyn y prinder difrifol o unedau diwydiannol llai, sy'n addas i egin fusnesau. Mae'r gwaith cyflwyno wedi dechrau ar safleoedd Glyncorrwg a Nant y Cafn, cwblhawyd y gwaith cynllunio cyn ymgeisio, a chomisiynwyd adroddiad ymchwilio tir ac adroddiad safle llawn. Paratowyd dogfennau caffael ar gyfer y contractiwr adeiladu, rhoddwyd sylw i'r materion bioamrywiaeth yn Nant y Cafn a phenodwyd y contractiwr llwyddiannus. Fodd bynnag mae angen rhoi sylw o hyd i faterion llifogydd ger safle Glyncorrwg.

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer y gwirfoddolwyr gweithredol (Iach a Diogel) | 11 | Cynyddu | 31 |
| Nifer yr oriau gwirfoddoli (Iach a Diogel) | Mesur newydd | Cynyddu | 2279 |
| Nifer y mentrau cymdeithasol a micro-fentrau a gefnogwyd | Nid oes data ar gael | Cynyddu | 481 |
| Nifer yr asedau cymunedol ym mherchnogaeth y gymuned neu o dan ei rheolaeth | 108 | Cynyddu | 109 |
| % y cynnydd yn lles meddwl oedolion | 48% | Cynyddu | 47.9% |
| Nifer y bobl â chyflwr iechyd/anabledd hirdymor a gefnogwyd i gael gwaith | Mesur newydd | Mesur newydd | 42 |
| Y nifer sy'n dweud bod eu lles wedi gwella yn dilyn cyfnod o ymyrraeth trwy'r ddarpariaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth (Cydlynu Ardal Leol, y Gwasanaeth Annibyniaeth Cymunedol neu'r Tîm Cysylltu â'r Gymuned). | Mesur newydd | Mesur newydd | Cyfnod treialu felly nid oes data ar gael |

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| % y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. | 84% 2022/2023 data | Cynyddu | Nid oes data ar gael am 2023/2024 |
| % y dioddefwyr risg uchel sy'n ymgysylltu â'r Gwasanaeth Trais Domestig Annibynnol (IDVA) | 68% | Cynyddu | 65% |
| Nifer y bobl a oedd yn destun proses Rhybuddio ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 6 | Cynyddu | 6 |
| Nifer/% yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref | 53.7% | Cynyddu | 57.9% |
| Y cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymgysylltu â thechnoleg ddigidol trwy gynlluniau cynhwysiad digidol er mwyn hybu eu hannibyniaeth | 310 | Cynyddu | 507 |
| % yr aelwydydd sydd â mynediad i'r rhyngrwyd | 98% | Mesur newydd | 99% |

# Amcan Llesiant

Mae'r tudalennau canlynol yn darparu trosolwg o'r cynnydd a'r cyflawniadau allweddol yn ystod 2023/2024.



## 3 Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth

Er mwyn gweithio i gyflawni nod llesiant 'Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth' datblygwyd Strategaeth Diwylliant, Strategaeth Treftadaeth a Chynllun Rheoli Cyrchfan a dechreuwyd eu rhoi ar waith. Drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid strategol, bydd y cynlluniau gweithredu yn sicrhau rheolaeth ar safleoedd diwylliannol a threftadaeth allweddol a buddsoddiad hirdymor ynddynt.

Yn ystod 2023/2024 sicrhawyd £825,605 o gyllid i wella ansawdd profiadau ymwelwyr ar draws Castell-nedd Port Talbot, gydag £1.7 miliwn pellach yn cael ei ddarparu ar ffurf grantiau i amryw o brosiectau lleol trwy'r Gronfa Treftadaeth, Diwylliant a Digwyddiadau o ganlyniad i gyllid a ddarparwyd trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ar y tudalennau canlynol fe welwch y gwaith aruthrol a gyflawnir ar draws y cyngor i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac argyfwng byd natur. Gwelir cynnydd amlwg ar draws y safleoedd natur sydd ym mherchnogaeth y cyngor – gwelir mwy o wirfoddolwyr yn helpu, sy'n cael effaith ar y gwaith ar y tir ynghyd ag effaith bersonol hefyd ar y gwirfoddolwyr unigol.

Sefydlwyd tîm Datgarboneiddio, Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a gweithio gyda phartneriaid lleol ar brosiectau datgarboneiddio a chefnogi adnewyddu strategaeth DARE (Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy) er mwyn pennu blaenoriaethau ar gyfer y chwe blynedd nesaf.

Mae ymdrechion y cyngor yn parhau trwy ein rhaglen i newid cerbydau addas fel rhan o'r strategaeth Cerbydau a Seilwaith Allyriadau Sero (ZEVIS) a'n gwaith ar gynllun teithio rhanbarthol De-orllewin Cymru a'r rhwydwaith Teithio Llesol.

Cyfanswm Nifer y Nodau: 14

- 9 ar y llwybr cywir
- 5 â rhagor o waith i'w wneud
- 0 heb ddilyn y llwybr cywir

Cyfanswm Nifer y Mesurau Perfformiad: 16

- 6 ar y llwybr cywir
- 2 â rhagor o waith i'w wneud
- 0 heb ddilyn y llwybr cywir
- 4 ar gyfer monitro
- 4 â data heb ei gasglu / heb fod ar gael

# Amcan Llesiant 3 Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth

Mae'r 14 nod isod, a gafodd eu cymeradwyo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2022/2027, yn pennu cyfeiriad y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2023/2024. Mae'r statws Coch, Ambr, Gwyrdd (CAG) yn darparu trosolwg o'r cynnydd ac mae'r tudalennau dilynol yn amlygu rhai o'r cyflawniadau allweddol rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

**1** Gweithiwyd gyda'n grwpiau cymunedol, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid i ddiffinio rhaglen o brosiectau treftadaeth a diwylliant blaenllaw ar gyfer y fwrdeistref sirol; dechrau rhoi'r strategaeth diwylliant newydd ar waith.

**2** Gweithiwyd gyda chymunedau a phartneriaid i feithrin ymdeimlad cryfach o stiwardiaeth, gan eu hannog i gymryd rôl fwy gweithredol wrth reoli a gwella eu hamgylchedd lleol yn barhaus.

**3** Gwreiddiwyd hanes yr amgylchedd lleol, treftadaeth a natur yn y cwricwlwm a sicrhawyd bod pob ysgol yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu amgylcheddol ac awyr agored.

**4** Rhoddwyd ein strategaeth hamdden ar waith er mwyn gwella mynediad at gyfleoedd hamdden o safon uchel.

**5** Datblygwyd dealltwriaeth glir o'r modd y gall yr amgylchedd, treftadaeth, chwaraeon a diwylliant gyfrannu at economi gryfach, fwy cynaliadwy.

**6** Gweithiwyd gyda phartneriaid i sefydlu brand y fwrdeistref sirol fel cyrchfan a ddewisir ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol; cyflwynwyd ein cynllun rheoli cyrchfan a'i roi ar waith.

**7** Cyflwynwyd Ymgyrch Marchnata Cyrchfan Calon Ddramatig Cymru er mwyn cynyddu proffil Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan i ymwelwyr ac annog ymweliadau dros nos.

**8** Ehangwyd ein rhwydwaith teithio llesol a gwellwyd yr hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn annog mwy o bobl i gerdded a beicio.

**9** Cynyddwyd y gyfran o gyllideb y cyngor sy'n cael ei gwario ar nwyddau a gwasanaethau amgen gwyrddach o'r ardal a'r rhanbarth lleol, gan gryfhau ein heconomi sylfaenol a chylchol.

**10** Gweithiwyd gyda'n grwpiau cymunedol, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid i ymestyn ein gwaith er mwyn helpu adferiad byd natur a gwella ansawdd ein hamgylchedd naturiol a'r mynediad iddo; gweithredu ymhellach ar ein cynllun bioamrywiaeth.

**11** Gweithiwyd gyda phartneriaid i hwyluso pontio o ffynonellau ynni traddodiadol i ffynonellau ynni mwy cynaliadwy, gyda phwyslais ar gyflwyno rhaglen y Fargen Ddinesig, a'r cyfleoedd a grëwyd trwy sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol Bae Abertawe i ddatgarboneiddio diwydiant, tai a thrafnidiaeth; rhoi ein cynllun datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy ar waith.

**12** Gweithiwyd gyda phartneriaid i ddatblygu mesurau i liniaru llifogydd a llygredd ymhellach.

**13** Cynyddu ymwybyddiaeth o argyfwng y newid yn yr hinsawdd ac argyfwng byd natur.

**14** Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Amnewid y cyngor a dechrau ei roi ar waith.

# Yr Hinsawdd, Byd Natur a Datgarboneiddio

## Bioamrywiaeth

DYn ystod 2022 cyhoeddodd y cyngor argyfwng hinsawdd ar ran Castell-nedd Port Talbot. Mae gan bawb ran enfawr i'w chwarae o ran lliniaru'r newid yn yr hinsawdd trwy addasu ein hymddygiad a'n ffordd o fyw. Fel rhan o'n gwaith i gefnogi bioamrywiaeth, cyflwynodd Partneriaeth Natur CNPT Adroddiad Sefyllfa Byd Natur i'r Cynghorwyr mewn Seminar i'r Aelodau ym mis Hydref 2023, wedi'i ddilyn gan ddigwyddiad i gyd-lansio Adroddiad Sefyllfa Byd Natur a Chynllun Gweithredu Adfer Byd Natur (NRAP) yn ystod Chwefror 2024, pan groesawyd y siaradwr gwadd, Iolo Williams.




Yn y digwyddiad, anogwyd y rhai a oedd yn bresennol i weithredu dros natur a thrafod y blaenoriaethau gweithredu. Yn sgîl Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, mae Partneriaeth CNPT a Thîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt Cyngor CNPT wedi dechrau cyflwyno nifer o brosiectau er mwyn rhoi sylw i'r camau yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur a'r Cynllun Gweithredu Adfer Byd Natur y mae angen mawr amdanynt, ac maen nhw'n cefnogi grwpiau cymunedol lleol i wneud gwahaniaeth yn eu hardal leol. Ar ben y gwaith hwn, mae prosiect 'Gweithio gyda Natur' yn ymdrin â rheoli safleoedd natur sydd ym mherchnogaeth y cyngor, gan gynnwys gwarchodfeydd natur lleol; cymorth ar gyfer gwirfoddoli ar y safleoedd hyn, a gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth sy'n cysylltu pobl â byd natur, e.e. teithiau cerdded tywysedig a hyfforddiant bioamrywiaeth i bobl leol.

Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â Phartneriaeth Natur CNPT, NPT4 Nature a Grŵp y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyflwynir nifer o brosiectau ar y cyd â phartneriaid eraill gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Abertawe a chynghorau eraill megis Rhondda Cynon Taf, yn ogystal ag elusennau megis Coed Lleol.

Amlygodd Cynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth, a adolygwyd ar gyfer 2023-2026, nifer o feysydd y mae angen eu gwella. O ganlyniad, ychwanegwyd rhagor o gamau gweithredu er mwyn adlewyrchu adroddiad Sefyllfa Byd Natur CNPT a'r Cynllun Gweithredu Adfer Byd Natur ynghyd â newidiadau polisi ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig. Cwblhawyd asesiadau o wasanaethau mewnol, sy'n un o'r camau gweithredu yn y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth, gyda'r rhan fwyaf o'r meysydd gwasanaeth yn derbyn statws Gwyrdd neu Ambr – sy'n golygu bod rhywfaint o le i wella wrth weithredu'r ddyletswydd.

Mae swm y tir sydd ym mherchnogaeth y cyngor a reolir gyda golwg ar fioamrywiaeth yn gwella ar hyn o bryd wrth i Gynllun Caru Gwenyn CNPT, y Prosiect Gweithio gyda Natur a phrosiectau eraill gael eu hestyn. Ymddengys bod ymwybyddiaeth o bwysigrwydd blodau gwyllt a chynefinoedd wedi cynyddu, gyda cheisiadau am reoli safleoedd er lles bioamrywiaeth yn cael eu cyflwyno gan drigolion a chynghorwyr. Symudwyd ymlaen hefyd â'r archwiliad o'r tir ym mherchnogaeth y cyngor gydag ardaloedd â gwerth bioamrywiaeth yn cael eu hamlygu ar systemau mewnol er mwyn sicrhau ystyriaeth i fioamrywiaeth mewn unrhyw newidiadau i dir ac ati.


## Yr Hinsawdd, Byd Natur a Datgarboneiddio

Roedd nifer y gwirfoddolwyr a fu'n gweithio ar ein safleoedd eleni yn 149 neu oddeutu hynny, sy'n fwy o lawer na'r nifer yn 2022/2023, gan gynnig manteision o ran rheoli natur, iechyd a lles, a datblygu gwybodaeth a sgiliau.

Mae gwirfoddolwyr yn gweithio ar amrywiaeth o safleoedd (a enwir isod) trwy brosiect Gweithio Gyda Natur, Prosiect Ail-wyrddio Port Talbot, prosiect Cysylltiadau Arfordirol ym Mharc Gwledig Craig Gwladys, a thrwy'r Prosiect Mawndiroedd Coll. Er bod nifer y gwirfoddolwyr yn cynyddu'n barhaus gyda phresenoldeb chefnogaeth staff a phrosiectau, mae pryder bod prosiectau yn rhai byrdymor ac y gallai'r gefnogaeth ar gyfer y gwirfoddolwyr hyn ddod i ben os na fydd cyllid ar gael. Gwelwyd cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr ar safleoedd y Mawndiroedd Coll yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gwirfoddoli corfforaethol, Tîm Adfer Dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig a chyfranogwyr gwobr Dug Caeredin. Cyflwynwyd gwaith cydgysylltu gwirfoddolwyr a digwyddiadau natur/llesiant sy'n parhau fel rhan o Brosiect Gweithio gyda Natur a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru o dan raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

- Dolydd Rheilffordd Dyffryn Rhondda
- Dôl Abercregan
- Bedd-y-cawr, Castell-nedd
- Torri a chasglu ym Maes yr Afon ochr yn ochr â thorri a chasglu yn Rhodfa Parr
- Llwybr Richard Burton – lleiniau lle mae angen rheoli llystyfiant trwy dorri a chasglu
- Toriad Dôl Coed Bach a'r Cwm
- Meysydd Chwarae Maerdy
- Gwarchodfa Natur Leol Cwm Cryddan
- Gwarchodfa Natur Leol Tomen y Bryn
- Gwarchodfa Natur Leol Glyn Cwm Du
- Gwarchodfa Natur Leol Glanrhyd
- Gwarchodfa Natur Leol Camlas Abertawe
- Safle Adfer Rhostir Tonmawr
- Maes Pentref Llandarcy
- Coetir Tonna
- Pwll Stratton Way
- Coed Shelone
- Coed Cefnllan-isaf Pontardawe
- Safle Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) gwaith trin dŵr Tonmawr
- Safle cerrig camu Stryd Wood

**149** gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor CNPT.




**Fideo 'Eu dyfodol nhw'**
**Ysgol Gyfun Cefn Saeson**

Buom yn siarad â disgyblion yn Ysgol Cefn Saeson i gael gwybod beth roedden nhw'n ei hoffi am fyd natur a phwysleisio pam y dylem ni ofalu am ein hamgylchedd naturiol.

## Yr Hinsawdd, Byd Natur a Datgarboneiddio

Sefydlwyd cronfa grantiau bach i alluogi grwpiau a sefydliadau cymunedol i wella byd natur/gweithredu ar adroddiad Sefyllfa Byd Natur a Chynllun Gweithredu Adfer Byd Natur. Mae Cronfa'r Bartneriaeth Natur Leol a sefydlwyd yn 2023 wedi cyllido 12 prosiect gan gynnwys prosiect Cynghrair FAN yng Nghastell-nedd i osod wal werdd a chynwysyddion plannu. Penodwyd contractwr i weithio gyda grwpiau cymunedol lleol i ddylunio a datblygu prosiectau a fyddai'n cyd-fynd â'r gronfa.

**Dyfarnwyd cyfanswm o £72,920 i 12 prosiect fel rhan o Gronfa'r Bartneriaeth Natur Leol**

### Buddiolwyr Cronfa'r Bartneriaeth Natur Leol

Yn ddiweddar, mae Cyfeillion Parc y Gnoll wedi dechrau ymwneud â rheoli ardal wlyptir fach ym Mharc Gwledig y Gnoll. Crëwyd ardal wlyptir ar y safle oddeutu 15 mlynedd yn ôl ond fe'i collwyd i raddau helaeth o dan brysgwydd yn sgîl diffyg rheoli tir. Yn ystod y 12 mis diwethaf bu'r grŵp yn clirio mieri a rhywfaint o brysgwydd o gwmpas ardal y pyllau. Cafwyd cyllid o Gronfa'r Bartneriaeth Natur Leol i adfer y pyllau ac i ddefnyddio contractwyr a pheiriannau i dorri tyfiant yn yr ardal, gan ddarparu gwell man cychwyn i reoli'r safle gyda'r gwirfoddolwyr. Bellach, crëwyd dau bwll sylweddol sy'n dal dŵr yn dda a fydd yn darparu adnoddau gwlyptir gwerthfawr. Bydd gwaith rheoli parhaus yn allweddol wrth symud ymlaen a bydd y gwaith gwirfoddol yn gallu canolbwyntio ar yr ardal hon. Mae'r gwirfoddolwyr wedi elwa o gymryd rhan yn y prosiect, trwy deimlo eu bod yn cyflawni rhywbeth ac yn dysgu mwy am y cynefinoedd gwerthfawr hyn. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cyhoedd ehangach hefyd, a gyflëwyd naill ai'n uniongyrchol i'r gwirfoddolwyr neu trwy ein tudalen ar y cyfryngau cymdeithasol.







Prosiectau Cyfredol a ddarperir trwy bartneriaeth:

- Prosiect Mawndiroedd Coll De Cymru – Cyngor CNPT, Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Abertawe a Coed Lleol.
- Prosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd – Cyngor CNPT, Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Tref Cwmaman a Coed Lleol. (Wedi'i gwblhau)
- Cyflwynir Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar y cyd â Phartneriaeth Natur CNPT.

### Sylwadau gan ein gwirfoddolwyr

"Wnes i wir fwynhau dod i adnabod yr ardal. Rwy'n byw yn yr ardal ers rhai blynyddoedd ond rwy wir yn teimlo fy mod i'n nabod yr ardal a'r warchodfa yn llawer gwell"

"Mae mynd o gwmpas y lle a dysgu sgiliau newydd wedi gwella fy iechyd meddwl"

"Mae'n fy atgoffa i am bwysigrwydd mannau cymunedol a sut mae dysgu sgiliau gyda'ch gilydd yn gallu'ch cysylltu chi â phobl sydd efallai wedi cael profiadau gwahanol i chi."

"Mae dysgu sgiliau a chrefftau hynafol traddodiadol yn cysylltu ni â'r tir, â'n treftadaeth... Mae'n ymarferol, mae'n ysgogi'r meddwl, mae'n beth cymunedol. Mae'n bleser pur, ac rwy'n teimlo'n gyffrous i dreulio mwy o amser yn y mannau hyn"

## Yr Hinsawdd, Byd Natur a Datgarboneiddio

Ymhlith y prosiectau arian grant a gyflawnwyd eleni mae:

- Y Prosiect Mawndiroedd Coll – Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol,
- Prosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd – y Gronfa Galluogi Adnoddau Naturiol a llesiant (LlC/UE) (wedi'i gwblhau)
- Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Llywodraeth Cymru – amrywiol brosiectau natur, gan gynnwys rheoli gwarchodfeydd natur, dolydd cymunedol, gweithio gyda natur, cynyddu ymwybyddiaeth a gwirfoddoli. Symudwyd ymlaen â'r gwaith o greu dolydd newydd yn Nŵr y Felin a Chaewathan y gall pobl eu mwynhau fel mannau gwyrdd naturiol, gyda cherfluniau newydd ac arwyddion dehongli yn cael eu gosod yno. Gwnaed gwelliannau bioamrywiaeth a chyflwynwyd nodweddion bioamrywiaeth ychwanegol yn y warchodfa natur cerrig camu ym Mharc Talbot, ac yn Ysgol Gynradd Glyncorrwg.
- Glo a Chymuned Craig Gwladys – Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF). Sicrhawyd cyllid pellach hefyd er mwyn dal ati i ddatblygu'r parc hwn.
- Troi'r Llwyd yn Wyrdd ym Mhort Talbot – Llywodraeth Cymru/NLHF, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (cronfa gyfalaf).
- Cysylltiadau Arfordirol – Cronfa Her ac Adeiladu Capasiti mewn Ardaloedd Arfordirol, Llywodraeth Cymru, sicrhawyd cyllid yn ddiweddar ar gyfer prosiect arfordirol a fydd yn para tan 2025.
- Cyflawnwyd gwelliannau, gydag Ysgol Gynradd Glyncorrwg yn gweld y manteision mwyaf – symudwyd o leoedd chwarae oedd fwy neu lai'n goncrid i gyd i gynnwys gwelyau blodau gwyllt a blannwyd gan y plant. Cynllunnir gwelliannau pellach mewn mannau eraill fel rhan o'r Prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. ·Cafodd y gwersi a'r teithiau ysgol dderbyniad da ym mhob ysgol yn ardal y Mawndiroedd Coll. Roedd yr amcanion dysgu yn yr ysgol yn cynnwys:
  - Sut mae mawnogydd yn ffurfio – dyfnhau dealltwriaeth o rôl migwyn (cysylltiadau â gerddi mawnog a osodwyd yn flaenorol)
  - Nodweddion mawn a'i ddefnydd– pwysigrwydd compost di-fawn
  - Rhesymau dros adfer mawndiroedd a thechnegau adfer – mawnog mewn potel, gerddi mawnog, nodweddion dal dŵr y migwyn, arbrofion argaeau
  - Deall mwy am ffawna a fflora'r mawnogydd – y 10 rhywogaeth ar y brig
  - Deall y gwahaniaeth rhwng hinsawdd a thywydd
  - Bu'r plant yn dysgu am fawnogydd ac adfer mawnogydd, gan ymweld â'n mawnogydd hyd yn oed i'w gweld drostynt eu hunain.



# Yr Hinsawdd, Byd Natur a Datgarboneiddio

## Decarbonisation






Bydd y Cynllun Ynni Ardal Leol yn sicrhau ein bod ni fel cyngor yn barod am yr anghenion/y galw am ynni yn y dyfodol a hefyd y cyfleoedd sy'n codi yng nghyswllt ynni adnewyddadwy a'i dechnoleg.

Gan adeiladu ar lwyddiant ei strategaeth DARE (Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy), mae'r cyngor yn dal i roi sylw i faterion Datgarboneiddio, Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) a chyflawni canlyniadau yn y maes.

Yn 2024, ad-drefnwyd gweithgareddau mewnol y cyngor o dan dîm Datgarboneiddio, Ynni a Newid Hinsawdd newydd sy'n gweithio ar draws y cyngor cyfan i gynyddu ymwybyddiaeth o'r materion hyn yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid lleol ar brosiectau datgarboneiddio.

I gefnogi gwaith y tîm hwn ac i adnewyddu strategaeth DARE 2020, mae'r cyngor wedi penodi'r Ymddiriedolaeth Garbon i helpu'r tîm i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sero Net 2030 ar gyfer y cyngor (cynllun â chostau) a phennu blaenoriaethau'r cyngor am y 6 blynedd nesaf.

Wedi ymdrech sylweddol, mae'r Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) ar ei ffurf derfynol wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Fe'i lluniwyd yn gyfochrog â'r awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth, sef Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Tynnwyd y cynlluniau unigol hyn ynghyd i greu prif gynllun rhanbarthol sy'n nodi 12 blaenoriaeth allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt yn ystod y blynyddoedd nesaf, yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cydosod y cynlluniau rhanbarthol hyn o bob rhan o Gymru mewn cynllun cenedlaethol. Mae'r LAEP hefyd yn cynnwys rhai camau gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â CNPT yn unig.

Yn 2023 bu CNPT a phartneriaid eraill yn gyfrwng i sicrhau cyllid gan InnovateUK i gefnogi Pwynt Lansio: Diwydiant Sero Net, De-orllewin Cymru. Cronfa gwerth £7.5M dros 3 blynedd yw hon, sydd â'r nod o dyfu'r economi werdd yn Ne-orllewin Cymru (sy'n cwmpasu CNPT, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro).

Nod y pwynt lansio hwn yw cefnogi prosiectau arloesi nodedig a arweinir gan fusnesau. Pan sicrhawyd y cyllid, 10 pwynt lansio yn unig oedd yn y Deyrnas Unedig. Bydd InnovateUK yn cyhoeddi cyfres thematig o alwadau am gyllid i gefnogi busnesau lleol rhwng 2023 a 2025, gan gynnig gwahanol lefelau o gymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â phrosiectau.

Mae prosiectau a rhaglenni Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn parhau i wneud cynnydd da ac ategu'r agenda ddatgarboneiddio. Maent yn helpu i symud ymlaen ymhellach â'r agenda cerbydau allyriadau isel, gan gynnwys cerbydau trydan a cherbydau a yrrir gan hydrogen.

Gellir gweld manylion pellach am Gartrefi sy'n Bwerdai a Chefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel ar dudalennau 68-70.

# Yr Hinsawdd, Byd Natur a Datgarboneiddio

## Cerbydau’r Cyngor

Cymeradwywyd ein Strategaeth Seilwaith a Cherbydau Allyriadau Sero (ZEVIS) ym mis Tachwedd 2023 ac rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Rhanbarth De-orllewin Cymru i lunio Strategaeth Ranbarthol a Rhaglen Wella gydamserol. Symudwyd ymlaen â chynllun gweithredu’r Strategaeth yn y meysydd allweddol canlynol:

- Rhaglen llwybr carlam Cyngor CNPT ar gyfer gosod pwyntiau gwefru (nod pwynt allweddol) – bydd y rhaglen llwybr carlam hon yn nodi hybiau gwefru craidd allweddol ar y prif lwybrau teithio, mewn trefi a phentrefi ac yn y cymoedd, gan ganolbwyntio ar alluogi lleoliadau;
- Ymarfer mapio i nodi’r holl ffynonellau cyllid posibl sy’n ymwneud â darpariaeth wefru;
- Er mwyn sicrhau bod y seilwaith cerbydau allyriadau sero yn cael ei gydlynu’n fewnol ar draws y cyngor, mae’r Swyddog Seilwaith Cerbydau Allyriadau Sero wedi ffurfio gweithgor o randdeiliaid mewnol allweddol i nodi’r holl gynlluniau a phrosiectau perthnasol presennol neu arfaethedig.
- Datblygu a llunio strategaeth gyfathrebu ar gyfer y Strategaeth Seilwaith a Cherbydau Allyriadau Sero.

Mae’r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer newid cerbydau a faniau ysgafn erbyn 2025 a phob cerbyd arall erbyn 2030 yn eithriadol o heriol. Fodd bynnag, mae’r cyngor wedi gwneud cynnydd da iawn wrth newid cerbydau addas hyd yn hyn ac mae’n parhau i archwilio pob dewis a rhaglen dreialu pan ddaw’r amser i newid cerbydau fel rhan o raglen adnewyddu cerbydau’r cyngor a gymeradwyir yn flynyddol. Mae gwerthusiadau annibynnol cynnar o’r camau a gymerwyd yn awgrymu ein bod yn rhagori tipyn ar gyfartaledd yr awdurdodau ‘cymysg’ (nad ydynt yn awdurdodau trefol, gwledig nac yn awdurdodau cymoedd yng Nghymru). Mae 11.59% o gerbydlu CNPT yn gerbydau allyriadau sero ac mae 90% o’r faniau a brynwyd y llynedd yn rhai allyriadau sero.


Cafodd rheolaeth gorfforaethol y pwyntiau gwefru ei rhesymoli hefyd trwy newid o ddarparwyr lluosog i un darparwr pwyntiau gwefru. O ganlyniad mae’r gwaith o reoli’r seilwaith gwefru yn fwy effeithlon, mae’n caniatáu i swyddfa’r cerbydlu ymateb yn well pan fydd pwyntiau gwefru yn torri i lawr ac mae’n symleiddio’r gwaith o adennill costau trydan fesul cerbyd a llunio adroddiadau a setiau data sy’n haws eu cyrchu, gan arwain at ddarparu gwell gwasanaeth.


*Mae 50 o gerbydau’r cyngor eisoes wedi newid i ddarpariaeth drydan lawn. Mae cynlluniau i newid rhagor o gerbydau i rai allyriadau isel iawn.*

*Mae 94% o’r technegwyr gweithdy wedi llwyddo i wella’u sgiliau gan gwblhau cymhwyster hyfforddiant Lefel 3 mewn cynnal a chadw cerbydau trydan a cherbydau hybrid.*

*Mae cyfanswm o 62 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi’u gosod ac yn weithredol yn y depos a’r adeiladau dinesig.*





## Yr Hinsawdd, Byd Natur a Datgarboneiddio

### Y Portffolio Adeiladau Gweithredol a'r Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (Cyhoeddus)

Datblygwyd a chyflwynwyd y gweithgareddau a'r mesurau canlynol er mwyn symud ymlaen â datgarboneiddio'r portffolio adeiladau gweithredol:

- Symud ymlaen â'r rhaglen rhesymoli adeiladau gweithredol.
- Ymddiriedolaeth Celtic– Dechreuwyd cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sefydlu rhaglen a gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer gwella ynni, carbon a dŵr.
- Grant Chwaraeon Cymru – Cais llwyddiannus am £200,000 o gyllid i uwchraddio goleuadau LED mewn tair canolfan hamdden.
- Adolygiadau Optimeiddio System Rheoli Adeiladau – Adolygwyd arolygon safle yn y Ceiau/SRC a Chanolfan Ddinesig Castell-nedd fel rhan o'r rhaglen beilot.
- Canllawiau arfer gorau o ran ynni safleoedd – Mae canllaw arfer da o ran ynni/carbon ar draws y portffolio adeiladau gweithredol ar fin cael ei gyhoeddi.
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Cwblhawyd adroddiadau gwerthuso perfformiad ynni/carbon.
- Energy Sparks – Ar fin rhoi menter Energy Sparks ar waith mewn ysgolion perthnasol ar draws y portffolio ysgolion.
- Rhaglen Solar PV – Yn symud ymlaen â chynlluniau PV mewn 14 o ysgolion, a hefyd yn archwilio dichonoldeb solar PV yn y Ceiau/SRC. Gosodir system PV ar y blociau arlwyo newydd yn Ysgol Gynradd Coedffranc ac Ysgol Gynradd Sandfields.
- Cwblhawyd cynlluniau'r rhaglen trywydd sero net ar gyfer safleoedd y prif adeiladau dinesig.
- Cwblhawyd Strategaeth Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel/Allyriadau Sero CNPT (cyhoeddus) ar gyfer y cyngor er mwyn sicrhau dull cydlynus o ddatgarboneiddio siwrneiau yn ardal CNPT sy'n cyd-fynd â dull gweithredu Dinas-ranbarth ehangach Bae Abertawe.
- Cynlluniau i Uwchraddio Goleuadau a Rheolaeth LED – Cwblhawyd nifer o gynlluniau LED, yn bennaf mewn adeiladau dinesig ac ysgolion, ac edrychir hefyd ar lunio rhaglen ehangach o oleuadau LED.
- Datblygwyd cynllun i uwchraddio goleuadau LED yng nghanolfan Ddinesig Castell-nedd a'r Ceiau/SRC o dan arweiniad Rheoli Cyfleusterau gyda chymorth 'Energy'.
- Llunnir rhaglen strategaeth ymgysylltu ynghylch Llythrennedd Carbon.
- Bodlonwyd gofynion y cynllun effeithlonrwydd ynni sylfaenol (MEES), gweithredwyd rhaglen y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) ar draws y portffolio o adeiladau a brydlesir. (Amcan allweddol y rhaglen oedd sicrhau bod gradd EPC yr eiddo ym mherchnogaeth CNPT sy'n cael eu prydlesu yn E neu'n uwch)


# Trafnidiaeth

## Y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymddiried y dasg o lunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Gofynnwyd i'r rhanbarth lunio Cynllun Gweithredu oedd yn pennu sut byddai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) yn cael ei ddatblygu a'i fabwysiadu. Mae'r cyllid a'r amserlen ar gyfer datblygu'r CTRh yn gyfyngedig iawn, yn enwedig o ystyried nifer yr astudiaethau y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn bwydo i mewn i'r CTRh, yr holl ymgynghori cyhoeddus sy'n gorfod cael ei gwblhau a'r amserlenni ar gyfer sicrhau cymeradwyaeth wleidyddol/y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Cyn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, cafodd y Cynllun Gweithredu ei ystyried a'i gadarnhau gan Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023. Nodau trosfwaol yr Is-bwyllgor hwn yw sbarduno system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon ar draws y rhanbarth; un o swyddogaethau'r is-bwyllgor yw rhoi argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

### Amserlen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol









## Hwb Trafnidiaeth Castell-nedd

Dyfarnwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn parhau â'r gwaith o ddylunio Hwb Trafnidiaeth Castell-nedd. Cyflwynwyd dyluniad yr Hwb Trafnidiaeth i'r Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2023. Sicrhawyd cyllid i symud ymlaen i'r cam dylunio manwl a dechrau casglu tir ynghyd.

Mae strategaeth gyfathrebu yn cael ei datblygu i sicrhau bod busnesau y mae'r datblygiad yn effeithio arnynt yn cael gwybodaeth ac yn ymwneud â datblygu'r cynllun. Caiff llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol eu gwella er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref, yn ogystal â lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat.

## Rhwydwaith Bysiau

Bu'r cyngor yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a'r cwmnïau bysiau i gyflwyno rhwydwaith fforddiadwy o fewn cyllideb y Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau. Mae angen sicrhau dyfodol y rhwydweithiau, fodd bynnag. Cynhaliwyd ymarfer tendro ar gyfer bysiau lleol yng nghyswllt rhwydwaith 2024/2025. Cafodd contractau eu tendro, eu gwerthuso a'u sicrhau. Bydd y rhwydwaith hwn yn weithredol hyd nes y cyflwynir trefniadau masnachfraint.

# Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Hamdden

## Cyfres newydd o Strategaethau

Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r Strategaeth Diwylliant, y Cynllun Rheoli Cyrchfan a'r Strategaeth Treftadaeth newydd a chynhaliwyd digwyddiad lansio i ddathlu hynny ar 16 Gorffennaf 2024. Roedd rhanddeiliaid diwylliant, twristiaeth a threftadaeth, cyrff cyllido a phartneriaid o'r sector cyhoeddus yn bresennol yn y digwyddiad.

Mae'r Strategaeth Diwylliant yn seiliedig ar ymgynghori helaeth â chymunedau ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad hirdymor mewn diwylliant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Un o gamau gweithredu cynnar y Strategaeth Diwylliant yw sefydlu strwythur llywodraethu, a threfnwyd cyfarfodydd â Phrifysgol Abertawe i bennu cwmpas y gwaith hwn.

Cydgynhyrchwyd y Cynllun Rheoli Cyrchfan â phartneriaid yr economi ymwelwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Y cam gweithredu nesaf fydd sefydlu Grŵp Arweinwyr Rheoli Cyrchfan i gyflwyno'r cynllun dros y pum mlynedd nesaf.

Bu'r Strategaeth Treftadaeth hefyd yn destun ymgynghori helaeth â phartneriaid cymunedol, treftadaeth a strategol. Mae'r strategaeth yn pennu camau gweithredu er mwyn sicrhau bod ein hamgylchedd hanesyddol a naturiol yn cael ei gadw a'i reoli mewn modd cynaliadwy.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn elfen allweddol o'r tair strategaeth ac mae swyddogion yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid a phartneriaid strategol i gyflawni yn erbyn y cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r gyfres o strategaethau.

Mae'r ymgyrch Marchnata Cyrchfannau wedi cyrraedd 1,923,060 o gymharu â tharged o 1,000,000.



## Y Gronfa Treftadaeth, Diwylliant a Digwyddiadau

Mae lansio **Cronfa Treftadaeth, Diwylliant a Digwyddiadau** Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi caniatáu i ni gefnogi ystod eang o brosiectau ar draws y fwrdeistref sirol. Cymeradwywyd 20 o geisiadau i gyd, gan gefnogi sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

**£1.7+ million** Cyfanswm gwerth y cymorth grant a ddyfarnwyd i brosiectau lleol trwy'r Gronfa Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau









# Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Hamdden

## Prosiect Treftadaeth CNPT

Fel rhan o Brosiect Treftadaeth CNPT, gallai sefydliadau wneud cais am grantiau gwerth rhwng £250 a £3,000 ar gyfer prosiectau llai a hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau mwy. Gwahoddwyd grwpiau gwirfoddol, cyrff cymunedol, elusennau, cynghorau cymuned ac ysgolion i gyflwyno cais.

Mae'r gronfa wedi cefnogi gweithgareddau megis hyfforddiant sgiliau treftadaeth, cloddfeydd archaeolegol, prosiectau hanes llafar ac adfer treftadaeth adeiledig.

**£45k** Grantiau Treftadaeth wedi'u dyrannu i brosiectau mewn tair rownd o grantiau.

**£50k** Gyllid ychwanegol wedi'i sicrhau o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn parhau â'r Cynllun Grant Treftadaeth Gymunedol


Er mwyn cefnogi gwirfoddolwyr lleol, cynhaliwyd digwyddiad treftadaeth yng Ngerddi Victoria i hyrwyddo gwaith grwpiau a chymdeithasau lleol. Denodd y digwyddiad gynulleidfa ardderchog, gyda 30 o bobl ar gyfartaledd yn ymweld â phob stondin. Gweithiwyd hefyd gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot i gynnal digwyddiad Rhwydweithio a Dathlu ym mis Hydref 2023 yn y Plaza, Port Talbot.

Hyrwyddwyd ystod o ddigwyddiadau gan grwpiau treftadaeth lleol trwy **@HeritageNPT**

## Prosiectau Eraill a Ariannwyd

- Sicrhawyd £300,000 o gyllid trwy Gynllun Pethau Pwysig Croeso Cymru i wella'r ddarpariaeth barcio ger adfeilion Mynachlog Nedd. Mae hyn yn rhan o brosiect ehangach 'prif gynllun' Mynachlog Nedd a gyflawnir mewn partneriaeth â Cadw. Bydd y prif gynllun hefyd yn edrych ar ddatblygu cysylltiadau rhwng Adfeilion Mynachlog Nedd a Gwaith Haearn Mynachlog Nedd – gan ddod â'r atyniadau treftadaeth leol ynghyd a gwella'r cyfleusterau cyffredinol ar gyfer ymwelwyr.
- Cyflwynwyd cais am gyllid i Digwyddiadau Cymru tuag at ddigwyddiad i ddathlu Canmlwyddiant Richard Burton yn 2025. Rydym yn aros am ganlyniad y cais.
- Bu'r cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am £139,000 i ddatblygu prosiect 'Cysylltiadau Camlas' yn llwyddiannus. Bydd y prosiect yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Camlas Nedd a Chamlas Tenant er mwyn edrych ar ddewisiadau posibl i'w gwella.
- Mae prosiect Parc Gwledig y Gnoll, a gyllidir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n rhan o brosiect ehangach Coridor Treftadaeth Bro Nedd, wedi cyrraedd y cam dylunio manwl. Cwblhawyd y gwaith ymgynghori cyn ymgeisio a chyflwynwyd y ceisiadau cynllunio. Bydd y prosiect yn cyflawni gwaith gwerth £12 miliwn ym Mharc Gwledig y Gnoll erbyn mis Mawrth 2026.
- Mae cynllun Gwlad y Sgydau, Pontneddfechan, sydd hefyd yn rhan o brosiect ehangach Coridor Treftadaeth Bro Nedd, wedi cwblhau'r cam ymgynghori cymunedol. Cynhaliwyd tair sesiwn galw heibio rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2023. Cynhaliwyd arolwg ar-lein yn gyfochrog â'r sesiynau wyneb yn wyneb.

## Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Hamdden




- ·Prydleswyd Canolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan i'r deiliaid prydles newydd, Base Wales. Mae trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar yn awgrymu bod angen ailedrych ar y drafft blaenorol o Brif Gynllun Parc Coedwig Afan, a bydd gwaith pellach yn cael ei gwblhau yn 2024/2025.
- Ymgynghorwyd â'r gymuned er mwyn llunio Prif Gynllun Glan Môr Aberafan a fydd yn llywio datblygiad yr ardal honno yn y dyfodol er lles trigolion ac ymwelwyr. Ar ben yr ymgynghori cyhoeddus, cynhaliwyd sesiynau hefyd i alluogi aelodau lleol ac adrannau'r cyngor i fwydo i mewn i'r prif gynllun. Mae'r cyngor bellach wedi comisiynu Roberts Limbrick i lunio'r prif gynllun, a disgwylir dogfen derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

**444** Cyflwynwyd arolygon ar-lein yn rhan o'r ymgynghori ynghylch Prif Gynllun Glan Môr Aberafan

**236** Daeth pobl i'r sesiynau cyhoeddus galw heibio ar 16 a 17 Chwefror 2024.

- Cwblhawyd ymarferiad caffael a phenodwyd asiantaeth gyfathrebu allanol i weithio gyda Thîm yr Economi Ymwelwyr i gyflwyno'r ymgyrch Marchnata Cyrchfan a Balchder Bro a gyllidir trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Cafodd y Galon Ddur a grëwyd i hyrwyddo lansio ymgyrch marchnata cyrchfan Calon Ddramatig Cymru ei gosod ym Mharc Margam rhwng 7 a 13 Awst 2023. Rhoddwyd hi ar fenthyg hefyd i Luminate Wales yn ystod Tachwedd/ Rhagfyr 2023 fel un o'r gosodiadau yn y digwyddiad.
- Rhoddwyd ymgyrch Balchder Bro ar waith ym mis Hydref 2023 ac mae'n datblygu momentwm trwy gyfres o fideos a gafodd eu ffilmio gyda 'llysgenhadon lleol yr ymgyrch' sy'n sôn wrth y gynulleidfa am eu cysylltiad â Chastell-nedd Port Talbot.
- Rhaglen o sgyrsiau a digwyddiadau hanes lleol i oedolion yn y llyfrgelloedd, gan gynnwys sesiynau cymorth hanes teulu bob mis. Sgyrsiau estyn allan gyda grwpiau cymunedol a chartrefi preswyl.
- Cynhaliwyd arddangosfa Arwyr Lleol y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghanolfan Siopa Aberafan yn ystod Gŵyl Lluoedd Arfog y Maer ym mis Tachwedd 2023.
- Arddangosfa Archaeoleg 'Ar Garreg Ein Drws' yng nghypyrddau arddangos Amgueddfa Llyfrgell Castell-nedd - Ebrill 2023 -Mawrth 2024



Cefnogodd y Tîm Twristiaeth 31 o weithredwyr twristiaeth yn ystod 2023/2024.

Mae hyn yn cynnwys:

- 6 busnes newydd
- 11 busnes arfaethedig; a
- 4 busnes sydd eisoes yn bodoli

Mae'r busnesau hyn yn amrywio o lety gwyliau i ddigwyddiadau.

Mae'r ymholiadau'n ymwneud â chyngor marchnata, cyngor cyllido a thrafodaethau am gyflwr y farchnad a'r posibilrwydd o ddatblygu safleoedd/cynigion penodol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Hamdden


Lansiwyd ystod o fideos yn rhan o Ymgyrch y Cyrchfan.



**BAROD AM ANTUR**



**DADORCHUDDIO'R GALON DDUR**



**PARC COEDWIG AFAN BEICIO MYNYDD**

### Treftadaeth a Diwylliant yng Nghyngor CNPT

Cyhoeddwyd cwrs 'Ar Garreg Ein Drws' ar 22 Ionawr 2024 i gyd-fynd â sesiwn Croeso Corfforaethol gynta'r flwyddyn. Yn dilyn y sesiwn hon, mae'r cwrs hwn bellach yn orfodol ar gyfer yr holl weithwyr newydd sy'n dechrau gyda'r cyngor. Mae'r cwrs yn cael ei hysbysebu'n weithredol bellach trwy sianeli cyfathrebu corfforaethol y cyngor.

Gwnaeth staff sylwadau bod y cwrs yn rhoi gafael dda iddynt ar hanfodion y lleoliad lle maen nhw'n gweithio ac amlygwyd bod y cwrs yn darparu cyfleoedd iddynt ar garreg eu drws. Rydym hefyd yn edrych ar ddatblygu agweddau ychwanegol o'r dreftadaeth a'r diwylliant lleol trwy greu adnoddau pellach i helpu staff i ddeall mwy am yr ardal leol. I helpu gyda hynny, bwriadwn greu sianel Diwylliant a Threftadaeth ar Viva Engage.




# Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Hamdden

## Teithio Llesol CNPT – Ehangu a Gwella ein Rhwydwaith

Lluniwyd fersiwn ddrafft o Gynllun Cyflawni Teithio Llesol CNPT. Mae'r cynllun drafft yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol teithio llesol yng Nghastell-nedd Port Talbot am y 5 mlynedd nesaf, gyda'r nod o wneud cerdded, beicio ac olwynio yn ddewisiadau a ffafrir ar gyfer Castell-nedd Port Talbot glanach, iachach, mwy diogel ac egnïol.

Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ynghylch y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol rhwng 20 Rhagfyr 2023 a 5 Chwefror 2024. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys: Trafnidiaeth Cymru, yr isadrannau Cynllunio, Rheoli'r Rhwydwaith, Priffyrdd, y Tîm Chwarae, Cefn Gwlad, Bioamrywiaeth, Iechyd yr Amgylchedd (Ansawdd Aer), Diogelwch Ffyrdd, Twristiaeth, Ynni a Chyfathrebu. Cafodd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgysylltiad â'r rhanddeiliaid eu hystyried a newidiwyd y cynllun, lle roedd hynny'n briodol, i adlewyrchu'r sylwadau.



Er mwyn ehangu ein rhwydwaith, mae'r gwaith ar y cynlluniau canlynol yn parhau: cyswllt Ysbyty Tonna, Bryn - Goetre, Goetre - Port Talbot, Castell-nedd - Cimla, Dŵr y Felin, Ffordd Gyswllt y Bont Newydd, Prif Gynllun Sandfields, croesfan Village Road a Phrif Gynllun Castell-nedd.

Ymgysylltwyd ynghylch Prif Gynllun Sandfields rhwng 18 Ionawr a 16 Chwefror 2024, gan gynnwys digwyddiad galw heibio wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden a Ffitrwydd Aberafan ddydd Iau 25 Ionawr 2024. Daeth cyfanswm o 80 ymateb i law yn ystod yr ymgynghoriad.

Cafodd 4 rhwystr nad oeddent yn cydymffurfio â'r gofynion (rhai a oedd yn atal rhai defnyddwyr rhag cael mynediad i lwybrau teithio llesol) er mwyn i bawb allu eu defnyddio. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 56 o rwystrau wedi cael eu hamnewid ers 2019.

Gosodwyd mannau cadw beiciau yng Nghanolfan Hamdden Bro Nedd, Canolfan Hamdden Cwrt Herbert, Canolfan Hamdden Pontardawe a Chanolfan Hamdden Aberafan er mwyn caniatáu i ymwelwyr gadw eu beiciau yn ddiogel tra byddant yn ymweld â'r cyrchfannau hyn.

**Monitro**
Sefydlwyd rhaglen waith i gofnodi cyflymder a lefel y traffig, ynghyd â chyfri'r nifer sy'n beicio ac yn cerdded. Casglwyd data i gofnodi llinell sylfaen ac amlygu'r manteision sy'n deillio o wella llwybrau teithio llesol. Bydd hyn yn caniatáu i CNPT gyflawni ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Teithio Llesol.

**Hyrwyddo**
Diweddarwyd gwefan CNPT i hyrwyddo Teithio Llesol, i roi cyhoeddusrwydd i'r Map diwygiedig o'r Rhwydwaith Teithio Llesol ac i ddarparu gwybodaeth am y llwybrau a gwblhawyd yn ddiweddar. Bu staff yn bresennol mewn diwrnod hwyl i deuluoedd i hyrwyddo teithio llesol. Nod y gwaith hyrwyddo hwn yw annog unigolion i ddewis cerdded neu feicio i'r gwaith, i'r ysgol neu i'r siopau, ynghyd â sbarduno ymweliadau â'n gwefan.

**Datblygu'r Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol**
Archwiliwyd llwybrau yn erbyn cyfres o feini prawf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cael gwybod a yw'r holl lwybrau a welir ar ein Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol yn addas ar gyfer cerdded, beicio neu'r ddau. O ganlyniad i'r archwiliadau, mae rhai llwybrau arfaethedig ar gyfer y dyfodol wedi bodloni'r meini prawf archwilio yn llwyddiannus, a thrwy hynny wedi dod yn llwybrau presennol.

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| % y personau (3 oed a throsodd) sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg | 23.4% | Cynyddu | 29.1% |
| % y bobl (3 oed a throsodd) sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd | 12% | Cynyddu | 16.6% |
| Cyfanswm y cyllid allanol (£) a dderbyniwyd i amddiffyn asedau amgylcheddol hanesyddol | Mesur newydd | Cynyddu | £330,000 |
| % y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos | Nid oes ar gael | Cynyddu | Nid oes data ar gael |
| % y disgyblion a gymerodd ran mewn chwaraeon mewn clwb cymunedol o leiaf unwaith yr wythnos | 62.3% | Cynyddu | Nid oes data ar gael |
| % yr oedolion a fu'n actif am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol | Mesur newydd | Mesur newydd | Nid oes data ar gael |
| % y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf dair gwaith neu fwy yr wythnos | 39% | Cynyddu | Nid oes data ar gael |

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
| --- | --- | --- | --- |
| Cyfanswm gwerth y cyllid a sicrhawyd i wella safon y profiad i ymwelwyr | I dilyn | Cynyddu | £825,605 |
| Cyfanswm gwerth y cymorth grant a ddyfarnwyd i brosiectau lleol trwy'r Gronfa Treftadaeth, Diwylliant a Digwyddiadau | Mesur newydd | Cynyddu | £1,764,725 |
| Cyfanswm cwmpas cronnol ymgyrch marchnata'r cyrchfan ac ymgyrch balchder bro. | Mesur newydd | Cynyddu | 1,923,060 |
| % y gwastraff i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | 64.73% | Cynyddu | 67.72% |
| Cilogramau y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person | 195.56 | Cynyddu | 197.25 |
| Arwynebedd y tir ym mherchnogaeth y cyngor (neu dan ei reolaeth) a ddefnyddir yn fannau gwyrdd a gwarchodfeydd natur lleol | 971ha | Cynyddu | 852ha |
| Swm y tir ym mherchnogaeth y cyngor (neu dan ei reolaeth) sy'n cael ei ddiogelu trwy ddynodiad a/neu sy'n destun rheolaeth briodol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth, fel y nodwyd mewn cynllun rheoli cymeradwy. | 287ha and 30km | Cynyddu | 1150ha and 30km |

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr achosion o fynd dros y trothwy PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot/Taibach). | 30 | Cynnal | 27 |
| Swm y tir ym mherchnogaeth y cyngor (neu dan ei reolaeth) a ddynodwyd neu sy'n bodloni'r meini prawf i'w ddynodi'n Safle Pwysig ar gyfer Cadwraeth (SINC). | 782ha | Cynyddu | 780ha |



# Amcan Llesiant

Mae'r tudalennau canlynol yn darparu trosolwg o'r cynnydd a'r cyflawniadau allweddol yn ystod 2023/2024.



## 4 Swyddi a Sgiliau

Er mwyn gweithio i gyflawni amcan llesiant 'Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon', rydym wedi dal i symud ymlaen gyda nifer o brosiectau buddsoddi ac adfywio allweddol yn yr ardal leol, ynghyd â phrosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe, datblygu achos busnes y Porthladd Rhydd Celtaidd ymhellach a thynnu i lawr mwy na £50 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy ei Chronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro.

O ganlyniad i'r cyllid hwn bu modd i ni lansio Cronfa Twf Busnes ac Arloesedd a'r Gronfa Blaenoriaeth i Fusnesau Lleol, gyda grantiau gwerth dros £6 miliwn yn cael eu cynnig i fusnesau. Ar ben hynny, darparwyd 52 o ddigwyddiadau ymgysylltu 'Gawn ni siarad Busnes', gyda'r nod o glywed gan ein busnesau lleol a gweithio gyda nhw er mwyn parhau i yrru'r economi leol ymlaen.

Mae gwaith yn parhau gyda sefydliadau partner i nodi bylchau sgiliau a datblygu rhaglenni perthnasol i gefnogi'r sector Ffermydd Gwynt sy'n Arnofio oddi ar y lan (FLOW), gan weld swyddi gwyrdd newydd yn dod i'r amlwg, a pherthnasoedd gwaith â phartneriaid academaidd yn cryfhau er mwyn datblygu a chysylltu prosiectau a sicrhau bod cwmnïau yn y sefyllfa orau i arallgyfeirio i'r sector a datblygu'r cadwyni cyflenwi lleol/rhanbarthol.

Mae Cyflogadwyedd Castell-nedd Port Talbot yn dal i gyflwyno ystod eang o ymyriadau i helpu a chefnogi unigolion 16 oed a throsodd gyda materion llesiant, cyflogaeth, hyfforddiant, profiad gwaith a chyfleoedd gwaith â thâl. Yn rhan o'r gwaith hwn yn ystod 2023/2024 cefnogwyd 404 o unigolion o aelwydydd di-waith i ddychwelyd i'r gwaith.

Yn dilyn y cyhoeddiad ynghylch cynllun pontio Tata yn 2023, dechreuodd y gwaith paratoi gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill i ymgysylltu â staff Tata, cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a ble mae cymorth pellach ar gael.

Cyfanswm Nifer y Nodau: 20

- 11 ar y llwybr cywir
- 6 â rhagor o waith i'w wneud
- 3 heb ddilyn y llwybr cywir

Cyfanswm Nifer y Mesurau Perfformiad: 10

- 3 ar y llwybr cywir
- 0 â rhagor o waith i'w wneud
- 2 heb ddilyn y llwybr cywir
- 4 ar gyfer monitro
- 1 â data heb ei gasglu / heb fod ar gael

# Amcan Llesiant 4 Swyddi a Sgiliau

Mae'r 20 nod isod, a gafodd eu cymeradwyo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2022/2027, yn pennu cyfeiriad y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2023/2024. Mae'r statws Coch, Ambr, Gwyrdd (CAG) yn darparu trosolwg o'r cynnydd ac mae'r tudalennau dilynol yn amlygu rhai o'r cyflawniadau allweddol rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

**1** Gweithiwyd trwy'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gyflwyno'r Strategaeth Datblygu Economaidd Ranbarthol.

**2** Cyflwynwyd rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) y Deyrnas Unedig yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**3** Symudwyd ymlaen gyda chyfleoedd datblygu a buddsoddi a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy y cyngor.

**4** Cyflwynwyd y Porthladd Rhydd Celtaidd ar draws Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro.

**5** Sicrhawyd gwaith partneriaeth cadarn er mwyn datblygu mwy o gyfleoedd gwyrdd.

**6** Datblygir rhaglenni wedi'u targedu i alluogi pobl leol i fanteisio ar y swyddi a grëir trwy fuddsoddiad busnes newydd.

**7** Datblygwyd yr Hwb Trafnidiaeth yng Ngorsaf Reilffordd Castell-nedd.

**8** Cryfheir rhaglenni cyflogadwyedd ymhellach gan sicrhau mynediad i bawb y mae angen cymorth arnynt i chwilio am waith, gan gynnwys y rhai anoddaf eu cyrraedd.

**9** Sefydlwyd porth cadarn at gymorth busnes i helpu'r economi leol i arallgyfeirio a gallu gwrthsefyll siociau economaidd yn well yn y dyfodol trwy helpu busnesau presennol i dyfu, sefydlu mentrau newydd a denu buddsoddiad newydd i'r ardal.

**10** Aed ati i fuddsoddi yn ein prif drefi, ein canolfannau ardal a'n cymunedau ehangach a denu buddsoddiad ynddynt; ymatebwyd i'r galw am fwy o fannau gwaith hyblyg; lluniwyd Strategaeth Adfywio gyfannol ar gyfer y fwrdeistref.

**11** Cynyddwyd adnoddau'r tîm Adfywio a Datblygu Economaidd er mwyn rhoi'r cyngor mewn sefyllfa well i ddatblygu a chyflwyno ceisiadau am gyllid i gefnogi datblygiad yr economi leol.

**12** Sicrhawyd bod gennym weithlu cryfach gyda digon o gyfleoedd prentisiaeth ar gyfer ein pobl ifanc a'n hoedolion.

**13** Mae mwy o bobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd i sicrhau cymhwyster cydnabyddedig ar ôl cwblhau eu haddysg statudol.

**14** Cryfhau trefniadau partneriaeth yn lleol er mwyn datblygu'r economi, gan sicrhau llais cryf i fusnesau a chymunedau wrth lywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**15** Datblygwyd cynlluniau trafnidiaeth ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru er mwyn cefnogi mynediad at waith, lleihau allyriadau a gwasanaethu anghenion trigolion Castell-nedd Port Talbot.

**16** Ehangwyd Twf Swyddi Cymru+ a rhaglenni prentisiaeth ar draws y fwrdeistref sirol; gyda'r cyngor yn cynnig nifer mawr o gyfleoedd i gael lleoliad o safon.

**17** Mae cynnig y cyngor o ran dysgu a datblygu yn cryfhau gan sicrhau cymorth i bob cyflogai gyrchu cyfleoedd dysgu gydol oes a'r hyder i symud ymlaen yn eu gyrfa gyda'r cyngor.

**18** Mwyafwyd cyfleoedd Gwerth Cymdeithasol a Buddiant Cymunedol ar draws gweithgareddau caffael y cyngor er mwyn gwireddu manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ar gyfer trigolion, busnesau a chymunedau lleol.

**19** Aseswyd effaith y newidiadau a wnaed i fodel gweithredu'r cyngor a symudwyd ymlaen gyda chynigion i newid diben asedau nad oes eu hangen bellach; gallai hynny gynnwys hybiau gweithfannau a rennir, gweithfannau hybrid swyddfa ac ymchwil a datblygu, unedau cychwyn busnes ac ati.

**20** Cryfheir gwaith partneriaeth er mwyn uwchsgilio mwy o bobl sydd eisoes mewn gwaith neu sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith; bydd gan fwy o bobl leol gymwysterau Lefel 4+ a byddant yn cael cymorth i sicrhau swyddi lleol o safon.

## Busnesau Lleol

Gan fod y tirlun yn newid yn barhaus, mae'n rhaid sicrhau bod ein heconomi leol yn datblygu'n barhaus. Drwy weithio gyda phartneriaid megis Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru, Cyflogadwyedd CNPT, colegau a phrifysgolion ac ati, datblygwyd dull cydweithredol i gefnogi cyflwyno rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig a blaenoriaethau datblygu economaidd eraill ar draws ein cymunedau.

Sefydlwyd perthynas waith gref er mwyn casglu a rhannu gwybodaeth a fydd yn helpu i lywio strategaethau i'r dyfodol a chynlluniau i gyflymu arloesedd a thwf busnesau lleol yn gysylltiedig â datgarboneiddio diwydiant, darparu economi leol gadarnhaol a chynaliadwy ac yn sgîl hynny gynyddu nifer y swyddi am gyflog da a lleihau lefelau tlodi.

Daliwyd ati i gydweithio â phrifysgolion a cholegau lleol i gyflwyno pecynnau cymorth busnes arbenigol i gyflogwyr allweddol a chwmnïau deillio er mwyn mwyafu cyfleoedd sy'n rhan o ddatblygiadau/dechnolegau newydd (Ffermydd Gwynt oddi ar y lan (FLOW); carbon isel; sero net, cynhyrchu hydrogen), cynlluniau'r Llywodraeth (Porthladdoedd rhydd), adfywio (ailddatblygu Dociau Port Talbot) a buddsoddiadau newydd (y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd)

### Ymgysylltu â Busnesau

Mae dyrannu Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel rhan o'r 'prosiect angori busnes' wedi caniatáu i ni fuddsoddi mewn adnoddau i ddarparu ystod eang o ddigwyddiadau busnes ar draws ein trefi, ein cymoedd a'n pentrefi. Bu'r rhain yn ddigwyddiadau llwyddiannus o ran ymgysylltu â busnesau a chynnig cymorth uniongyrchol i bobl leol gychwyn, tyfu a symud syniadau ymlaen. Ar ben hynny, crëwyd cyfleoedd i ddyfarnu contractau i'r gadwyn gyflenwi leol yn y sefydliad ac yn allanol trwy ddarparu mynediad at hyfforddiant a gwella sgiliau.

**52** Cynhaliwyd 52 o ddigwyddiadau Gawn ni Siarad Busnes yn 2023/2024




Ar ben hynny, cyflwynwyd digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr ar gyfer:

- Datblygwyr posib y Môr Celtaidd – sicrhau bod cwmnïau lleol wedi cysylltu â gwahanol byrth cadwyni cyflenwi a grwpiau megis Clwstwr y Môr Celtaidd a'r rhai sy'n gysylltiedig â datblygwyr oddi ar y lan;
- Digwyddiad Datblygu Cyflenwyr Cludiant Teithwyr – digwyddiad ar y cyd rhwng yr is-adrannau Datblygu Economaidd a Chludiant Teithwyr i gyflwyno gweithdy ar gyfer gyrwyr tacsi lleol, gyda'r nod o roi mwy o gyfle iddynt ennill contractau ysgol.
- Associated British Ports (ABP); RWE; Wildfox; y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Reilffyrdd (GCRE) i'w hannog i chwilio am gyflenwadau, datblygu cadwyn gyflenwi a chynnig cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn lleol.
- Lisarb – cwmni ynni adnewyddadwy byd-enwog sy'n arbenigo mewn ynni solar, gwynt, môr a hydrogen.

# Busnesau Lleol

## Ymholiadau Busnes

Ym mis Rhagfyr 2023 lansiwyd proses ymholiadau i gefnogi busnesau – gyda materion ariannol a chyllid yn themâu allweddol yr oedd angen cymorth pellach yn eu cylch. Dilynwyd hynny gan gefnogaeth i fusnesau newydd, arloesi, marchnata a'r cyfryngau cymdeithasol, sgiliau, hyfforddiant, a recriwtio.

**547** Ymholiadau busnes a dderbyniwyd rhwng Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024






## Cronfa Twf Busnes ac Arloesedd

Yn dilyn lansio Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r Gronfa Twf Busnes ac Arloesedd yn darparu buddsoddiad mewn busnesau newydd, yn datblygu busnesau sydd eisoes yn bodoli ac yn denu buddsoddwyr mewnol, sy'n allweddol o ran cefnogi cymunedau lleol a'r economi.

**425** Mynegiannau o ddiddordeb a dderbyniwyd

**293** Ceisiadau a gyflwynwyd

**191** Cynigion a wnaed i fusnesau lleol

**£2.3+ million** Grantiau a gynigiwyd

**689** Swyddi cyfwerth ag amser llawn posibl a grëwyd neu a ddiogelwyd


## Cronfa Blaenoriaeth i Fusnesau Lleol

Yn ogystal â'r Gronfa Twf Busnes ac Arloesedd darparwyd Cronfa Blaenoriaeth i Fusnesau Lleol ar gyfer prosiectau mwy, gyda grantiau gwerth hyd at £250,000 er mwyn ymdrin â blaenoriaethau lleol brys.

**32** Application were submitted

**20** Offers were made to local businesses

**£3.9+ million** Grants offered



# Busnesau Lleol

## Swyddi Gwyrdd

Bu'r Tîm Datblygu Economaidd yn gweithio gyda sefydliadau partner i nodi bylchau sgiliau a datblygu rhaglenni perthnasol i gefnogi'r sector Ffermydd Gwynt oddi ar y lan (FLOW) a'r swyddi gwyrdd newydd sy'n dod i'r amlwg.

Cyflawnir llawer o'r gwaith hwn trwy'r Grŵp Sgiliau Gweithgynhyrchu Ffermydd Gwynt oddi ar y lan (FLOW) a sefydlwyd gan y tîm yn rhan o'r prosiect 'Angori Busnes' a gyllidir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig. Roedd hyn yn golygu gweithio gyda chwmnïau ar draws y rhanbarth i gael gwybod pa alluogrwydd a chapasiti sydd ganddynt i fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi sy'n datblygu; nodi pa sgiliau y bydd eu hangen ar weithlu'r dyfodol, deall y problemau sy'n wynebu'r diwydiant a/neu'r rhwystrau sy'n atal cwmnïau rhag gallu cefnogi'r sector FLOW, y sector ynni adnewyddadwy ar y tir, a thechnoleg a seilwaith ynni gwyrdd.

Mae'r tîm hefyd wedi trefnu 3 digwyddiad i gwmnïau lleol gyda datblygwyr posibl prosiect y Môr Celtaidd er mwyn iddynt ddod i ddeall y cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, y sgiliau sy'n ofynnol a manteision ehangach y buddsoddiad hwn a'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn arallgyfeirio i'r sector FLOW.

Ar ben hynny, bu'r tîm yn ymgysylltu â phrosiectau sy'n arloesi trwy dechnolegau newydd i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o dyrbinau gwynt, ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda chwmnïau lleol.

Nod y gwaith hwn yw cynnig manteision hirdymor yn yr ardal trwy:

- Helpu cwmnïau lleol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â FLOW, ynni adnewyddadwy ar y tir; y Porthladdoedd Rhydd ac ati.
- Cynyddu gallu cwmnïau lleol i sicrhau contractau; annog arloesedd a datblygu cadwyni cyflenwi lleol.
- Cryfhau gwaith partneriaeth rhwng busnesau, y byd academaidd a datblygwyr allweddol.
- Helpu cwmnïau i ddeall pa sgiliau a buddsoddiad sydd eu hangen er mwyn arallgyfeirio i FLOW ac ynni adnewyddadwy; creu cyflogaeth a thyfu'r economi leol.

Mae gwaith arall hefyd wedi golygu cryfhau perthnasoedd gwaith gyda phartneriaid academaidd er mwyn datblygu a chysylltu prosiectau sy'n sicrhau bod cwmnïau yn y sefyllfa orau i arallgyfeirio i'r sector a datblygu cadwyni cyflenwi lleol/rhanbarthol.

Yn olaf, er mwyn cefnogi ymdrechion i gyrraedd sero net, sefydlwyd Grŵp Mapio Hydrogen ar gyfer cwmnïau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a defnyddio hydrogen er mwyn dod i wybod mwy am y diwydiant, datblygu dealltwriaeth strategol o'r posibiliadau a nodi'r problemau a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

## Caffael

Gwelwyd cydweithio mewnol pellach yn dilyn cyflwyno Deddf Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Er bod elfen gaffael y Ddeddf hon wedi'i gohirio tan fis Chwefror 2025 bu tîm Datblygu Economaidd a thîm Caffael y cyngor yn cydweithio i wneud y canlynol:

- Datblygu adroddiad sy'n nodi sut gall y cyngor wella a datblygu gwariant lleol.

- Llunio canllawiau a Pholisi Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol, gyda'r nod o fwyafu gwariant yn y gadwyn gyflenwi leol, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, cynyddu ymwybyddiaeth y staff o ystyr gwerth cymdeithasol a sut gall hynny gefnogi'r economi leol yn y pen draw

- Adolygu prosesau a deall y rhwystrau y mae busnesau lleol yn eu hwynebu wrth gyflwyno tendr/dyfynbris am waith gyda'r cyngor.

## Buddsoddi ac Adfywio

Yn ystod 2023/2024 rydym wedi parhau i symud ymlaen gyda nifer o brosiectau buddsoddi ac adfywio allweddol, gan gynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe, Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, y Porthladdoedd Rhydd Celtaidd a menter Trawsnewid Trefi. Rydym yn gweithio hefyd gyda phartneriaid rhanbarthol ar draws De-orllewin Cymru i ddatblygu a chyflwyno nifer o Raglenni Adfywio a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, er mwyn gwireddu blaenoriaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a rhoi cynllun gweithredu'r Strategaeth Datblygu Economaidd Ranbarthol ar waith.

Yn dilyn cyhoeddiad Tata Steel ynghylch datgarboneiddio gwaith dur y cwmni ym Mhort Talbot, cawsom rôl sylweddol wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Economaidd Lleol newydd (LEAP) i gefnogi gwaith pontio TATA. Bydd y Cynllun Gweithredu hefyd yn ystyried blaenoriaethau economaidd yn awr ac yn y dyfodol ac fe'i defnyddir i gefnogi datblygiad Strategaeth Adfywio a Datblygu Economaidd ddiwygiedig.

Bydd y Strategaeth Adfywio a Datblygu Economaidd a'r cynllun cyflawni cysylltiedig yn cefnogi datblygiad cydlynus ein cymuned o fusnesau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg a bydd yn galluogi'r cyngor a'i bartneriaid i gael mynediad at ffynonellau cyllid ychwanegol.

Er mwyn sicrhau bod y meysydd gwaith allweddol hyn yn symud ymlaen, rhoddwyd nifer o strwythurau llywodraethu ar waith i ddatblygu gwaith cydweithredol ym maes datblygu economaidd, adfywio, cyflogadwyedd a sgiliau.



## Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig


Darparodd Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig fuddsoddiad sylweddol yn ardal Castell-nedd Port Talbot yn 2023/2024.

**£33 million** Cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a ddyfarnwyd i Gastell-nedd Port Talbot ar gyfer 2023/2025

Swyddfa Rheoli Rhaglen (PMO) Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yn Nhîm Rhaglenni Cyllido Strategol Cyngor Castell-nedd Port Talbot sy'n arwain y gwaith o gyflwyno'r rhaglen yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn cynnwys sefydlu pum prosiect angori a rheoli galwadau agored am brosiectau Sgiliau, Lluosi a phrosiectau strategol annibynnol. Mae'r PMO yn sicrhau bod swyddogaethau cyflwyno a monitro'r rhaglen a'r gwaith rheoli cysylltiedig yn cydymffurfio â'r gofynion.

Dengys y diagram flaenoriaethau trosfwaol Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a'r pum prosiect angori. Yn ogystal â hynny, cafodd cyfanswm o 31 o brosiectau annibynnol eu cyllido trwy alwadau agored am brosiectau Sgiliau, Lluosi a Phrosiectau Strategol, ynghyd â phum cynllun grant trydydd parti.


Gellir gweld rhagor o wybodaeth am brosiectau UKSPF ar hyd yr adroddiad hwn ac ar wefan y cyngor.



## Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**£17+ million**

Cyllid o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig a ddyfarnwyd i Gastell-nedd Port Talbot yn 2023/2025




Dyfarnwyd mwy na £17m o Gronfa Ffyniant Bro y Deyrnas Unedig i'r cyngor i gyflawni Atyniad Ymwelwyr Coridor Treftadaeth Bro Nedd, sef pecyn ymgeisio a fydd yn cyflawni dau brosiect trawsffurfiannol ym Mro Nedd;

**Cynllun Seilwaith Ymwelwyr Gwlad y Sgydau, Pontneddfechan** a fydd yn darparu seilwaith ymwelwyr strategol gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, llety a gwell cyfleusterau parcio.

**Cynllun Seilwaith Ymwelwyr a Threftadaeth Parc Gwledig Ystâd y Gnoll** a fydd yn buddsoddi yn yr ystâd hanesyddol, gan gynnwys gwell canolfan ymwelwyr a gwelliannau i'r parc.

Yn ogystal, dyfarnwyd £14.8m o Gronfa Ffyniant Bro y Deyrnas Unedig er mwyn **Adfywio Canol Tref Port Talbot**. Mae hyn yn cynnwys;

- Adnewyddu Theatr y Dywysoges Frenhinol,
- Ailddatblygu Sgwâr Ddinesig Port Talbot i greu llecyn cymunedol amlddefnydd a chyflwyno seilwaith gwyrdd;
- Ailddatblygu'r parth cyhoeddus yng Nglanyrafon er mwyn darparu seilwaith gwyrdd a lle chwarae naturiol i blant.

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn aros am gymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer prosiect **Pont Heol Pontnewydd.**

## Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Mae disgwyl i Fargen Ddinesig Bae Abertawe roi hwb parhaol o £1.8 biliwn i Werth Ychwanegol Crynswth y Rhanbarth, a bydd yn cynhyrchu bron 10,000 o swyddi newydd erbyn 2033. Rhennir y buddsoddiad ar draws portffolio o naw prosiect a rhaglen sy'n cyflwyno cyfanswm o 35 prosiect unigol ar draws siroedd Abertawe, Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, a Phenfro. Cyngor Castell-nedd Port Talbot sy'n arwain ar gyflwyno dau brosiect / dwy raglen yn y Fargen Ddinesig.

### Cartrefi sy'n Bwerdai (HAPS)

Nod prosiect Cartrefi sy'n Bwerdai (HAPS) yw cyflwyno cartrefi clyfar, carbon isel, ynni-effeithlon trwy weithredu'n gydlynus ar draws y rhanbarth, gan arwain yn y pen draw at leihau tlodi tanwydd, effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant a chyfrannu at dargedau lleihau allyriadau carbon.







Mae £15m o gyllid y Fargen Ddinesig yn cefnogi nifer o weithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys:

- Hwyluso mabwysiadu dyluniad ynni-effeithlon a thechnolegau adnewyddadwy mewn cartrefi newydd a adeiladir ac yn y stoc tai presennol, gyda chefnogaeth cronfa cymhellion ariannol ranbarthol a dargedir;
- Datblygu cadwyn gyflenwi ranbarthol fedrus a chynaliadwy ar gyfer technolegau adnewyddadwy mewn cartrefi a gefnogir gan gronfa datblygu cadwyn gyflenwi ranbarthol;
- Sefydlu dull cydlynus o fonitro a gwerthuso'r rhaglen dechnoleg.

**Cronfa Cymhellion Ariannol HAPS (£5.75m)**
Lansiwyd y gronfa hon yn ystod ail chwarter 2023 er mwyn annog a chefnogi'r nifer sy'n manteisio ar gysyniad HAPS, yn bennaf mewn awdurdodau lleol sydd â stoc tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Roedd datblygwyr o'r Sector Preifat hefyd yn gymwys i gael mynediad i'r gronfa. Bu cryn dipyn o ddiddordeb ac, yn dilyn proses ymgeisio a sgorio drylwyr, dyfarnwyd y cyllid o hyd at £300,000 oedd ar gael trwy'r cynllun i 16 prosiect ar draws y pedair sir. Hyd yn hyn, dyrannwyd arian i dri chynllun yng Nghastell-nedd Port Talbot er mwyn creu 118 o gartrefi HAPS.

**Contract Monitro a Gwerthuso** – dyfarnwyd y prosiect hwn, sy'n werth £1m, i Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd i fonitro'r tai lle gosodwyd y dechnoleg a rhannu'r gwersi a ddysgir â rhanddeiliaid er mwyn cyflymu a phrofi'r cysyniadau a ddefnyddir.

**Cronfa Cadwyn Gyflenwi HAPS** – bydd y cyllid hwn ar gael yn fuan i sicrhau y gellir gweithgynhyrchu un neu ragor o'r technolegau hyn, yn ogystal â sicrhau bod gennym weithlu â'r sgiliau iawn i osod y cynhyrchion a'u cynnal a'u cadw.

# Bargen Ddinesig Bae Abertawe

## Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel

Mae’r rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel yn cynnwys nifer o brosiectau rhyng-gysylltiedig:

**Canolfan Dechnoleg y Bae** yw’r adeilad masnachol cyntaf sy’n bwerdy (ynni-gadarnhaol) yng Nghymru gyda chysylltiad â’r Ganolfan Hydrogen yn profi’r cysyniad o ddefnyddio ynni adnewyddadwy i greu hydrogen yn danwydd ar gyfer cerbydau, gan arddangos y potensial i ddatgarboneiddio rhoi tanwydd mewn cerbydau. Mae’r adeilad ar Barc Ynni Baglan yn darparu ystod o swyddfeydd a labordai tybiannol hyblyg o safon uchel i gefnogi busnesau newydd a thwf busnesau cynhenid.

**SWITCH (Hwb Pontio Diwydiannol o Garbon De Cymru) Glannau’r Harbwr** – bydd SWITCH yn darparu cyfleusterau arbenigol yng Nglannau’r Harbwr, Port Talbot er mwyn cynnal ymchwil fydd yn cefnogi’r diwydiant a’r gadwyn gyflenwi dur a metelau i wella eu gallu i gystadlu trwy gynyddu galluogrwydd y cynnyrch a lleihau allyriadau carbon er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol.

**Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch (AMPF)** – Datblygwyd y prosiect hwn mewn ymateb i’r angen, y mae tystiolaeth dda ohono, am safleoedd ac adeiladau busnes, gan gynnwys adeiladau diwydiannol. Bwriedir bod y prosiect yn datblygu adeilad hybrid yn seiliedig ar gysyniad ‘ffatri brofi’ , gan ddarparu ystod o unedau cynhyrchu sy’n ymgorffori llinell dreialu a swyddfa i gefnogi cwmnïau newydd a thwf busnesau cynhenid yn y sectorau arloesi a gweithgynhyrchu.

**Canolfan Rhagoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol** (prosiect newydd a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2023) – Y nod yw sefydlu cyfleuster a fydd yn hwb canolog ar gyfer gwaith Ymchwil, Datblygu ac Arloesi cenedlaethol, gan ddefnyddio’r cyfleusterau o’r radd flaenaf i gynyddu nifer ac ansawdd y busnesau carbon isel yn y rhanbarth, a hyrwyddo buddsoddi ac arloesi pellach.

**Rhaglen ysgogi ynni hydrogen** – Bydd y prosiect yn creu cysylltiad rhwng Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe a’r Ganolfan Hydrogen ar Barc Ynni Baglan, gan gynnwys gwaith angenrheidiol i uwchraddio’r cyfarpar, megis electroleiddiwr i greu systemau ynni clyfar a throsi’r trydan dros ben yn hydrogen sy’n danwydd i gerbydau a ddefnyddir gan y cyngor a fydd hefyd yn cael eu prynu â chyllid y Fargen Ddinesig.

**Rhaglen monitro ansawdd aer** – Datblygwyd y prosiect hwn mewn ymateb i broblemau ansawdd aer a’r angen am ddeall lefelau llygredd a datblygu mesurau lliniaru sy’n mynd i’r afael â’r llygredd hwn. Bydd y prosiect yn cynnwys system fonitro a dadansoddi a fydd yn darparu ffynonellau dilys o ddata ansawdd aer.

**Prosiect trywydd y seilwaith gwefru cerbydau trydan** – Datblygwyd y prosiect hwn mewn ymateb i’r angen i ddatgarboneiddio trafnidiaeth, a rhoi sylw i’r heriau newydd sy’n codi yn sgîl y nifer cynyddol o gerbydau trydan.

**Y Gronfa Datblygu Eiddo** – Datblygwyd y prosiect hwn sy’n werth £4.5m i gefnogi dichonoldeb cynlluniau’r sector preifat i ddatblygu adeiladau pwrpasol a hapfasnachol yn Ardal Fenter Glannau Port Talbot (Glannau’r Harbwr, Parc Ynni Baglan ac Ystâd Ddiwydiannol Baglan).

# Bargen Ddinesig Bae Abertawe


Ar ben y ddwy raglen a arweinir gan Gastell-nedd Port Talbot y gwelir eu manylion ar dudalennau 66 a 67, mae dwy raglen ranbarthol ychwanegol yn cynorthwyo Castell-nedd Port Talbot, sef:

## Y Rhaglen Seilwaith Digidol

Mae'r Rhaglen Seilwaith Digidol yn cynnwys tair ffrwd waith, sef Lleoedd Cysylltiedig, Gwledig a Rhwydwaith Diwifr y Genhedlaeth Nesaf, a'i nod yw cyflwyno buddsoddiad cysylltedd gwerth £175m yn y rhanbarth, gan roi hwb o £318m i'r economi ranbarthol.

Nod y ffrydiau gwaith yw cefnogi cyflwyno gwell cwmpas a chapasiti symudol, ynghyd â band eang â chysylltedd sy'n gallu delio â gigabit, ar draws Cyngor Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys cyllid uniongyrchol ar gyfer 19 o safleoedd y cyngor.

Mae ffrwd waith Rhwydwaith Diwifr y Genhedlaeth Nesaf yn cefnogi cyflwyno synwyryddion Rhwydwaith Arloesi Digidol diwifr Rhyngrwyd Pethau (IOT) ar draws y sir. Bydd y rhwydwaith Rhyngrwyd Pethau yn fodd i sefydliadau gasglu data o bell trwy'r synwyryddion. Mae swyddog Ymgysylltu Band Eang CNPT yn cynnal sesiynau personol gyda thrigolion i esbonio'r dewisiadau sydd ganddynt o ran mynd ar-lein.




Mae argaeledd band eang gosodedig cyflym yn ardal CBS Castell-nedd Port Talbot wedi cynyddu'n sylweddol ers 2019 ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru.

Bellach, mae 99% o drigolion yn gallu cael mynediad at gysylltiad cyflym iawn o 30Mb/yr eiliad+, tra bod 75% o drigolion yn gallu cael mynediad at wibgyswllt ar gyflymder o 300Mb/yr eiliad+.

## Rhaglen Sgiliau a Thalentau

Nod y rhaglen Sgiliau a Thalentau yw cyflwyno ateb rhanbarthol sy'n nodi ac yn darparu gofynion sgiliau a hyfforddiant holl brosiectau'r Fargen Ddinesig. Gan ganolbwyntio ar sectorau diwydiant twf uchel yn y sector digidol, adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu clyfar a iechyd a llesiant, bydd y rhaglen yn darparu 2,200 o gyfleoedd sgiliau a datblygu ychwanegol, 14,000 o unigolion mwy medrus a 3,000 o gyfleoedd prentisiaeth newydd. Fydd hym yn cefnogi busnesau trwy ganiatáu iddynt dyfu a chyfnerthu i'r dyfodol trwy ddatblygu gweithlu talentog yn y rhanbarth.

Mae Sgiliau a Thalentau hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Bwrdd Pontio Tata Steel i uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr er mwyn eu cadw yn y rhanbarth. Drwy weithio ochr yn ochr â phartneriaid o'r sector preifat, addysg uwch ac addysg bellach, ysgolion a'r trydydd sector, mae tîm y rhaglen yn gweithio'n gyson i nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol a phennu'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu cyrsiau a fframweithiau newydd i lenwi'r bylchau sgiliau hyn. Mae prosiectau peilot, sy'n cyfateb i anghenion diwydiant a themâu allweddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe, yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith.



Mae 13 prosiect peilot a gyllidir trwy **Sgiliau a Thalentau** ar waith ar draws Castell-nedd Port Talbot, gyda gweithgareddau'n digwydd ar draws ein hysgolion cynradd ac uwchradd, y coleg a sefydliadau dysgu seiliedig ar waith.

**“Sicrhau bod trigolion Castell-nedd Port Talbot mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y gyrfaoedd a fydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol.”**

## Cyflymu Economi Werdd Cymru

PORTHLADD RHYDD CELTAIDD
CELTIC FREEPORT

# Y Porthladd Rhydd Celtaidd

Mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn strategaeth ar gyfer darparu catalydd i fuddsoddi a datblygu yng nghyffiniau porthladdoedd Aberdaugleddau a Phort Talbot, gan gwmpasu datblygiadau ynni glân ac asedau arloesi, terfynellau tanwydd, gorsaf bŵer, y diwydiant dur a pheirianneg trwm ar draws De-orllewin Cymru.
Mae'r datblygiad yn cynnwys buddsoddiadau cyfalaf dwys sydd yn y sefyllfa orau i fanteisio ar y pecyn penodol o fesurau treth a gynigir gan Borthladd Rhydd, megis:

- Y clwstwr gweithgynhyrchu a chylch oes Ffermydd Gwynt oddi ar y lan (FLOW);
- diwydiannau di-garbon eraill (e.e. hydrogen),
- gweithgynhyrchu uwch,
- technolegau newydd arloesol (e.e. tanwydd cynaliadwy ar gyfer awyrennau)

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso'r Achos Busnes Amlinellol a gyflwynwyd cyn Rhagfyr 2023 a disgwylir cyhoeddiad cadarnhaol yn y man. O ystyried amseroldeb cyflwyno gweledigaeth y Porthladd Rhydd, symudwyd ymlaen gyda'r gwaith o lunio'r Achos Busnes llawn a ddylai gael ei gyflwyno i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn yr hydref.

Amcangyfrifir y bydd 11,500 o swyddi yn cael eu darparu ar draws Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Mae hyn yn llai na'r ffigur yn yr achos Busnes Amlinellol ac mae'n adlewyrchu penderfyniadau diweddar ynghylch dyraniad cyllid y Llywodraeth i gefnogi seilwaith porthladdoedd; oedi wrth gyflwyno gwelliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith trawsyrru trydan er mwyn cynyddu capasiti, a mwy o gystadleuaeth o wledydd tramor a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.



Ym mis March 2024 croesawodd y Porthladd Rhydd Celtaidd ei Brif Weithredwr parhaol cyntaf, Luciana Ciubotariu, i wireddu'r prosiect hanfodol hwn i ailsefydlu diwydiant, datgarboneiddio ac adfywio.

Bydd gwaith y Porthladd Rhydd yn sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn cyflwyno diwygiadau i fwyafu'r manteision ar y tir sy'n gysylltiedig â Ffermydd Gwynt oddi ar y lan, gan gefnogi ein heconomi leol.

Ysgogir a chyflymir twf diwydiannau sero net ar dir diwydiannol a danddefnyddir yn ardal Castell-nedd Port Talbot a hyrwyddir gwaith adfywio a gwella seilwaith yn ardal y porthladd a'i ffiniau allanol er mwyn cyflawni twf economaidd a chynaliadwyedd hirdymor.

Yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes llawn, bydd pob Porthladd Rhydd yn derbyn hyd at £26 miliwn gan y Llywodraeth. Bydd hyn ar ben ystod o fesurau, gan gynnwys cadw ardrethi busnes lleol er mwyn uwchraddio'r seilwaith lleol a rhoi hwb i adfywio. Bydd busnesau a leolir yn y Porthladdoedd Rhydd hyn yn gallu manteisio ar ryddhad hael ar drethi a gweithdrefn dollau symlach, ynghyd â phecyn o gymorth masnachu ac arloesi.

## Cyflogadwyedd a Sgiliau

Mae Cyflogadwyedd Castell-nedd Port Talbot wedi sefydlu proses un drws yn y blaen sy'n cwmpasu ystod eang o ymyriadau i helpu a chefnogi unigolion o oed ysgol gyfun i oed ymddeol gyda chyfleoedd llesiant, cyflogaeth, hyfforddiant, profiad gwaith a gwaith am dâl. Cynigir cymorth i bobl sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith, a rhoddir ystyriaeth i bobl â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Hwb, a leolir yng Nghanolfan Siopa Aberafan, Port Talbot hefyd yn hyrwyddo'r "dull gweithredu un drws yn y blaen" o ymdrin â chymorth cyflogaeth. Mae'r Hwb ar agor bob dydd (o ddydd Llun i ddydd Gwener) gydag asiantaethau partner yn defnyddio'r lleoliad ar gyfer apwyntiadau. Ar gyfartaledd, mae'r Hwb yn croesawu 50 o ymweliadau galw heibio bob mis gan bobl sy'n chwilio am gymorth cyflogaeth.

Mae cynlluniau ar waith i edrych ar leoli adnodd parhaol yn Llyfrgell Pontardawe, gan weithio gyda'n cydweithwyr o'r tîm Ystadau a phartneriaid o Brifysgol Abertawe, gyda'r nod o helpu trigolion Pontardawe a Chwm Tawe. Gosodwyd stondin Gwybodaeth am Gyflogaeth ym marchnad Castell-nedd am 8 wythnos. Bu hynny'n llwyddiannus o safbwynt atgyfeiriadau i brosiectau ac roedd yn gam cadarnhaol o ran sicrhau ein bod yn weladwy yng nghanol tref Castell-nedd. Mae'r map (ar y dde) yn dangos cwmpas ein gwaith cyflogadwyedd yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac mae rhestr lawn ar gael ar  gais.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy yn wynebu toriadau sylweddol yn 2024/2025, gan dderbyn £700,000 yn llai na'r hyn a ddarparwyd yn 2023/2024. Bydd hyn yn cael effaith fawr ar staff a darpariaeth y rhaglen yn ystod y misoedd nesaf.

### Allgymorth Cyflogadwyedd CNPT

*Yn ystod 2023/2024 atgyfeiriwyd cyfanswm o 2501 o bobl i gael cymorth cyflogadwyedd gennym.*



## Cyflogadwyedd a Sgiliau

Cynhaliodd y Gwasanaeth 'Sea Rangers' ymgyrch recriwtio yn ardal CNPT, gan chwilio am bobl ifanc 18-29 oed i gael eu hyfforddi i fonitro natur yn ein moroedd, ymchwilio iddi a'i hamddiffyn. Cynigia'r rhaglen gyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn Bŵtcamp lle profir cymhelliad a sgiliau gwaith tîm y cyfranogwyr a'u gallu i ddysgu. Wedi hynny, eir â'r cyfranogwyr a ddewiswyd ar y dŵr ar alldeithiau hwylio, a bydd y rhai llwyddiannus yn cael swydd amser llawn gyda'r gwasanaeth.

Roedd Andrew yn un o gyfranogwyr Cyflogadwyedd CNPT. Gyflwynodd gais i raglen y Sea Rangers chyda chefnogaeth ei fentor. Cymerodd ran mewn bŵtcamp am 8 diwrnod yn Lloegr. Yn dilyn hynny, cynigiwyd lle i Andrew ar y rhaglen a theithiodd i'r Iseldiroedd ym mis Mawrth 2024 i ddechrau hyfforddi a dod yn Sea Ranger amser llawn. Fel rhan o'n cefnogaeth ni, bu modd hefyd i ni brynu pasbort i Andrew, i ganiatáu iddo deithio, ynghyd â dillad glaw ar gyfer yr hyfforddiant. Roedd y rhain yn eitemau yr oedd yn rhaid iddo eu prynu ei hun er mwyn gallu dechrau'r rhaglen, ond gan ei fod yn ddi-waith ar y pryd, nid oedd hynny'n bosib.

"Rwy'n teimlo'n gyffrous ac yn edrych ymlaen at y dyfodol gyda'r Sea Rangers".



*Dywedodd Andrew "Ro'n i'n gyffrous iawn pan hysbysebwyd y cyfle gan deimlo ei fod yn gyfle unwaith mewn oes i mi ddilyn gyrfa fy mreuddwydion am weddill fy oes, gobeithio. Fe wnes i fwynhau'r broses ddethol a gwyddwn yn bendant mai dyma'r gwaith i mi. Rwy wedi cwrdd â phobl anhygoel ar fy nhaith hyd yn hyn ac rwy'n gwybod y byddan nhw'n ffrindiau oes. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle hwn a'r cymorth ychwanegol ges i gan fy mentor."*



"Rwy'n mwynhau fy ngwaith! Rwy'n ennill llawer mwy nag roeddwn i'n gael mewn taliadau budd-dal. Alla i ddim diolch digon i Gyflogadwyedd CNPT am fy helpu i gael y swydd ac fe faswn i'n argymell bod unrhyw un sy'n chwilio am waith, pa mor hir bynnag y buoch yn ddi-waith, yn cysylltu â nhw i gael cymorth".

Roedd SH, sy'n 55 oed ac yn dod o Gastell-nedd, wedi bod yn ddi-waith am ddwy flynedd. Ymaelododd ym mis Hydref 2023, a chyda chefnogaeth, symudodd ymlaen i Gyfle Gwaith am Dâl (PWO) ym mis Rhagfyr 2023. Yn ystod ei hyfforddiant PWO, trefnwyd i SH gymryd rhan yng nghwrs Dyfarniad Qualsafe Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (EFAW). Ar ôl llwyddo ar y cwrs, mae gan SH bellach Dystysgrif Lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sydd wedi cryfhau ei CV. Daeth cyfnod 12 wythnos PWO SH i ben ym mis Mawrth 2024, ac ar ôl creu argraff dda ar Paul Watkins, Rheolwr Gweithrediadau AWD â'i allu i weithio'n hyderus, cynigiwyd gwaith amser llawn iddo gydag AWD.



# Cyflogadwyedd a Sgiliau

## Gweithio gyda chyflogwyr lleol

Mae ein Swyddogion Cyswllt Cyflogaeth yn cydweithio'n agos â busnesau lleol i nodi cyfleoedd am swyddi gwag amser llawn/rhan amser, profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli. Mae'r cysylltiadau hyn wedi cefnogi cyflwyno 'Diwrnodau Recriwtio'. Ar ben hynny, mae'r Cydgysylltydd Prentisiaethau yn gweithio ochr yn ochr â'r Swyddogion Cyswllt Cyflogaeth i edrych ar ddefnyddio sgiliau trosglwyddadwy'r cyfranogwyr a chyfleoedd prentisiaeth.

Sefydlwyd grŵp Cydlynu Cysylltiadau Cyflogaeth i annog mwy o gyfathrebu rhwng cydweithwyr sy'n cynnig cymorth/gwasanaethau i gyflogwyr. Bu'r grŵp yn fforwm i rannu gwybodaeth ac mae'n datblygu taflen ar gyfer dull 'un cyngor' o ymdrin â busnesau, sy'n cynnwys yr ystod o gymorth sydd ar gael. Mae'r grŵp mewnol hwn yn cysylltu â'r Grŵp Cymorth Busnes, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cefnogi cyflogaeth yn ardal CNPT.

## Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Prynwyd 30 lleoliad gyda'r GIG, a ganiataodd i ni gynnig ymgeiswyr oedd â diddordeb mewn gweithio i'r GIG, yn eu dewis faes.

Gwelsom bobl yn dechrau lleoliadau mewn rolau Gweinyddol, cymorth TG, ac yn swyddi Porthor a chlercod apwyntiadau. Mae'r lleoliadau'n para rhwng 6 a 12 wythnos gan roi cyfle i'r unigolion fagu profiad ar gyfer eu CV. Ar ben hynny, cawsant eu trin fel ymgeiswyr mewnol wrth ymgeisio am swyddi, cynigiwyd cyngor iddynt ar sut i wneud cais am swyddi gyda'r GIG a rhoddwyd cyfle iddynt gyflawni'r hyfforddiant gorfodol sy'n angenrheidiol er mwyn gweithio yn y GIG.

Yn ystod 2023/2024 roedd 30 o bobl wedi dechrau lleoliadau, gyda 26 yn eu cwblhau a 15 yn cael eu cyflogi gan y GIG.

### Diwrnodau Recriwtio

- Ffair Swyddi Port Talbot (mwy na 30 o gyflogwyr)
- Ffair Swyddi Castell-nedd (mwy na 30 o gyflogwyr)
- Diwrnod Recriwtio Amazon
- Diwrnod Hyrwyddo Drive Recruitment
- Diwrnod Recriwtio'r DVLA
- Diwrnod Recriwtio LLAMAU
- Diwrnod Recriwtio Acorn
- Diwrnod Recriwtio Cynorthwywyr Dysgu
- Diwrnod Recriwtio Swyddogion Diogelwch
- Diwrnod Recriwtio Gwaith Gofal










I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch ni ar **@nptemployability** neu ewch i **www.npt.gov.uk/employability**

## Cyflogadwyedd a Sgiliau

### Cymorth yn y Gwaith

Nid yw cynnig cyfredol Cyflogadwyedd CNPT yn cefnogi unigolion sydd mewn gwaith eisoes ond sy'n dymuno uwchsgilio neu ailhyfforddi er mwyn cael cyflogaeth well, boed hynny yn oriau ychwanegol neu'n gyflog uwch.

Cyflwynodd y tîm ffurflen Mynegi Diddordeb i Gronfa Twf Cymunedau Cynaliadwy y Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn cynnwys hyn yn narpariaeth gyfannol Cyflogadwyedd CNPT. Dyfarnwyd y cyllid hwnnw iddynt a dechreuodd y rhaglen ym mis Ionawr 2024.

Mae gennym bellach ddarpariaeth gyffredinol i gefnogi pobl sydd mewn gwaith eisoes ond sydd am uwchsgilio, ailhyfforddi neu symud i swydd sy'n talu mwy. Fel rhan o'n rhaglen cymorth yn y gwaith rydym yn cyflogi mentor i weithio gyda phobl sydd mewn gwaith ond sydd â chontract dim oriau, oriau isel a/neu sy'n derbyn budd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i ychwanegu at eu henillion.

Hyd yn hyn, ymgysylltwyd â 43 cyfranogwr, cafodd 8 gyflogaeth fwy cynaliadwy a derbyniodd 2 hyfforddiant i'w helpu i gynyddu eu horiau neu gael gwaith mwy cynaliadwy.



### Datblygu Pobl ar gyfer y Dyfodol

Cymeradwywyd cais Prentisiaeth a gyflwynwyd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yn rhan o gronfa angori Pobl a Sgiliau Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wella ein swyddi Pwysig i Fusnes ac ymateb i'r ffaith fod ein gweithlu mewnol yn heneiddio, cafodd cais 'Datblygu Pobl ar gyfer y Dyfodol' ei gyflwyno a'i gymeradwyo.

Mae'r cais ar y cyd hwn (rhwng y tîm Hyfforddi a Datblygu Corfforaethol a'r Tîm Cyflogadwyedd) wedi caniatáu i ni recriwtio prentisiaid a phrentisiaethau gradd. Mewn adrannau lle mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn nodi prinder sgiliau a swyddi sy'n bwysig i fusnes fel rhan o broses cynllunio ar gyfer olyniaeth. Daeth 30 cais i law gan reolwyr ac aed ati i gasglu gwybodaeth er mwyn cadarnhau bod pawb a gyflwynodd gais wedi darparu eu cynlluniau olyniaeth a nodi camau gweithredu a chyfleoedd, hyfforddi a datblygu ar gyfer y prentisiaid.

Mae tîm prosiect Datblygu Pobl ar gyfer y Dyfodol wedi llunio rhestr fer o geisiadau gan ddefnyddio meini prawf gradd Coch, Ambr a Gwyrdd i gefnogi recriwtio i'r swyddi allweddol a nodwyd yn y cynllun ar gyfer olyniaeth a ddaeth i law hyd yn hyn. O'r 30 cais, cysylltwyd ag 11 rheolwr i gynnig cyllid ar gyfer 12 prentisiaeth.

Rydym bellach wedi ymestyn 3 swydd sydd eisoes yn bodoli ac rydym wrthi'n cynnal cyfweliadau ar gyfer y 9 swydd sy'n weddill. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r swyddi prentisiaeth trwy wahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys gwefan CNPT, Facebook a LinkedIn/Indeed.

# Cyflogadwyedd a Sgiliau

## Cymorth Pontio Tata

Yn dilyn cyhoeddiad Tata Steel UK (Medi 2023) o'i gynlluniau i symud ymlaen â datgarboneiddio ei safle yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae Cyflogadwyedd CNPT wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid Grŵp Cymorth Tata i gynllunio ar gyfer gwasanaethau cyflogadwyedd pryd angen.

Paratowyd sesiynau cymorth i'w hestyn yng nghlwb cymdeithasol Tata i gyflogeion sy'n chwilio am gymorth cyflogaeth a hyfforddiant. Mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Cymru'n Gweithio, datblygwyd taflen i'w dosbarthu o fewn Tata trwy sianeli cyfathrebu'r cwmni ei hun.

Mae gwaith pellach yn digwydd gyda busnesau lleol sy'n cynnig recriwtio gweithwyr sydd wedi'u dadleoli.

Mae angen i ni ddeall effaith bosib newidiadau Tata ar y cwmni; pa gyfleoedd arallgyfeirio y gallai'r cwmni eu hystyried, a ydynt yn barod i ymuno ag unrhyw farchnad, ac a ydynt yn ystyried y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â FLOW – ble bydd angen buddsoddiad arnynt, h.y. galluogrwydd a chapasiti cyfredol; sgiliau, ac ati.




Comisiynwyd gwaith ymgynghoriaeth i gyflwyno asesiad o'r cwmnïau gweithgynhyrchu lleol y bydd cynlluniau pontio Tata yn effeithio arnynt. Dylai'r gwaith hwn ddarparu sylfaen o dystiolaeth i gefnogi strategaethau a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol. Yn ogystal, rydym yn dod i ddeall y cyfleoedd cadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â Ffwrnais Arc Drydan Tata a phrosiectau megis Prosiect Draig Lanzatech.

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n cael cefnogaeth gan Cyflogadwyedd CNPT i symud i addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a gwaith gwirfoddol. | 108 | Cynyddu | 130 |
| Nifer y Prentisiaid Mewnol ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol cydnabyddedig. | 110 | Cynyddu | 164 |
| Nifer yr wythnosau o hyfforddiant a gwblhawyd ar ffurf prentisiaethau mewnol, cyfnodau o hyfforddiant a phrofiad gwaith. | 1867 | Cynyddu | 436 |
| Nifer y bobl a gynorthwywyd gan Cyflogadwyedd CNPT sy'n sicrhau cymhwyster lefel 2 neu uwch. | Mesur newydd | Cynyddu | 28 |
| Nifer y bobl economaidd anweithgar a gafodd gefnogaeth i symud i gyflogaeth. | Mesur newydd | Cynyddu | 7 |
| Nifer yr unigolion o aelwydydd di-waith a gafodd gefnogaeth gan Cyflogadwyedd CNPT i symud yn ôl i waith. | Mesur newydd | Mesur newydd | 404 |
| Nifer yr ymholiadau busnes a gafodd gymorth gan arwain at roi cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth ariannol i gwmnïau sydd eisoes yn bodoli trwy'r Gwasanaethau Busnes. | 515 | Cynyddu | 895 |

| Mesurau Perfformio | Y sefyllfa ar ddiwedd 2022/2023 | Blwyddyn Academaidd 2021/2022 | Y rhagolwg ar gyfer 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| Grantiau busnes a roddwyd fel % o'r cyllid sydd ar gael. | Mesur newydd | Mesur newydd | 53% |
| % y gostyngiad yn arwynebedd llawr adeiladau'r cyngor a feddiannir. | Gostyngiad o 5.9% yn arwynebedd 2022/2023 a oedd yn 22,010$m^2$ | Llaihau | Ddim ar gael |
| Mannau busnes o safon uchel sydd ar gael/yn cael eu datblygu. | 4894$m^2$ | Cynyddu | 415$m^2$ |

## Yr Iaith Gymraeg

Mae ein hymrwymiad i Safonau'r Gymraeg yn parhau, gyda'n Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2023/2024 yn amlygu ein gwaith yn rhoi'r safonau ar waith, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen rhagor o waith. Nododd y perfformiad, a gafodd ei fonitro gan Gomisiynydd y Gymraeg a'i gynnwys yn yr adroddiad diweddaraf, 2022/2023, welliannau cydymffurfiaeth ar draws ystod o wasanaethau.

Rhoddwyd hwb pellach i'n hyder o ran bodloni'r safonau yn sgîl y ffaith na chafwyd cwynion trwy Gomisiynydd y Gymraeg yn 2022/2023. Ym mis Gorffennaf 2023, cadarnhaodd Tribiwnlys y Gymraeg benderfyniad y Comisiwn ynghylch cwyn a ddaeth i law yn wreiddiol yn 2021. Roedd atgyfeirio i Dribiwnlys y Gymraeg yn golygu mwy na herio penderfyniad y Comisiynydd; y diben oedd rhoi sylw i bryderon ynghylch effaith bosibl dehongli Safonau'r Gymraeg ar unrhyw ymgynghori gan y cyngor ar unrhyw destun ac felly ceisio arweiniad cyfreithiol ac ymarferol pellach.

Mae ail iteriad ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023/2028 yn mynd y tu hwnt i ddefnyddio'r Gymraeg; y nod yw treiddio i wead ein cymdeithas, o helpu i sicrhau bod cyrsiau iaith ar gael i bawb sy'n dymuno dysgu, a darparu amgylchedd lle mae modd defnyddio'r iaith, i ddathlu a chynyddu ymwybyddiaeth o'i lle yn ein treftadaeth a'n diwylliant, yn ein bywydau beunyddiol a'r hyn sydd gennym i'w gynnig i ymwelwyr.

> Mae'r Gymraeg yn fwy na iaith yn unig, mae'n rhan o'n hanfod – p'un a gawsom ni'n geni yma neu beidio. Mae'n rhan o wead ein bywydau – hyd yn oed os nad yw'n amlwg ar unwaith; mae ein henwau lleoedd, ein henwau cyntaf, ein hymadroddion llafar, i gyd wedi'u gwreiddio yn y Gymraeg.




Yn dilyn y cyhoeddiad cyffrous y bydd Castell-nedd Port Talbot yn croesawu Eisteddfod yr Urdd i Barc Gwledig Margam ym mis Mai 2025, sefydlwyd grŵp cydlynu er mwyn archwilio cyfleoedd marchnata, cyfathrebu ac addysg a chynllunio ar eu cyfer lle bo hynny'n briodol.

Bydd hyn yn rhan allweddol o'r cynlluniau i ddod ag un o wyliau ieuenctid mwyaf Ewrop i'r fwrdeistref sirol, gŵyl sy'n denu miloedd o blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn cystadlaethau sy'n cynnwys canu, llefaru a dawnsio.

## Y Gymraeg Mewn Addysg

Cymeradwywyd cynllun gweithredu 5 mlynedd ein Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg gan Lywodraeth Cymru, ac mae targedau allweddol yn cael eu symud ymlaen a'u gwerthuso fel rhan o'r cynllun blynyddol. Ar ben hynny, rydym am gynyddu nifer y disgyblion meithrin i 331 (22.8%) a nifer y disgyblion Blwyddyn 1 i 308 (21%). Caiff y data ei ddadansoddi yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gynllun y Gymraeg mewn Addysg 2024 a'i fwydo'n ôl yn ystod tymor yr hydref 2024.

Cyflawnwyd gwaith sylweddol eisoes, ac mae'n werth nodi bod 100% o ysgolion CNPT wedi ymgysylltu â Siarter Iaith/Campws Cymraeg – Cyflawnwyd prosiect 10 wythnos llwyddiannus gyda thair ysgol cyfrwng Saesneg i dreialu gwreiddio Cynefin yn y cwricwlwm; mae gwaith yn parhau i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae Fforwm Iaith Abertawe a CNPT wedi cwblhau ymarferiad i fapio'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg - Mae 186 o weithgareddau ac adnoddau ar gael ar hyn o bryd. Nodwyd y bylchau yn y ddarpariaeth a chynhelir gwaith i roi sylw iddynt yn y dyfodol. Mae'r partneriaid cyfredol yn cynnwys:

- Menter Iaith, Mudiad Meithrin,
- Tŷ'r Gwrhyd, yr Urdd
- Cymraeg i Blant
- Technocamps
- Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe; ac
- Amgueddfa Cymru

Dyrannwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru 'i'w ddefnyddio i ddiogelu a thyfu'r iaith mewn cymunedau sy'n allweddol i'w dyfodol' (yn benodol, mewn ardaloedd lle gwelwyd 'gostyngiad ieithyddol yng Nghyfrifiad 2021') a chytunwyd ar Gynllun Gweithredu a ddatblygwyd gan gydweithwyr addysg sy'n canolbwyntio ar weithgareddau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ynghyd â chamau gweithredu penodol o Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Dyrannwyd y cyllid ac mae gwaith ar weithgareddau unigol eisoes wedi dechrau.

## Gweithgareddau Iaith Gymraeg

- Cynhaliwyd sesiynau Hyder-ish' yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2023. Mae'r sesiynau hyn sy'n targedu siaradwyr Cymraeg sydd wedi colli'r hyder i ddefnyddio'u sgiliau iaith, yn defnyddio gweithgareddau sy'n mynd â sylw ac yn lleihau'r pwysau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg.

- Rydym yn dal i hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i'n staff trwy ein grwpiau ar Viva Engage a thrwy'r rhaglen Hyfforddiant Cymraeg a ddatblygwyd gan yr is-adran Dysgu, Hyfforddi a Datblygu. Nid yw'r gwaith o hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith yn ehangach wedi'i wireddu'n llawn eto. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn symud ymlaen, mewn partneriaeth â Fforwm Iaith Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot. Mae'r cyhoeddusrwydd i weithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi ar bob lefel ar draws yr ardal wedi tynnu sylw a denu cyfranogiad.

- Mae'r gwasanaeth ieuenctid a'r Fenter Iaith wedi sefydlu clwb ieuenctid Cymraeg ychwanegol yn Nhrebannws sydd wedi bod yn boblogaidd.





## Cydraddoldeb

Rhan flaenllaw o'n gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu helpu i ymateb i'r heriau mae trigolion yn eu hwynebu – nid lleiaf ymdrin â'r anghydraddoldeb a wynebir gan lawer - yn fwyaf amlwg o ganlyniad i bandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw, addysg, hygyrchedd a chymdeithas ei hun.

Un ffactor yn unig yn ein gwaith i helpu i gyflawni hyn oedd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2020/2024. Datblygwyd y Cynllun yn ystod y pandemig, ar adeg y condemnio rhyngwladol ar ladd George Floyd a chynyddu ymwybyddiaeth o ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys. Roedd yn gofyn ein bod yn ailwerthuso ein hamcanion cydraddoldeb ac yn nodi camau gweithredu mwy brys i roi sylw i rai o'r mathau o anghydraddoldeb oedd yn cael eu profi ar y pryd.

Ers yr iteriad diwethaf hwnnw o'r Cynllun, mae ein byd wedi newid unwaith yn rhagor, ac mae'r newidiadau hynny wedi creu heriau ac anghydraddoldeb gwahanol a/neu fwy i'n cymunedau ac i ninnau. Er mwyn helpu i roi sylw i'r sefyllfa, dechreuwyd adolygu ein hamcanion cydraddoldeb, a bydd canlyniad hynny yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldeb a'i ddileu, lle bo modd, gan sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/2028 yn cyfateb yn well i'n cynlluniau statudol ac yn arbennig i Gynllun Corfforaethol 2024/2027.



Drwy ein Grŵp Rhwydwaith Cyflogeion Ethnig (yn y llun uwchben) cefnogwyd a rhannwyd yn nathliadau Hanes Pobl Dduon Cymru 365 ym mis Hydref 2023. Defnyddiwyd cyfuniad o siaradwyr gwadd, arddangos gwybodaeth am ein modelau rôl Du Cymreig, bywgraffiadau o ddisgynyddion y teuluoedd a symudodd i Bort Talbot yn y 1950au/1960au, a fideo o'r enw "Just ah likkle piece of Jamaica inna Port Talbot" i adrodd stori'r rhai a ymgartrefodd yma a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'n cymunedau.

Mae ein Grŵp Rhwydwaith Cyflogeion Ethnig yn cysylltu aelodau o staff o wahanol dreftadaeth neu gefndiroedd ethnig. Rydym am i'n staff gael mwy o sgyrsiau agored am eu profiadau a phennu'r materion a wynebir o ran amrywiaeth a chynhwysiad.

Nod y grŵp yw darparu cymorth a chyfleoedd rhwydweithio i aelodau'r grŵp, cynyddu ymwybyddiaeth amlddiwylliannol yn y gweithle, cyfrannu at strategaeth Gwrth-hiliaeth CNPT, a chymryd camau i sicrhau newid cadarnhaol.

Chwarae Teg FAIRPLAY EMPLOYER SILVER ARIAN

Adlewyrchir ymrwymiad tîm CNPT i gynhwysiad a chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y ffaith i ni ennill **Gwobr Arian Cyflogwr Chwarae Teg ym maes Amrywiaeth o ran Rhywedd**. Mae'r wobr hon yn cydnabod ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth ym maes recriwtio, cadw a datblygu menywod yn y gweithle.




Roedd y cyngor yn un o 17 cyflogwr mawr yng Nghymru i dderbyn **Gwobr Arian y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr (ERS)** yn 2023/2024 gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Gwobr yw hon sy'n cydnabod cyflogwyr sy'n mynd ati i ddangos eu cefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog trwy roi polisïau ar waith i'w helpu.

# Ymgysylltu a Chyfathrebu

## Parhewch i Sgwrsio

Bu ymgyrch 'Parhewch i Sgwrsio' ar waith rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2023

Roedd holiaduron ar gael ar-lein, mewn 41 o leoliadau ar draws CNPT, bu swyddogion a'r aelodau yn bresennol mewn 19 digwyddiad, ac roedd grwpiau ffocws hefyd ar gyfer ardaloedd y cymoedd.

- Ymgysylltodd cyfanswm o 1,949 o bobl â'r ymgyrch. Cafwyd ystod dda o ymatebwyr ond nid oeddent yn gwbl gynrychioliadol o boblogaeth trigolion CNPT:
- Dywedodd 84% o'r ymatebwyr eu bod yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Roedd mwy na hanner (57%) yr ymatebwyr yn fenywod ac roedd 42% yn wrywod.
- Roedd 50% o dan 25 oed; roedd ychydig mwy nag un rhan o bump (22%) yn 60 oed neu'n hŷn, ac roedd y 29% oedd yn weddill rhwng 25 a 59 oed.
- Mae'n werth nodi bod 44% (neu 681) o'r ymatebwyr yn blant ysgol.

Roedd peth cysondeb rhwng 2023 a 2021 o ran y themâu a godwyd, gyda llawer o'r sylwadau mewn ymateb i bwysigrwydd ffrindiau/teulu, materion iechyd a lles, addysg, yr economi, glendid a'r amgylchedd lleol ac ati.

Fodd bynnag, gwelwyd cryn wahaniaeth yn y ddwy set o atebion hefyd, gan eu bod yn tueddu i adlewyrchu materion cyfoes a oedd yn hawlio sylw pan gynhaliwyd yr ymgyngoriadau.

Er bod pryderon a sylwadau yn ymwneud yn benodol â phandemig COVID-19 (e.e. o ran llacio'r cyfyngiadau, teimladau am ddiogelwch, cau ysgolion, yr effaith ar gymunedau a theuluoedd, gweithio gartref ac ati) yn nodwedd amlwg mewn nifer sylweddol o'r ymatebion yn 2021, roedd y sylwadau hyn yn gymharol brin yn 2023.

Ar y llaw arall, gwelwyd bod materion yn ymwneud â chostau byw, chwyddiant a'r economi yn codi'n llawer amlach yn yr ymatebion i holiadur 2023, gan adlewyrchu'r pwysau a deimlid yn lleol ac yn genedlaethol ar y pryd. Mae modd gweld trosolwg o'r adborth o'r ymgyrch ar wefan y cyngor www.npt.gov.uk/lkt




## Panel Dinasyddion CNPT

Dechreuodd ymgyrch i recriwtio aelodau i Banel Dinasyddion CNPT ym mis Hydref 2023, yn ystod Wythnos Democratiaeth Leol. Roedd hyn yn cynnwys negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebu â chyflogeion a chyfeirio pobl ymlaen i wefan ymaelodi â'r Panel Dinasyddion fel rhan o ymgyngoriadau allweddol, e.e. yr Ymgynghoriad ynghylch Cynigion Drafft Cyllideb 2024/2025.

## Cymuned Ymarfer CNPT

Sefydlwyd Cymuned Ymarfer CNPT yn 2019 ac mae'r aelodaeth wedi tyfu i fwy na 60 o swyddogion y cyngor a chynrychiolwyr o sefydliadau partner, megis y Cydlynwyr Ardal Leol, y Gwasanaethau Ieuenctid ac ati.

Mae'r Gymuned Ymarfer yn dal i gyfarfod bob chwe wythnos a buont yn rhan allweddol o gefnogi gwaith ymgynghori ac ymgysylltu'r cyngor â'u grwpiau o randdeiliaid, yn enwedig yn ystod yr ymgynghori ar Gynigion Drafft Cyllideb 2024/2025.

Yn ogystal, cyfrannodd y grŵp at y gwaith rhagarweiniol i ddiweddaru Cyfansoddiad a Strategaeth Ymgysylltu y cyngor a'r pecyn offer cysylltiedig.

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (BGC)

Cyhoeddwyd ail Gynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot ar 4 Mai 2023 yn dilyn ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid. Mae'r gwaith o weithredu'r Cynllun wedi hen ddechrau, a chyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ym mis Gorffennaf 2024. Mae strwythur llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys cyfres o bartneriaethau dan fantell y Bwrdd sy'n ysgogi gwaith y Cynllun Llesiant. Mae'r cynnydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf yn cynnwys y canlynol:-

**Bod ein plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd**

Bu'r grŵp Arweinwyr Plant a Phobl Ifanc yn goruchwylio datblygiad Cynllun y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2024/2029. Bu ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn allweddol o ran llywio'r Cynllun hwn, ac mae'r partneriaid bellach yn llunio cynlluniau gweithredu er mwyn gyrru'r gwaith hwn ymlaen mewn modd cydweithredol.

**Bod ein cymunedau yn llewyrchus a chynaliadwy**

Cynhaliodd y Bartneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi 3 gweithdy amlasiantaeth llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, lle bu'r partneriaid yn rhannu gwybodaeth ac yn cydweithio fel bod pawb yn dod i ddeall effaith tlodi yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Cyflwynwyd cymorth sylweddol i'r rhai sy'n teimlo effaith yr argyfwng costau byw a datblygwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gaeaf gan y partneriaid. Mae'r offeryn Olrhain Teuluoedd Incwm Isel (LIFT) ar waith a chyflwynwyd nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-dal.

Mae'r sylw bellach ar ddatblygu Cynllun Gweithredu ynghylch Tlodi ar gyfer CNPT ac ymchwilio ymhellach i wraidd tlodi er mwyn llywio atebion hirdymor. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio gyda chymunedau yn CNPT i leihau troseddu, ofn troseddu a chefnogi cydlyniant cymunedol.



# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (BGC)

**Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth**

Sefydlwyd partneriaeth Hinsawdd a Byd Natur ar gyfer CNPT a'r grŵp hwn fydd yn arwain Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd (CCRA) ar gyfer yr ardal. Cefnogir yr asesiad gan ganllawiau Fframwaith Cyfoeth Naturiol Cymru a ddatblygwyd i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnal eu Hasesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd yng nghyswllt eu Cynlluniau Llesiant. Cyhoeddwyd Strategaeth Diwylliant ar gyfer CNPT ochr yn ochr â Strategaeth Treftadaeth a Chynllun Cyrchfan. Mae'r gwaith o gyflwyno'r strategaethau hyn wedi dechrau ac fe'i cefnogir gan dîm diwylliant a gafodd ei gryfhau yn sgîl cais llwyddiannus i Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig. Datblygir Model Compact Diwylliant i gefnogi'r sector diwylliant lleol ac ehangu ei gyfraniad i waith datblygu, gyda phwyslais arbennig ar ymgysylltu traws-sector y tu hwnt i'r sector diwylliannol ei hun a'r awdurdod lleol.

**Bod ein cymunedau yn llewyrchus a chynaliadwy**

Mae'r Bartneriaeth Economaidd Leol, a sefydlwyd yn wreiddiol i gefnogi adferiad economaidd yn dilyn y pandemig, wedi cael ei hadolygu a'i diwygio. Bydd y grŵp hwn yn cyflwyno amcan llesiant economaidd y BGC ond hefyd yn tynnu llinynnau'r gwaith datblygu economaidd yn CNPT ynghyd wrth i ni gefnogi eich cymunedau trwy'r cyfnod pontio economaidd sydd o'n blaen. Cam gweithredu cychwynnol fydd mapio'r strategaethau datblygu economaidd ar draws yr asiantaethau partner er mwyn nodi bylchau ac osgoi dyblygu gwaith, ynghyd â nodi cyfleoedd i gydweithio. Ar ben hynny, mae BGC CNPT yn dal i gydweithio â BGC Abertawe er mwyn rhoi sylw i gamddefnyddio sylweddau a chefnogi lleihau nifer y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yn yr ardal.

Eleni mae partneriaid y BGC wedi cymryd rhan mewn rhaglen meithrin galluoedd a gyllidwyd trwy Grant Cymorth Rhanbarthol y BGC a'i chyflwyno gan CARP Collaborations. Nod y rhaglen oedd gwella ein ffordd o grynhoi a chofnodi profiadau bywyd a'u defnyddio i lywio ein gwaith. Rydym yn edrych ymlaen at roi'r dysgu ar waith yn y flwyddyn sy'n dod wrth i ni barhau i gyflwyno'r Cynllun Llesiant.